

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD		NOTICE OF MEETING	
PWYLLGOR GWAITH (CYLLIDEB)		THE EXECUTIVE (BUDGET)	
DYDD LLUN 19 CHWEFROR 2018 10.00 o'r gloch		MONDAY 19 FEBRUARY 2018 10.00 am	
SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI		COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI	
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518	Committee Officer	

AELODAU/MEMBERS

Plaid Cymru/Party of Wales

John Griffith, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAGS

Annibynnol/Independent

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

2 **MATERION BRYD A ARDYSTIWIYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion bryd ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

3 **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 3 2017/18** (Tudalennau 1 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

4 **2017/18 ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 3** (Tudalennau 29 - 38)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

5 **MONITRO'R GYLLIDEB CRT, CH 3 2017/18** (Tudalennau 39 - 44)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

6 **FFIOEDD A THALIADAU 2018/19** (Tudalennau 45 - 78)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 **RHENTI'R CRT A THALIADAU'R GWASANAETH TAI 2018-2019** (Tudalennau 79 - 86)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

8 **CARTREFI'R AWDURDOD LLEOL AR GYFER POBL HYN - PENNU'R FFI SAFONOL** (Tudalennau 87 - 90)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

9 **GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL DIBRESWYL YN Y GYMUNED - FFI OEDD A THALIADAU 2018/19** (Tudalennau 91 - 98)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

- 10 **FFIOEDD GOFAL CARTREF YN Y SECTOR ANNIBYNNOL AR GYFER 2018/19**
(Tudalennau 99 - 110)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.
- 11 **ARIAN WRTH GEFN** (Tudalennau 111 - 130)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.
- 12 **CYNLLUN ARIANNOL Y TYMOR CANOL A'R GYLLIDEB 2018/19** (Tudalennau 131 - 208)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.
- 13 **CYLLIDEB GYFALAF 2018/19** (Tudalennau 209 - 258)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.
- 14 **POLISI AR GYFER CYMORTH DEWISOL TUAG AT Y DRETH GYNGOR**
(Tudalennau 259 - 274)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151.
- 15 **POLISI AR GYFER CYMORTH DEWISOL TUAG AT DRETHI BUSNES**
(Tudalennau 275 - 280)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.
- 16 **STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2018/19** (Tudalennau 281 - 318)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I'R:	PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	19 CHWEFROR 2018
PWNC:	MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 3 2017/18
AELOD (AU) PORTFFOLIOI:	Y CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH
PENNAETH GWASANAETH:	MARC JONES
AWDUR YR ADRODDIAD:	CLAIRE KLIMASZEWSKI
FFÔN:	01248 751865
E-BOST:	ClaireKlimaszewski@ynysmon.gov.uk
AELODAU LLEOL:	d / b
A - Argymhellid / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau	
<ol style="list-style-type: none"> 1. Ym mis Chwefror 2017, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2017/18 gyda gwariant net o £126.157m ar gyfer gwasanaethau i'w gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Cymeradwywyd £0.490m arall i'w wario ar ysgolion ac i'w gyllido o arian wrth gefn y Cyngor. Felly cyfanswm y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2017/18 yw £126.647m. 2. Yng nghyllideb 2017/18, roedd angen gwneud arbedion gwerth £2.444m. Mae'r swm hwn yn cynnwys £490k o arbedion ar gyfer Dysgu a fydd yn cael eu cyllido o'r arian wrth gefn fel y cytnwyd gan y Cyngor. Swm diwygiedig yr arbedion ar gyfer 2017/18 yw £1.954m. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau'r gwasanaethau unigol ac adlewyrchir llwyddiant neu fethiant i gyflawni'r rhain yn y (tan) / gorwariant a ddangosir. 3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd trydydd chwarter y flwyddyn ariannol, sy'n berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Rhagfyr 2017. Hefyd, ceir crynodeb o'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan. 4. Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2017/18, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a'r gronfa Dreth Gyngor, yw gorwariant o £1.624m. Mae hyn yn cyfateb i 1.29% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2017/18. 5. Argymhellir : - <ol style="list-style-type: none"> (i) Nodi'r sefyllfa fel y caiff ei nodi yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r canlyniad disgwylidig ar gyfer 2017/18; (ii) Cymeradwyo trosglwyddo unrhyw danwariant ar weithgareddau Arforol i gronfa wrth gefn wedi ei chlustnodi er mwyn talu i beintio Pier Biwmares; (iii) Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2017/18 fel y manylir arnynt yn Atodiad C; (iv) Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH; (v) Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2017/18 yn Atodiad D; (vi) Nodi monitro'r costau asiantaeth ac ymgynghorwyr yn 2017/18 yn Atodiadau DD, E a F. 	
B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?	
d / b	

C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.		
CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydi		
D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Ydi		
DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? sylwadau		Beth oedd eu
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol – Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	I'w gadarnhau
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Craffu	
8	Aelodau lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / arall / au	
E - Risgiau ac unrhyw liniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrth-dlodi	
3	Troseddau ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniadau	
7	Arall	
F - Atodiadau:		
<ul style="list-style-type: none"> • Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw - Chwarter 3, 2017/18 • Atodiad B - Tabl o'r Canlyniadau Refeniw a ragwelir ar gyfer 2017/18 • Atodiad C - Crynodeb o Gyllidebau Wrth Gefn 2017/18 • Atodiad CH – Adolygiad o'r prosiectau Buddsoddi i Arbed 2017/18 • Atodiad D - Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2017/18 • Atodiad DD – Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2017/18 • Atodiad E – Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr • Atodiad F – Crynodeb o'r Gwariant ar Ymgynghorwyr Chwarter 1 – 3 fesul adran 		
FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
Cyllideb Refeniw 2017/18 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 14 Chwefror 2017 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 28 Chwefror 2017).		

MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 3 2017/18**1. Balans Cyffredinol – Sefyllfa Agoriadol**

Roedd gan y Cyngor £13.357m o arian wrth gefn wedi ei glustnodi a £2.089m o arian wrth gefn ar gyfer ysgolion ar gychwyn y flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro terfynol ar gyfer 2016/17 at falansau cyffredinol ar gychwyn y flwyddyn ariannol gyfredol a oedd yn £8.355m. Balans Cronfa wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor ar 31 Rhagfyr 2017 oedd £8.105m. Bu gostyngiad o £250k oherwydd costau diswyddo ychwanegol a fydd yn arwain at arbedion effeithlonrwydd fel y cymeradwywyd hynny gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf 2017. Yn ychwanegol at hyn, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith drosglwyddo £123k o'r arian wrth gefn cyffredinol yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2018. Mae hyn er mwyn cyllido'r gost o £28k ar gyfer cael gwared ar y Rovacabin a £95k i gyllido costau cychwynnol ar gyfer prosiect mawr i gryfhau'r lôn ym Miwmares sy'n tueddu i bantio yn ystod tywydd eithafol. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd gorwariant o £1.642m yn 2017/18. Os yw'r tueddiad hwn yn parhau, mae cronfa wrth gefn gyffredinol y Cyngor yn debygol o ostwng i £6.340m erbyn diwedd y flwyddyn. Yn ychwanegol at hyn, efallai y bydd angen cymryd arian o'r balansau cyffredinol i dalu ffi dadfeiliadau yn dilyn trosglwyddo Ynys Lawd. Mae isafswm balans y gronfa wrth gefn gyffredinol wedi cael ei osod ar £6m ac fe gymeradwywyd hynny gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2017.

2. Rhagamcan o Berfformiad Ariannol yn ôl Gwasanaeth

2.1 Mae manylion am berfformiad ariannol pob gwasanaeth am y cyfnod a'r sefyllfa alldro a ragamcenir i bob gwasanaeth i'w gweld yn Atodiad B. Rhagwelir gorwariant o £2.461m (2.26%) ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2018. Mae hyn yn welliant o £245k ar Chwarter 2. Amcangyfrifir tanwariant o £503k ar Gyllid Corfforaethol, sy'n welliant o £172k ers Chwarter 2 oherwydd tanwariant a ragwelir ar gronfeydd hapddigwyddiadau oedd wedi'u neilltuo. Yn ogystal, rhagwelir gwarged o £334k ar gasglu'r Dreth Gyngor, ac o'r ffigwr hwn mae £247k o ganlyniad i warged ar y Premiwm Dreth Gyngor newydd. Fodd bynnag, mae hyn yn is na'r gwarged ar y Dreth Gyngor a ragwelwyd yn adroddiad Chwarter 2, sef £450k. Cyfanswm y rhagamcanion referniw ar hyn o bryd ar gyfer 2017/18 yw gorwariant o £1.624m, sef 1.29% o gyllideb referniw net y Cyngor. Mae hyn yn welliant o £300k ar y gorwariant o £1.924m (1.53%) a gafodd ei adrodd yn Chwarter 2.

2.2 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (£100k neu uwch). Nid yw'r rhagamcan yn dwyn i gyfrif unrhyw bwysau ychwanegol a allai godi os bydd y tywydd yn ddrwg yn ystod y gaeaf (cynnal a chadw priffyrdd dros y gaeaf, costau gofal cymdeithasol). Nid yw'n cynnwys ychwaith effaith y llifogydd difrifol a gafwyd ym mis Tachwedd 2017. Bydd unrhyw gostau a geir ar adeiladau'r Cyngor o ganlyniad i'r llifogydd yn cael eu talu o'r gronfa wrth gefn ar gyfer yswiriant a bydd costau'n sy'n gysylltiedig â thrwsio'r isadeiledd Priffyrdd yn cael eu cyllido drwy grant gan Lywodraeth Cymru a'r arian wrth gefn cyffredinol. Y pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol ar y Cyngor yw cost Rhiantu Corfforaethol. Disgwylir y bydd y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn gorwario £1.744m. Mae hwn yn Wasanaeth statudol sy'n cael ei arwain gan y galw ac sy'n anodd ei reoli.

**Crynodeb o Amrywiadau a Ragamcenir ar 31 Mawrth 2018
yn seiliedig ar wybodaeth ariannol fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2017**

	(Tan) / Gorwariant £000
Dysgu	771
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	1,744
Busnes y Cyngor	257
Costau Corfforaethol a Democrataidd	(264)
Cyllid Corfforaethol a Budd-daliadau a Roddwyd	(503)
Casglu'r Dreth Gyngor	(334)
Arall (cyfanswm yr amrywiadau'n llai na £100k)	(47)
Cyfanswm yr Amrywiadau yn y (tan)/gorwariant	1,624

3. Eglurhad o'r Amrywiadau Sylweddol

3.1 Dysgu Gydol Oes

3.1.1 Addysg Ganolog

3.1.1.1 Roedd gorwariant o £567k (35.07%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd Chwarter 3. Y rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yw gorwariant o £878k (31.23%). Y meysydd lle mae'r gorwariant yn sylweddol yw: cyllideb lleoliadau all-sirol lle rhagwelir y bydd gorwariant o £266k; Cludiant Ysgol lle rhagwelir y bydd gorwariant o £265k ac Addysg Ganolog arall lle rhagwelir y bydd gorwariant o £351k.

3.1.1.2 Mae'r gorwariant £260k yn fwy nag yr adroddwyd arno yn Chwarter 2. Rhagdybir y bydd cynnydd o £41k yn y gwariant ar leoliadau all-sirol oherwydd yr ymrwymadau addysg statudol sy'n gysylltiedig â phlant mewn lleoliadau arbenigol. Rhagwelir cynnydd o £63k yn y gorwariant ar brydau ysgol ac amcangyfrifir y bydd cyfanswm y gorwariant yn £90k; £38k ar gyfer y Bartneriaeth Ddysgu Ôl-16 a oedd yn cael ei hariannu gynt drwy fid twf ac mae £142k o'r gorwariant yn gysylltiedig â'r costau unwaith-ac-am-byth o sefydlu Strategaeth AAA newydd ar y cyd a chostau'r system Capita newydd.

3.1.1.3 Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau bid buddsoddi i arbed ar gyfer y system One Management. Disgwylir y bydd buddsoddi yn y system hon yn lleihau'r gwariant ar dacsis yn y dyfodol. Disgwylir i gydweithio gyda'r Gwasanaeth Caffael hefyd arwain at arbedion yn y gyllideb tacsis.

3.1.2 Diwylliant

3.1.2.1 Roedd tanwariant o £41k (3.69%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn a rhagwelir y bydd y tanwariant ar gyfer y flwyddyn yn £107k (7.9%). Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant (£90k) wedi digwydd yn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd lle mae swyddi'n parhau i fod yn wag hyd oni fydd canlyniad terfynol yr adolygiad o'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn hysbys. Rhagwelir y bydd tanwariant o £17k ar gyllidebau cyffredinol sydd ar ôl yn dilyn ailstrwythuro'r gwasanaeth Llyfrgelloedd a Diwylliant.

3.2 Gofal Cymdeithasol i Oedolion

3.2.1 Roedd gorwariant o £551k (3.17%) yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod ac ar gyfer y flwyddyn gyfan, rhagwelir y bydd y gorwariant yn £59k (0.26%). Bydd y gorwariant gwirioneddol hyd yma yn gostwng o £55k yn dilyn y lleihad a ragwelir yn y galw yn Chwarter 4. Hefyd mae angen cymryd rhywfaint o incwm grant, arian wrth gefn a chronfeydd ar gyfer hapddigwyddiadau i ystyriaeth yn Chwarter 4. Mae'r gorwariant a ragamcener ar ddiwedd y flwyddyn yn dangos gwelliant o £132k o gymharu â'r £191k yr adroddwyd arno yn Chwarter 2.

3.2.2 Mae'r amrywiadau yn yr alldro a ragamcener fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr henoed: rhagwelir tanwariant o (£230k);
- Anableddau Corfforol (AC): rhagwelir gorwariant o £352k;
- Anableddau Dysgu (AD): rhagwelir gorwariant o £304k;
- Iechyd Meddwl (IM): rhagwelir gorwariant o £106k;
- Uned Ddarparu: rhagwelir tanwariant o (£312k); a
- Rheolaeth a Chefnogaeth : rhagwelir tanwariant o (£161k).

3.2.3 Mae'r pwysau mwyaf sylweddol ar gyllidebau'r Gwasanaethau Anableddau Corfforol, Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl. Mae hyn oherwydd nifer fechan o leoliadau arbenigol cost uchel sydd eu hangen er mwyn cwrdd at anghenion cymhleth y defnyddwyr gwasanaeth hyn.

3.2.4 Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd camau i geisio gwrthbwysu'r gorwariant drwy ostwng gwariant yn y meysydd hynny y mae ganddo fwy o reolaeth drostynt. Mae'r uned ddarparu fewnol yn rhagamcanu tanwariant o £312k a disgwylir y bydd tanwariant o £161k mewn perthynas a Rheolaeth a Chefnogaeth erbyn diwedd y flwyddyn.

3.2.5 Mae oddeutu 59% o gyllideb y Gwasanaeth yn cael ei harwain gan y galw am y gwasanaethau. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus i geisio darogan costau'r gyllideb hon sy'n dibynnu ar y galw. Mae'r rhagamcan diwedd blwyddyn a wneir ar ddiwedd bob mis yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am bob lleoliad i oedolion. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd iawn rhagweld beth fydd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn a gall arwain at amrywiadau mawr o un cyfnod i'r llall.

3.2.6 Cyflwynwyd bidiau llwyddiannus am grantiau i'r Gronfa Gofal Canolraddol er mwyn sicrhau cefnogaeth ar gyfer Anableddau Dysgu ac yn benodol i gefnogi symudiad defnyddwyr gwasanaeth i wasanaethau gwahanol, llai drud o bosib, sy'n cynnig gwell canlyniadau o bosib i unigolion. Yn ychwanegol at hyn, mae'r adran yn ymgysylltu ar gyfnod o gyd-gynhyrchu gyda darparwyr gwasanaethau byw â chefnogaeth, gyda golwg ar newid y modd y sicheir canlyniadau ar gyfer unigolion yn yr amgylchedd hwn.

3.2.7 Mae'r flwyddyn hon yn flwyddyn heriol oherwydd cafwyd pwysau sylweddol ar y gyllideb gan gynnwys gostyngiad yn yr incwm Cefnogi Pobl a chynnydd yn y ffioedd byw â chefnogaeth sy'n gysylltiedig â thelerau ac amodau. Mae pwysau ychwanegol yn codi o'r gofynion o ran y Cyflog Byw wedi gostwng oherwydd mae'r Gwasanaeth wedi derbyn y "Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol" sydd wedi bod o gymorth i'r Gwasanaeth gyllido'r costau sy'n gysylltiedig â'r Cyflog Byw.

3.3 Gwasanaethau Plant

3.3.1 Roedd gorwariant o £1,419k (21.51%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd y gorwariant yn £1,744k (21.70%) ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae hyn yn cynnwys gorwariant rhagdybiedig o £1,834k mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyngofal (LAC). Mae cyfanswm y gorwariant a ragwelir ar gyfer 2017/18 £155k yn llai na'r gorwariant yr adroddwyd arno yn Chwarter 2. Cafodd cronfa wrth gefn o £221k ei chlustnodi er mwyn i'r gwasanaeth ymestyn contractau gweithwyr cymdeithasol asiantaeth. Mae hyn wedi lleddfu'r pwysau ariannol yr oedd costau asiantaeth yn eu rhoi ar y gwasanaeth. Mae cynnydd yn yr incwm mewnol hefyd wedi gwella alldro'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd.

3.3.2 Mae'r rhagamcanion yn seiliedig ar:-

- Rhagdybiaeth sefyllfa waethaf o ran y galw/costau sy'n gysylltiedig â Phlant sy'n Derbyngofal yn seiliedig ar gostau'r gwasanaeth/y galw/y galw tebygol yn y dyfodol;
- Rhagdybiaethau'n ymwneud â phenderfyniadau/datblygiadau mewn perthynas ag achosion. Mae'n anodd iawn rhagweld y rhain a gall amgylchiadau unigol newid, ac maent yn newid. Yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd a'r rhagdybiaethau mewn perthynas â phenderfyniadau/datblygiadau o ran achosion, gwnaed y rhagdybiaeth orau bosib. Mae cost LAC, yn ei hanfod yn dibynnu ar y galw a gall amrywio rhwng £3k - 10k yr wythnos mewn darpariaeth arbenigol.

3.3.3 Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gwrdd â chostau ymyraethau a gyfarwyddir gan y llys, e.e. asesiadau llety preswyl / llety â chymorth i rieni a phlant, cyswllt dan oruchwyliaeth ac asesiadau arbenigol eraill sydd hefyd yn anodd i'w rhagweld ac yn dibynnu ar y galw. Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn mynnu bod yr asesiadau hyn wedi cael eu cynnal cyn achosion ac mae hynny hefyd yn rhoi pwysau ar gyllidebau'r timau.

3.3.4 Mae'r Gwasanaethau Plant wrthi'n cael eu hailstrwythuro ar hyn o bryd a bydd y ffocws ar Ymyrraeth Gynnar ac Ymyrraeth Ddwys. Mae'r strwythur newydd yn canolbwyntio ar waith ataliol a chefnogi plant i barhau i fyw yn eu cartrefi yn ddiogel. Bydd adnoddau ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer y prosiect Trothwy Gofal o gymorth i gefnogi hyn ond bydd yn cymryd amser. Y cynnydd sylweddol yn nifer y plant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol yw'r rheswm pennaf pam fo'r gwasanaeth yn gorwario. Mae'r Gwasanaeth wedi gweld cynnydd o 72% (47/81) yn nifer y plant sy'n destun Gorchmynion Gofal Llawn dros y 3 blynedd ddiwethaf. Cost blynyddol lleoliad preswyl ar gyfartaledd yw £220k.

3.3.5 Er mwyn lliniaru'r gorwariant ar y lleoliadau hyn, mae'r Gwasanaeth wedi sefydlu cynllun gweithredu ar gyfer 2017/18 sy'n cynnwys: adolygu'r plant/pobl ifanc sydd mewn lleoliadau preswyl ar hyn o bryd; ceisio cynyddu'r dewis o leoliadau sydd ar gael ar yr Ynys; cefnogi plant i ddychwelyd i'w cartrefi pan mae'n ddiogel i wneud hynny ac adolygu'r cyllid sy'n cael ei gymeradwyo ar gyfer lleoliadau preswyl. Rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth yn awr gymeradwyo'r holl leoliadau preswyl.

3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

3.4.1 Roedd tanwariant o £21k (1.42%) yn y Gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod. Disgwylir i'r gwasanaeth fod o fewn ei gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

3.5.1 Economaidd a'r Gymuned (gan gynnwys Arforol a Hamdden)

- 3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd tanwariant o £118k yn y gwasanaeth ar ddiwedd chwarter 3 (7.05%). Rhagwelir y bydd gorwariant o £30k (1.55%) yn y gwasanaeth erbyn 31 Mawrth 2018. Mae hyn yn welliant o gymharu â'r gorwariant o £110k a ragwelwyd yn ystod Chwarter 2.
- 3.5.1.2** Rhagwelir y bydd tanwariant o £60k yn elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth erbyn diwedd y flwyddyn. Mae tanwariant ar staffio oherwydd swyddi gweigion ac incwm ychwanegol a gafodd ei adennill o raglenni mawr.
- 3.5.1.3** Disgwylir y bydd tanwariant o £60k ar ddiwedd y flwyddyn yn y gwasanaeth Arforol. Mae hyn oherwydd canslo'r bwriad i ail-baentio Pier Biwmares am ei fod yn rhy ddrud. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn gofyn am i'r swm hwn gael ei gario drosodd fel cronfa wrth gefn glustnodedig i 2018/19 i helpu i ariannu'r gwaith hwn. Byddai trosglwyddo £60k i gronfa wrth gefn glustnodedig yn golygu y byddai cyllideb y Gwasanaeth Arforol yn gytbwys.
- 3.5.1.4** Rhagwelir y bydd gorwariant o £90k erbyn diwedd y flwyddyn; mae hyn £20k yn llai na'r hyn a ragamcanwyd yn Chwarter 2. Mae incwm y canolfannau hamdden, gan gynnwys incwm y caffis, yn parhau i achosi pwysau oherwydd mae'r gwasanaeth yn ei chael yn fwyfwy anodd i gyrraedd targedau incwm. Nid yw'r ffigur yn cynnwys arbedion ar ardaloedd awyr agored sydd wrthi'n cael eu trosglwyddo i gyrrff allanol ar hyn o bryd.

3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

- 3.5.2.1** Roedd tanwariant o £462k (27.86%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn, ac roedd, £350k o hyn i'w briodoli i incwm gwarged o Ddatblygiadau Mawr. Yr un modd â'r llynedd, bydd cyfanswm yr incwm gwarged o ddatblygiadau mawr yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Wrth Gefn Glustnodedig ar gyfer Datblygiadau Mawr. Bydd y gronfa wrth gefn hon o gymorth i'r Cyngor gefnogi datblygiadau mawr yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd tanwariant o £60k (2.72%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn heb gynnwys yr incwm o ddatblygiadau mawr y soniwyd amdano uchod. Mae hyn yn is na'r tanwariant o £97k a ragamcanwyd yn ystod Chwarter 2. Mae hyn oherwydd pwysau unwaith ac am byth yn yr Adain Rheoli Cynllunio yn codi o gostau ymgynghori o £30k a chostau mwynau a gwastraff o £15k.
- 3.5.2.2** Mae tanwariant bychan yn y rhan fwyaf o'r cyllidebau yn yr Adran Gynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, ac eithrio Planning Delivery Wales; Grant Eiddo ac Amgylcheddol (PEG); Cefn Gwlad ac Arfordir; Cofrestryddion a Marchnadoedd sydd, fe dybir, am orwario rhywfaint. Rhagwelir y bydd tanwariant o £11k yn yr Adain Gynllunio yn gyffredinol erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelir y bydd tanwariant o £49k yn yr Adain Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer y flwyddyn ariannol.

3.6 Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo

3.6.1 Priffyrdd

- 3.6.1.1** Roedd gorwariant o £347k (5.34%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod a rhagdybir y bydd gorwariant o £86k (1.31%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn ostyngiad bychan o gymharu â'r gorwariant o £100k a ragamcanwyd yn ystod Chwarter 2. Nid yw hyn yn cynnwys effeithiau'r llifogydd ac unrhyw waith cynnal a chadw pellach bydd angen ei wneud dros gyfnod y gaeaf.

3.6.1.2 Mae yna nifer o danwariannau a gorwariannau a'r gorwariant mwyaf sylweddol yw'r £102k ar Ddylunio Cynnal a Chadw a £200k ar y contract cynnal a chadw newydd. Mae'r tanwariant mwyaf yn yr Adain Gwaith Stryd – a rhagamcenir swm o £170k.

3.6.2 Gwastraff

3.6.2.1 Roedd tanwariant o £78k (1.35%) yn y gwasanaeth Gwastraff ar ddiwedd y chwarter hwn a rhagwelir y bydd tanwariant o £20k (0.32%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn £5k yn llai na'r swm yr adroddwyd arno yn ystod Chwarter 2.

3.6.2.2 Mae'r Safle Cynhyrchu Trydan ym Mhenhesgyn yn parhau i rhagamcanu tanwariant o £15k oherwydd gostyngiad yn y gwariant ar gyflenwadau a gwasanaethau. Rhagwelir tanwariant o £30k mewn perthynas â Gorsaf Drosglwyddo Penhesgyn oherwydd tanwariant ar gostau cludiant ac eiddo. Rhagwelir y bydd y tanwariant ar Waredu Gwastraff yn cynyddu o £30k yn Chwarter 2 i £50k yn Chwarter 3 oherwydd gostyngiad yn y costau Gwaredu Gwastraff. Mae hyn oherwydd bod mwy o ddeunyddiau'n cael eu hailgylchu yn dilyn lansio'r troli-bocsys. Rhagwelir y bydd gorwariant o £75k yn y costau casglu gwastraff oherwydd casgliadau ychwanegol ar gyfer deunydd i'w ailgylchu.

3.6.3 Eiddo

3.6.3.1 Cafwyd gorwariant o £32k (3.19%) yn y Gwasanaethau Eiddo yn ystod y chwarter. Rhagwelir y bydd tanwariant o £7k (0.61%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn ostyngiad bychan o £4k o gymharu â'r tanwariant a ragamcanwyd yn Chwarter 2.

3.6.3.2 Rhagwelir y bydd gorwariant o £30k ar drwsio a chynnal a chadw adeiladau'r Cyngor, sef gwelliant o £20k o gymharu â'r chwarter diwethaf. Disgwylir i incwm o renti fod yn unol â'r gyllideb o gymharu â'r gwarged a ragamcanwyd yn ystod Chwarter 2. Disgwylir tanwariant bychan i gymedrol ar gyfer yr holl benawdau cyllidebol eraill ac eithrio costau gweddilliol rhesymoli swyddfeydd, lle disgwylir gorwariant o £5k.

3.7 Trawsnewid

3.7.1 Roedd gorwariant o £37k (1.29%) yn y gwasanaeth Trawsnewid yn ystod y cyfnod. Disgwylir y bydd cyfanswm tanwariant yn y gwasanaeth yn £99k (2.5%).

3.7.1.1 Mae cyllidebau'r adain TGCh dan bwysau oherwydd ymrwymadau sydd wedi llithro o 2016/17. Mae'r swyddogaeth yn parhau i ragamcanu gorwariant o £100k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

3.7.1.2 Mae'r swyddogaeth AD yn rhagweld tanwariant o £30k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn oherwydd gorwariant rhagamcanedig o £10k ar Wasanaethau Iechyd Galwedigaethol sy'n cael ei wrthbwysio gan danwariant o £40k oherwydd swyddi gwag yn y swyddogaeth. Roedd y swyddogaeth yn rhagweld eisoes y byddai'r gyllideb yn un gytbwys.

3.7.1.3 Rhagwelir y bydd tanwariant o £169k yn yr adain Trawsnewid corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd rheoli swyddi gwag ac arbedion mewn perthynas â Phartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd. Yn ystod y chwarter diwethaf, rhagwelwyd y byddai tanwariant o £40k yn y gwasanaeth am 2017/18. Mae'r gwelliant hwn oherwydd y cafwyd mwy o wybodaeth a oedd o gymorth i ragamcanu y tanwariant ar Bartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd yn ystod y chwarter hwn. Yr unig faes sydd dan bwysau yn y gwasanaeth Trawsnewid yw Cyswllt Môn lle rhagamcenir y bydd gorwariant o £22k.

3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a roddwyd)

3.8.1 Roedd gorwariant o £11k (0.46%) yn y swyddogaeth Adnoddau erbyn diwedd y cyfnod. Rhagwelir y bydd gorwariant o £44k (1.57%) yn y swyddogaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn gynydd bychan o gymharu â'r gorwariant o £40k a ragamcanwyd ar gyfer Chwarter 2. Mae hyn oherwydd pwysau ar gyllideb yr Adain Refeniw a Budd-daliadau (£77k), megis gorwariant ar staff asiantaeth a grantiau gweinyddu a oedd yn is nag y cyllidebwyd ar eu cyfer. Disgwylir y bydd gorwariant o £60k yn y maes rheoli Cyllid yn bennaf oherwydd targed arbedion anodd i'w gyflawni. Rhagwelir y bydd tanwariant o £21k yn yr adain Gyfrifeg. Bydd tanwariant ar staffio yn yr Adain Gyfrifeg yn gwrthbwysu nifer o bwysau cyllidebol, y rhai mwyaf sylweddol yw taliadau banc £24k a meddalwedd £13k. Rhagwelir y bydd tanwariant o £58k yn yr adain Caffael oherwydd rheoli swyddi gwag ac arbedion effeithlonrwydd caffael.

3.9 Busnes y Cyngor

3.9.1 Roedd gorwariant o £190k (16.3%) yn y swyddogaeth ar 31 Rhagfyr 2017 a rhagwelir gorwariant o £257k (15.91%) ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn gynydd o £50k ar y gorwariant o £207k yr adroddwyd arno yn Chwarter 2. Rhagwelir gorwariant o £300k ar gostau ymgynghorwyr i lenwi swyddi dros dro a ffioedd cyfreithiol allanol. Ni fu modd i'r gwasanaeth lenwi'r swyddi o'i adnoddau mewnol. Mae cost lawn y rhain yn cael eu gwrthbwysu'n rhannol gan danwariant o £75k ar staffio ac incwm ychwanegol o £33k ar bridianau tir. Mae'r swydd unedeb llafur nad oes cyllideb ar ei chyfer hefyd yn ychwanegu £10k at y pwysau cyllidebol. Rhagwelir y bydd gorwariant o £55k yn y Gwasanaethau Democratiadd o gymharu â'r £5k a ragamcanwyd yn ystod y chwarter diwethaf. Mae'r gyllideb gost gyfatebol yn cael ei thaenu ar draws y gwasanaethau a fydd yn tanwario gan swm cyfatebol. Bydd y cyllidebau hyn yn cael eu hailaliniio yn 2018/19.

3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

3.10.1 Roedd tanwariant o £205k (11.33%) yn y swyddogaeth yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd tanwariant o £264k (13.74%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'n fwy o danwariant na'r £248k yr adroddwyd arno yn Chwarter 2 oherwydd cynnydd yn y tanwariant ar Ffioedd Crwner. Mae'r cyfanswm tanwariant i'w briodoli i danwariant amcangyfrifedig yn y cyfraniadau pensiwn i Gyngor Gwynedd (£78k); disgownt pensiynau o (£72k) y bu modd i'r Cyngor ei sicrhau drwy dalu'r cyfraniad tuag at y diffyg 3 blynedd yn y gronfa fel un taliad mawr yn hytrach na thalu bob mis. Yn ogystal, bu llai o wariant ar Ffioedd Crwner (£69k). Yn ychwanegol, cafwyd dychweliad o (£28k) ar yr incwm a ddarparwyd yn flaenorol ar gyfer dyledion drwg a derbyniodd y Cyngor swm o £44k fel taliad unwaith ac am byth wedi i Gwmni Gwastraff Môn Arfon ddod i ben. Dygwyd sylw yn ystod y chwarter at un peth arall sy'n rhoi pwysau ar y gyllideb, sef ffioedd archwilio allanol uwch o £25k.

3.11 Rheolaeth Gorfforaethol

3.11.1 Roedd tanwariant o £61k (11.04%) yn y swyddogaeth ar ddiwedd y Chwarter hwn. Rhagamcener tanwariant o £80k (10.52%) ar gyfer y flwyddyn ariannol oherwydd arbedion sy'n codi o ailstrwythuro Rheolaeth Strategol.

4. Cyllid Corfforaethol (gan gynnwys Budd-daliadau a roddwyd)

- 4.1** Disgwyllir tanwariant o £503k (2.90%) ar ddiwedd y flwyddyn mewn perthynas â Chyllid Corfforaethol gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd. Disgwyllir tanwariant o £271k mewn perthynas â Budd-daliadau a Roddwyd oherwydd gostyngiad yn nifer yr ymgeiswyr sy'n derbyn cymorth o dan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Bydd y swm annisgwyl o £84k a gafwyd yn dilyn Archwiliad Grant 2015/16 o Fudd-daliadau yn cyllido'r diffyg o £80k yn y grant DWP oherwydd bod cyfraddau Gwely a Brecwast ar gyfer Pobl Ddigartref yn uwch na'r lwfans a geir gan DWP. Rhagwelir tanwariant o £208k hefyd ar gostau cyllido cyfalaf oherwydd arbedion a wnaed mewn perthynas â benthyciadau mewnol, oedi o ran ail-gyllido benthyciadau a dewis yr opsiynau benthyca isaf sy'n cydymffurfio gyda'r Datganiad o'r Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18.
- 4.2** Mae Atodiad C yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa ariannol mewn perthynas â'r cyllidebau ddigwyddiadau annisgwyl ar ddiwedd y chwarter hwn. Cymeradwywyd cyfanswm o £1.380m fel cyllideb ar gyfer digwyddiadau annisgwyl fel rhan o gyllideb 2017/18. Mae hyn yn cynnwys targed arbedion o £300k o ddiswyddiadau gwirfoddol. Parheir i ragweld na fydd modd crafangau'n ôl £227k o'r arbedion ar gyfer diswyddiadau gwirfoddol. Mae £563k net wedi cael ei drosglwyddo i/o wasanaethau i ariannu prosiectau penodol, materion cyllidebol neu i ryddhau arbedion o ddiswyddiadau gwirfoddol. Mae £794k wedi'i ymrwymo o gyllidebau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a disgwyllir y bydd tanwariant o £251k yn y cyllidebau ar gyfer ddigwyddiadau annisgwyl ac eithrio'r targed arbedion. Rhagwelir gorwariant o £238k yn y gyllideb ddigwyddiadau annisgwyl ar gyfer Tâl a Graddfeydd oherwydd bod nifer uwch na'r disgwyl o staff wedi derbyn taliadau diswyddo. Mae hyn yn ychwanegol at y £250k a gymeradwywyd eisoes ac a ariannwyd o'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ar gyfer costau'n ymwneud â diswyddiadau. Fodd bynnag, rhagwelir tanwariant o £432k ar y Cyllidebau Clustnodedig ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd oedi gyda'r Prosiect Trothwy Gofal a rheoli cyllideb yn effeithiol yn y Gwasanaethau Oedolion. Rhagwelir tanwariant hefyd ar Etholiadau Sirol (£53k) a Chronfeydd Digwyddiadau Annisgwyl Cyffredinol (£40k). Pan fydd y targedau arbedion na fydd modd eu cyflawni (£227k) yn cael ei ychwanegu, mae cyfanswm y tanwariant yn £23k.

5. Casglu'r Dreth Gyngor

- 5.1** Caiff y gyllideb ar gyfer Cronfa'r Dreth Gyngor ei phennu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu yn y flwyddyn gyfredol yn unig, yn seiliedig ar y ffigwr a osodwyd fel sail y dreth ym mis Tachwedd 2016. Nid yw'n darparu ar gyfer dyledion a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol, addasiadau i ymrwymadau yn codi o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau i bobl sengl ac ati), newidiadau i sail dreth y flwyddyn gyfredol neu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg neu amheus. Nid oes modd amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn anorfod, byddant yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol y Gronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Y rhagolwg cyfredol yw y bydd y Gronfa Dreth Gyngor yn cyflawni £87k yn uwch na'r ffigwr targed. Hefyd, mae'n edrych yn debyg y bydd cyllideb Premiwm y Dreth Gyngor, sef tâl Dreth Gyngor ychwanegol y mae'r Cyngor yn ei godi ar ail gartrefi ar Ynys Môn ers 1 Ebrill 2017, yn cyflawni £247k yn uwch na'i darged. Felly, fel cyfanswm, rhagwelir gwarged o £334k o ran casglu'r Dreth Gyngor.

6. Arbedion Cyllidebol 2017/18

- 6.1** Cafodd arbedion cyllidebol o £1.954m eu tynnu o gyllidebau gwasanaethau ar gyfer 2017/18 a bydd rhaid canfod £300k arall mewn arbedion o ddiswyddiadau gwirfoddol – sonnir am hyn uchod. O'r arbedion cyllidebol yr ydym wedi'u hadnabod, disgwyllir bod £1.646m wedi'i gyflawni neu y bydd yn cael ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae posibilrwydd na fydd £308k yn cael ei gyflawni. Disgwyllir y diffyg arbedion mwyaf yn y gwasanaeth Dysgu: rhagwelir y bydd yn tangyflawni £169k ar ei darged oherwydd yr oedi wrth gytuno ar leihad yn yr oriau glanhau a'r methiant i drosglwyddo Melin Llynnon. Gellir gweld dadansoddiad manwl llawn ar gyfer pob Gwasanaeth yn Atodiad D.

7. Buddsoddi i Arbed

- 7.1** Ymgwymerwyd â rhaglen buddsoddi i arbed yn 2016/17 a chafodd £983k ei neilltuo i brosiectau unigol. Hyd yma, mae £194k wedi cael ei wario neu ei ymrwymo o'r cyllid hwn yn ystod 2017/18. Mae'r holl brosiectau ar wahanol gamau o ran eu datblygiad, gyda rhai'n nes at gael eu cwblhau nag eraill. Mae manylion llawn am wariant a chynnydd pob un o'r rhaglenni i'w gweld yn Atodiad CH. Os nad yw'r prosiectau'n cael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, byddant yn parhau yn 2018/19 a bydd y cyllid yn parhau i fod ar gael yn y gronfa wrth gefn buddsoddi i arbed.

8 Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr

- 8.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £951k ar staff Asiantaeth. Gan amlaf, cawsai'r rhain eu hariannu'n rhannol o gyllidebau staffio oherwydd yr angen am staff llanw ar gyfer salwch, tra bod £47k o'r ffigwr yn gysylltiedig â chael staff llanw tra bod y Gwasanaethau Plant yn mynd trwy broses ailstrwythuro. Mae Adnoddau wedi gwario £150k ar staff asiantaeth. Roedd y rhan fwyaf o hwn, sef £57k ar gyfer cyflogi staff adennill dyledion er mwyn cynyddu'r incwm a gesglir gan yr Awdurdod, a £53k ar gyfer y prosiect AD a Chyflogau Northgate, sy'n cael ei ariannu o gronfa wrth gefn benodol. Roedd y Gwasanaeth Gwastraff wedi gwario £187k i gael asiantau safle yn y canolfannau ailgylchu. Mae'r rhan fwyaf o'r ffigwr hwn, 63%, yn cael ei ariannu trwy grant allanol. Gellir gweld y manylion llawn yn Atodiad DD.
- 8.2** Roedd y gwariant ar ymgynghorwyr yn ystod Chwarter 3 yn £746k, gyda £377k o hwn yn cael ei ariannu'n allanol o grantiau neu gyfraniadau. Cyfanswm y gwariant ar ymgynghorwyr rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Rhagfyr 2017 yw £1.653m. Mae nifer o resymau am ddefnyddio ymgynghorwyr a gellir gweld manylion llawn am y gwariant yn Atodiad E.
- 8.3** Mae crynodeb o'r gwariant ar gyfer pob Adran fesul chwarter ar gael yn Atodiad F.

9 Casgliad

- 9.1** Rhagamcener cyfanswm o £1.624m o orwariant ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018. Mae hwn yn welliant o £0.300m o gymharu â Chwarter 2. Mae £2.461m o hwn yn ymwneud â chyllidebau'r gwasanaethau sy'n cynnwys nifer o danwariannau. Mae'r Gwasanaethau sydd dal yn profi pwysau sylweddol ar eu cyllidebau yn debyg i 2016/17 (y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd a Dysgu). Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r materion ac yn gweithio i leihau lefel y gorwariant sydd o fewn eu rheolaeth erbyn diwedd y flwyddyn. Disgwylir y bydd Cyllid Corfforaethol yn tanwario £0.503m ac mae disgwyl i'r Dreth Gyngor, sy'n cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor, gasglu £0.334m dros ben. Felly, mae'r gorwariant cyffredinol yn gostwng i £1.624m. Mae lefel y gorwariant a ragwelir yn 1.29% o gyllideb net y Cyngor. Mae pryder ynglŷn ag effaith y lefel hwn o orwariant ar falansau cyffredinol petai'r gorwariant hwn yn digwydd mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae'r balansau cyffredinol yn ddigonol ar hyn o bryd i gynnal y gorwariant heb amharu ar y targed lefel isafswm o £6m a osodwyd gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2017.
- 9.2** Mae'r rhagolygon yn dueddol o newid wrth i wybodaeth newydd ymddangos. Fodd bynnag, gyda sgrïwtini rheolaidd gan yr UDA ac os cymerir camau cywiro gan y Penaethiaid Gwasanaeth, bydd hyn yn gymorth i'r gwasanaethau ymdopi o fewn y cyllidebau sydd yn eu rheolaeth.

Canlyniadau Refeniw Rhagdybiedig ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2018 – Chwarter 3

Gwasanaeth / Swyddogaeth	Cyllideb Flynyddol 2017/18	Ch3 2017/18 Cyllideb Blwyddyn hyd yma	Ch3 Gwariant Gwirioneddol ac Ymrwymedig	Ch3 2017/18 Amrywiad	Ch3 Gwariant Rhagdybiedig hyd at 31 Mawrth 2018	Ch3 Canlyniadau Rhagdybiedig 31 Mawrth 2018 tan/(gor)wariant	Ch2 Canlyniadau Rhagdybiedig 31 Mawrth 2018	Ch1 Canlyniadau Rhagdybiedig 31 Mawrth 2018	Gor/(Tan)wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan 2017/18
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
Dysgu Gydol Oes									
Cyllideb sydd wedi ei datganoli i'r Ysgolion	44,021	33,848	33,848	-0	44,021	0	0	0	0.00%
Addysg Ganolog	2,811	1,618	2,185	567	3,689	878	618	618	31.23%
Diwylliant	1,355	1,117	1,076	-41	1,248	-107	-70	20	-7.90%
Gwasanaethau Oedolion	22,456	17,390	17,941	551	22,515	59	191	299	0.26%
Gwasanaethau Plant	8,035	6,596	8,015	1,419	9,779	1,744	1,899	2,106	21.70%
Tai	1,036	1,462	1,441	-21	1,036	0	0	0	0.00%
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo									
Priffyrdd	6,567	6,499	6,846	347	6,653	86	100	3	1.31%
Eiddo	1,143	1,019	1,051	32	1,136	-7	-11	-33	-0.61%
Gwastraff	6,294	5,756	5,679	-78	6,274	-20	-25	30	-0.32%
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd									
Datblygu Economaidd	1,942	1,679	1,561	-118	1,972	30	110	80	1.55%
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	2,202	1,657	1,195	-462	2,142	-60	-97	-14	-2.72%
Trawsnewid									
Adnoddau Dynol	1,204	903	888	-15	1,174	-30	0	0	-2.49%
TGCh	1,746	1,312	1,459	147	1,846	100	100	100	5.73%
Trawsnewid Corfforaethol	935	641	547	-95	766	-169	-30	0	-18.07%
Adnoddau	2,797	2,387	2,398	11	2,841	44	40	32	1.57%

Gwasanaeth / Swyddogaeth	Cyllideb Flynyddol 2017/18	Ch3 2017/18 Cyllideb Blwyddyn hyd yma	Ch3 Gwariant Gwirioneddol ac Ymrwymedig	Ch3 2017/18 Amrywiad	Ch3 Gwariant Rhagdybiedig hyd at 31 Mawrth 2018	Ch3 Canlyniadau Rhagdybiedig 31 Mawrth 2018 tan/(gor)wariant	Ch2 Canlyniadau Rhagdybiedig 31 Mawrth 2018	Ch1 Canlyniadau Rhagdybiedig 31 Mawrth 2018	Gor/(Tan)wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan 2017/18
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
Busnes y Cyngor	1,615	1,168	1,359	190	1,872	257	207	50	15.91%
Costau Corfforaethol a Democrataidd	1,922	1,811	1,606	-205	1,658	(264)	(248)	(172)	(13.74%)
Rheolaeth Gorfforaethol	761	556	494	(61)	681	(80)	(80)	(70)	(10.52%)
Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaethau	108,843	87,421	89,589	2,168	111,304	2,461	2,706	3,049	2.26%
Ardollau	3,335	3,335	3,332	(3)	3,335	0	0	0	0.00%
Cymorth Dewisol Trethi	60	0	0	0	60	0	0	0	0.00%
Cyllido Cyfalaf	8,158	3,867	3,746	(120)	7,950	(208)	(194)	(235)	(2.55%)
Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill	1,045	1,045	794	(251)	794	(251)	(213)	0	(24.01%)
Arbedion Corfforaethol	(227)	(227)	0	227	0	227	227	150	(100.00%)
Cyfraniad Gwasanaethau Cefnogaeth CRT	(678)	0	0	0	(678)	0	0	0	0.00%
Budd-daliadau a Roddwyd	5,622	698	684	(14)	5,351	(271)	(152)	(149)	(4.82%)
Cyfanswm Cyllid Corfforaethol	17,314	8,716	8,556	(160)	16,812	(503)	(331)	(234)	(2.90%)
Cyfanswm 2017/18	126,157	96,137	98,145	2,008	128,115	1,958	2,374	2,815	1.55%
<u>Cyllido</u>									
Trethi Annomestig	(23,002)	(15,920)	(15,925)	(5)	(23,002)	0	0	0	0.00%
Y Dreth Gyngor	(32,941)	0	0	0	(33,028)	(87)	(189)	(348)	0.26%
Premiwm y Dreth Gyngor	(564)	0	0	0	(811)	(247)	(261)	(347)	43.71%
Grant Cymorth Refeniw	(69,650)	(48,205)	(48,219)	(15)	(69,650)	0	0	0	0.00%
Cyfanswm Cyllid 2017/18	(126,157)	(64,124)	(64,144)	(19)	(126,491)	(334)	(450)	(695)	0.26%
Cyfanswm yr Alldro gan gynnwys effaith cyllido	0	32,012	34,001	1,989	1,624	1,624	1,924	2,119	1.29%

CRYNODEB O'R SEFYLLFA ARIANNOL MEWN PERTHYNAS Â'R CYLLIDEBAU WRTH GEFN YN CHWARTER 3 2017/18

	Cyllideb Wreiddiol £	Trosglwyddiadau £	Cyllidebau Diwygiedig £	Ymrwymwyd hyd yma (31/12/17) £	Y gweddill sydd heb ei ymrwymo
Arian Wrth Gefn Cyffredinol	283,635	(128,570)	155,065	114,610	40,455
Gwella	-	-	-	-	-
Tâl a Graddfeydd	200,000	(369,510)	(169,510)	68,450	(237,960)
Cost Newid	92,000	(40,090)	51,910	51,910	-
Ardoll Prentisiaethau	290,000	-	290,000	326,179	(36,179)
Etholiadau'r Sir	150,000	(97,460)	52,540	-	52,540
Trothwy Gofal Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd	240,000 425,000	- -	240,000 425,000	104,300 128,600	135,700 296,400
Cyfanswm y cyllidebau wrth gefn	1,680,635	(635,630)	1,045,005.00	794,049	250,955
Targed Arbedion Diswyddo Gwirfoddol	(300,000)	72,540	(227,460)	0	(227,460)
Cyfanswm y Cyllidebau Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill	1,380,635	(563,090)	817,545	794,049	23,495

ADOLYGIAD O'R PROSIECTAU BUDDSODDI I ARBED 2017/18

Gwasanaeth	Teitl	Disgrifiad	Swm a Gymeradwywyd £	Swm a neilltuwyd (cyfanswm – nid blwyddyn 1 yn unig) £	Dyraniad ar gyfer 2017/18 £	Gwariant hyd yma £	Cyllideb Weddilliol 2017/18 £	Cyfanswm y Gwariant Rhagdybiedig yn 2017/18 £	2017 /18 Gor/(Tan) wariant Rhagdybiedig £	Diweddariad ar y Prosiect
Adnoddau	System Rheoli Dogfennau Electronig (EDMS) ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau	Datrysiaid sganio a llif gwaith ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau	170,000	170,000	170,260	140,659	29,601	165,590	(4,670)	Mae'r prosiect yn mynd rhagddo yn dda a disgwylir y bydd wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Disgwylir tanwariant o £4.6k.
Tudalen 15	Mynegai Tir ac eiddo Lleol LLPG	Gweithredu system LLPG ar draws y Cyngor	10,800	10,800	10,749	15,261	(4,512)	15,261	4,512	Prosiect wedi ei gwblhau'n ffisegol. Bydd angen cyllido'r gorwariant o gyllidebau TG oni bai y gellir defnyddio tanwariant o brosiect arall megis EDMS.
TG / Trawsnewid	System Rheoli Perthnasau gyda'r Cwsmer (CRM)	Prynu a gweithredu system CRM	255,000	255,000	195,000	0	195,000	195,000	0	Y datrysiaid ar gyfer Rheoli Gwastraff yn 'fyw' ynghyd â nifer o wasanaethau ar-lein eraill. Gwasanaethau wedi cael hyfforddiant ac integreiddiadau pellach ar y gweill. Technoleg graidd bellach wedi ei sefydlu sy'n golygu y gellir ychwanegu mwy o wasanaethau ar-lein a chryn ddi-ddordeb yn cael ei ddangos gan wasanaethau megis lechyd yr Amgylchedd a Thai. Bydd taliadau gan gyflenwyr a gadwyd yn ôl yn cael eu talu'n fuan.

Gwasanaeth	Teitl	Disgrifiad	Swm a Gymeradwywyd £	Swm a neilltuwyd (cyfanswm – nid blwyddyn 1 yn unig) £	Dyranriad ar gyfer 2017/18 £	Gwariant hyd yma £	Cyllideb Weddilliol 2017/18 £	Cyfanswm y Gwariant Rhagdybiedig yn 2017/18 £	2017 /18 Gor/(Tan) wariant Rhagdybiedig £	Diweddariad ar y Prosiect
TG / Adnoddau	Porth Talu	Prynu a gweithredu porth talu a fydd yn golygu y gellir derbyn taliadau drwy'r Ap	27,000	27,000	27,000	6,000	21,000	15,000	(12,000)	Gwaith ar integreiddio'r Porth Talu wedi ei gwblhau o safbwynt CRM ac AppMon, oedi ar ochr Capita yn dal y prosiect yn ôl.
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Gwneud systemau cynllunio'n fwy gwydn	Systemau Cynllunio newydd wedi eu hawtomeiddio	118,000	118,000	118,000	22,367	95,633	80,000	(38,000)	Mae'r system rheoli amser SAGE wedi cael ei phrynu ac mae wrthi'n cael ei gweithredu. Mae'r prosiect digideiddio'n mynd rhagddo gyda mynediad i'r systemau a phrofiad arnynt er mwyn gweld a ydynt yn integreiddio gyda'r system newydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar holl dempledau'r llythyrau cynllunio. Dyddiau hyfforddiant wrthi'n cael eu trefnu ac mae gwaith mapio GIS hefyd yn mynd yn dda. Mae oddeutu 3,000 o ffeiliau a dogfennau wedi cael eu sganio hyd yma.
Tudalen 16										
Adnoddau	Gwella systemau casglu incwm	Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd sy'n cysylltu gyda'r ffrydiau incwm presennol ac yn caniatáu dulliau newydd ar gyfer casglu incwm (AppMon ac ati) cysylltu i'r system rheoli arian	150,000	150,000	150,000	9,488	140,512	70,000	(80,000)	Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n unol â chynllun prosiect yr ymgynghorwyr a bydd yn mynd ymlaen i 2018/19 oherwydd maint y gwaith sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

Gwasanaeth	Teitl	Disgrifiad	Swm a Gymeradwywyd £	Swm a neilltuwyd (cyfanswm – nid blwyddyn 1 yn unig) £	Dyraniad ar gyfer 2017/18 £	Gwariant hyd yma £	Cyllideb Weddilliol 2017/18 £	Cyfanswm y Gwariant Rhagdybiedig yn 2017/18 £	2017 /18 Gor/(Tan) wariant Rhagdybiedig £	Diweddariad ar y Prosiect
Dysgu Gydol Oes	Moderneiddi o prosesau busnes a pherfformiad	Gweithredu 'r modiwlau hynny o system Rheoli Gwybodaeth ONE nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd	87,000	87,000	67,000	0	67,000	0	(67,000)	Mae'r gwaith partneriaeth ar y cyd yn mynd yn dda a disgwylir y bydd oddeutu £67k wedi cael ei wario ar system reoli ONE erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn gofyn am gael defnyddio gweddill yr arian wrth gefn i dalu am ddatblygu gwefan a siop ar-lein yn Oriol Ynys Môn sydd hefyd yn brosiect buddsoddi i arbed oherwydd mae'n debygol o gynyddu incwm.
IT / Ffwdalen 17 / Frawsnewid	Digidol yn Gyntaf / Digidol yn Awtomatig	Cyflogi Swyddog Digidol Arweiniol a Dansoddwr Gwasanaethau Digidol	£70,000 yn y flwyddyn gyntaf a £50,000 yn yr ail flwyddyn	120,000	20,000	0	20,000	0	(20,000)	Proses recriwtio wedi ei gohirio hyd oni fydd mwy o gynnydd wedi'i wneud ar y prosiectau CMS a CRM er mwyn gwneud y swydd yn hyfyw
Gwarchod y Cyhoedd	Gwell Cysylltedd Digidol yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd	Gweithredu system yn seiliedig ar y cwmwl i gofnodi ymweliadau archwilio. Mae'r feddalwedd yn ddatrysiad Cymru gyfan sydd wedi cael ei chaffael drwy gytundeb fframwaith a gefnogir gan 19 o'r 22 gyngor yng Nghymru	£10,000 y flwyddyn am 4.5 blynedd	45,000	70,000	0	70,000	0	(70,000)	Dim gwariant hyd yma ond mae'r cynllun yn debygol o fynd rhagddo yn rhan olaf y flwyddyn. Bydd angen cario unrhyw danwariant drosodd i 2018/19.
Cyfanswm				982,800	828,009	193,775	634,234	540,851	(287,158)	

Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2017/18

Tudalen 18

Gwasanaeth / Swyddogaeth	Arbedion Cyllidebol 2017/18 £'000	Yn gyraeddadwy yn 2017/18 £'000	Dim yn gyraeddadwy o bosib yn 2017/18 £'000	Dim yn gyraeddadwy o gwbl £'000	Sylwadau
Dysgu Gydol Oes	610	441	169	0	Yn seiliedig ar nifer yr oriau glanhau a ddarperir gan yr adran Eiddo, dylid sicrhau £474k o'r arbediad yn y dyfodol a bydd gweddill yr arbediad yn cael ei dynnu o'r Gyllideb a Ddatganolwyd i'r Ysgolion fel toriad cyffredinol. Mae'r drefn i newid oriau gweithio'r glanhawyr wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl gan arwain at orwariant yn 2017/18, a gaiff ei gyllido o'r arian wrth gefn. Ni fydd modd cyflawni £40k o'r arbedion oherwydd nid yw'r Cyngor hyd yma wedi gallu trosglwyddo Melin Llynonn. Fodd bynnag, caiff hun ei liniaru oherwydd y gwnaed mwy o incwm mewn safleoedd treftadaeth eraill ac amgueddfeydd. Ni fydd modd cyflawni'r £13k sy'n gysylltiedig â dwyn y brydles yn Ynys Lawd i ben. Er bod y brydles wedi dod i ben, cafwyd costau i glirio'r safle, fodd bynnag, costau unwaith ac am byth yw'r rhain.
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	187	179	8	0	Mae oriau glanhau yn y tair canolfan hamdden bellach wedi cael eu gostwng o 55 i 30 yr wythnos ers Tachwedd 2017, fodd bynnag, rhagwelir diffyg o £3k o'r arbediad o £10k a gynigiwyd ar gyfer 2018/19. Mae gwaith i sicrhau'r arbediad o £5k ar allanoli caffï y ganolfan hamdden yn parhau i fynd rhagddo gydag Eiddo a bydd proses Gaffael yn cael ei chynnal ym mis Chwefror i geisio dod o hyd i ddarparwyr arall rwan bod y caffï wedi cau. Mae cynnydd o ran gwerthiannau'r peiriannau fendio ond ni fydd yn ddigon i gwrdd â'r gorwariant.
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	339	273	66	0	Rhagwelir na fydd modd cyflawni £6k o arbedion ar y contract gwastraff cyffredinol, fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn rhagweld tanwariant. Nid yw'r gwasanaeth ond yn debygol o gyflawni £16k o'r targed o £26k yn sgil allanoli toiledau cyhoeddus oherwydd diddordeb cyfyngedig gan drydydd partiön. Ni wyddys beth fydd yn cael ei gyflawni yn erbyn y £50k ar gyfer y Contract Cynnal a Chadw Priffyrdd oherwydd mae'n dibynnu ar y tywydd dros fisoedd y gaeaf.
Gwasanaethau Oedolion	559	529	30	0	Ni fydd yr arbedion y bwriedir eu gwneud drwy newidiadau i'r ddarpariaeth arlwyio mewn cartrefi gofal preswyl yn cael eu gweithredu tan Ch3 a Ch4, fodd bynnag, bydd modd gwneud yr arbedion o linellau cyllidebol eraill a bydd modd eu cyflawni o 2018/19 ymlaen.

Gwasanaeth / Swyddogaeth	Arbedion Cyllidebol 2017/18 £'000	Yn gyraeddadwy yn 2017/18 £'000	Dim yn gyraeddadwy o bosib yn 2017/18 £'000	Dim yn gyraeddadwy o gwbl £'000	Sylwadau
Tai	41	16	25	0	Bu rhywfaint o oedi gyda'r adolygiad o berfformiad ynni, mae un swyddog wedi cychwyn y gwaith ac wedi cwblhau 60 o adolygiadau ond nid yw'r ail swyddog wedi cychwyn y gwaith eto, felly bydd angen addasu'r targed i 85 gan arwain at ddiffyg o £15k yn yr arbedion. Ychydig o gyfleon gafodd y swyddog tai gwag i gynhyrchu incwm o ffioedd drwy ail eiddo ac, o'r herwydd, mae'n annhebygol y bydd modd cyflawni'r arbedion o £10k eleni yn unol â'r disgwyliad.
Trawsnewid	79	79	0	0	Disgwylir y bydd modd cyflawni'r holl arbedion o 2017/18.
Ffioedd trwydded angori (pob cwch ac eithrio pysgota masnachol)	£43.45 y metr, y flwyddyn	S
Ffioedd trwydded angori pysgota masnachol	£87.00 y metr, y flwyddyn	S
Cyflenwad dŵr croyw - llongau dros 15 tunnell	£7.75 y dunnell o ddŵr	S
Cyflenwad dŵr croyw – tancer neu bowser	£44.55	S
Ffi codi (pob llong)	£6.40 y metr	S
Storio cwch ar y lan - ffaldau allanol: < 21 o ddyddiau	Dim tâl	Amh
Storio cwch ar y lan - ffaldau allanol: > 21 o ddyddiau	£9.30 y metr yr wythnos	S
Storio cwch ar y lan - ffaldau allanol: > 21 o ddyddiau	£4.55 y metr y dydd	S
Ffi gwarchodaeth / harbwr - pob cwch	£56.25	Z
Harbwr Mewnol Amlwch		
Ffioedd trwydded angori pob cwch ac eithrio pysgota masnachol	£43.45 y metr y flwyddyn	S
Ffioedd trwydded angori pysgota masnachol	£87.00 y metr y flwyddyn	S
Llongau heb drwydded - iotiau a chychod hamdden yn ymweld	£18.00	S
Llongau heb drwydded - ffi gwarchodaeth / harbwr - pob llong	£56.25	Z
Ffi Rhestr Aros	£12.35 y flwyddyn	S
Cofrestru pob cwch pŵer (fan 10hp, dim ffi lansio)		
Cofrestru Blynyddol		
Drwy'r post neu yn Llangedfni	£15.00	O/S
Ar y lanfa	£20.00	O/S
Ar lanfeydd preifat mewn partneriaeth (75% Cyngor / 25% gwerthwr)	£20.00	O/S
Ffioedd lansio		
Tâl dyddiol	£16.00	S
Trwydded flynyddol	£160.00	S
Trwydded flynyddol - wedi ei leihau ar gyfer tystysgrif cychod pŵer	£105.00	S
Cwmnïau yn lansio i arddangos neu brofi (cytundeb ysgrifenedig)	£84.85	S
Masnachol		
Lansio cerbyd masnachol	£95.50	S
50 lansiad cyntaf	£178.25	S
Pob 50 wedi hynny	£233.90	S
Cychod diogelwch ar gyfer digwyddiadau	Dim tâl (dal angen cais)	Amh
Cychod masnachol (profi ac arddangos)	£82.40	S
Amrywiol		
Defnyddio'r blaendraeth ar gyfer Criwiau Ffilmio/Digwyddiadau ac ati		
Hanner diwrnod	£432.85	S
Diwrnod llawn	£763.85	S
Sefydliadau elusennol yn defnyddio'r blaendraeth	Yn ôl doethineb staff y Swyddogaeth Forol	S

Priffyrdd

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Gorchmynion Arallgyfeirio a Diddymu Llwybrau		
Cyngor cychwynnol ac ymweliad safle (hyd at ddwy awr)	Dim tâl	Amh
Tynnu cais yn ôl neu ei wrthod wedi ystyriaeth gan swyddogion	£225.00	O/S
Gwneud gorchymyn, ond ei dynnu'n ôl wedi ei hysbysebu	£780.00	O/S
Gorchymyn sy'n cael ei gadarnhau gan yr awdurdod heb wrthwynebiad	£1,280.00	O/S
Os ceir gwrthwynebiad i'r gorchymyn ond ei fod yn cael ei dynnu'n ôl.	£1,400.00	O/S
Os derbynir gwrthwynebiadau a ategir a bod y gorchymyn yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol	£2,400.00	O/S
Ceisiadau lluosog – os yw'r cais yn cynnwys arallgyfeirio mwy nag un llwybr, y ffi ar gyfer pob llwybr atodol a gynhwysir yn yr un gorchymyn	£335.00	O/S
Gorchmynion Arallgyfeirio a Chau Llwybrau Dros Dro		
Argyfwng hyd at 21 diwrnod	£225.00	O/S
Gwaith tymor byr hyd at 5 niwrnod (angen 2 wythnos o rybudd)	£225.00	O/S
Gwaith tymor hirach hyd at 6 mis (angen 6 wythnos o rybudd a 2 hysbyseb)	£1,340.00	O/S
Estyniad ar orchymyn 6 mis (cais i Lywodraeth Cymru) (6 wythnos o rybudd ac 1 hysbyseb)	£890.00	O/S
Gwaith Stryd		
Cofrestriad cwmni sgipiau	£320.00	O/S
Trwydded sgip (7 diwrnod)	£35.00	O/S
Trwydded sgip (pob 7 diwrnod dilynol)	£20.00	
Cofrestriad cwmni sgaffaldau	£330.00	O/S
Trwydded sgaffald	£41.00	O/S
Adran 171 (deunyddiau ar y briffordd)	£250.00	O/S
Adran 50 presennol (offer ar y briffordd)	£250.00	O/S
Adran 50 newydd	£350.00	O/S
Cau ffordd	£2,500.00	O/S
Digwyddiadau ar y Briffordd		
Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar gyfer yr Anabl	Cost wirioneddol	O/S
Marciau Amddiffyn Mynediad	£92.70	O/S
Goddefeb Parcio	£15.45	O/S
Ffioedd Gorchymyn Gwaharddiad Dros Dro		
Gorchymyn gwahardd cerbydau ar gyfer digwyddiad (cau lôn, tua 6 digwyddiad y flwyddyn)	£618.00	O/S
Gorchymyn diwygio traffic ar gyfer digwyddiad (aros cyfyngedig, un ffordd, a.y.y.b., tua 6 digwyddiad y flwyddyn)	£515.00	O/S
Arwydd Twristiaeth	£62.00	O/S
Ceisiadau Chwilio (heb gynnwys TAW)		
Chwiliad sylfaenol mewn un lleoliad	£64.25	S
Chwiliad sylfaenol mewn hyd at 5 lleoliad	£129.80	S
Chwiliadau Tref Manylach	£254.60	S
Chwiliadau Ardal Manylach	£525.30	S
Cais ar gyfer datblygiadau mawr	£64.25 yr awr	S
Meysydd Parcio		
Ceir		
30 munud	£0.50	S
1 awr	£1.00	S
2 awr	£1.50	S
4 awr	£2.00	S
Hyd at 12 awr	£3.00	S

Biwmares		
Bysiau 4 awr	£4.00	S
Bysiau 12 awr	£6.00	S
Ceir 4 awr	£2.50	S
Ceir 12 awr	£3.50	S
Arfordirol		
4 awr	£3.50	S
12 awr	£4.50	S
Trelar	£6.00	S
Fron Towyn		
1 awr	£1.00	S
4 awr	£3.50	S
12 awr	£4.50	S
Trelar	£6.00	S
Rhoscolyn		
2 awr	£2.00	S
4 awr	£3.50	S
12 awr	£4.50	S
Trelar	£6.00	S
Parcio a Rhannu Llanfairpwll		
1 diwrnod	£0.50	S
2 - 7 diwrnod	£2.00 y dydd	S
Tocyn Tymor Parcio		
12 mis	£150.00	S
6 mis	£100.00	S

Rheoli Gwastraff

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Bin olwynion du newydd neu amnewid ar gyfer gwastraff gweddilliol (tâl danfon a gweinyddu yn unig, nid gwerthu biniau olwynion du)	£32.00	S
Casglu gwastraff swmpus 'A' (hyd at 4 eitem fesul casgliad)	£28.00	O/S
Casglu gwastraff swmpus 'B' (hyd at ½ tunnell y llwyth)	£90.00	O/S
Casglu gwastraff swmpus 'B' (hyd at 1½ tunnell y llwyth)	£234.00	O/S
Gwerthu allwedd radar	£6.40	E
Gwerthu biniau compost (prynu, danfon a gweinyddu)	£34.00	S
Taliadau casglu/gwaredu sbwriel masnach	Gwir gyfradd gyfredol a godir gan gontractwr casglu gwastraff y Cyngor a thâl gweinyddol o 20%	S
Holl Ffioedd Eraill		
e.e.: <ul style="list-style-type: none"> • Gadael troli siopa a bagiau • Cael gwared ar fagiau sbwriel • Llogi biniau olwynion ar gyfer digwyddiadau a drefnwyd • Cyfleusterau cyhoeddus - agor atodol 	Costau atodol sy'n codi a thâl gweinyddol 20%	Amrywiol

Cyfreithiol

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Taliadau Tir Lleol		
Chwilio	£114.60	S
Ffurflen LLC1	£6.00	O/S
Ar-lein LLC1	£4.00	O/S
Con 29 (ac eithrio cwestiwn 22)	£11.65 y cwestiwn	S
Cwestiwn 22	£15.90 y cwestiwn	S
Ffioedd Cyfreithiol Dewisol		
Rhwymedigaethau cynllunio (cytundebau adran 106)		
Annedd fforddiadwy sengl hunan adeiladu	£556.95	O/S
Bydd yr holl drefniadau eraill (ar gyfer 3 awr o waith, cyfradd fesul awr perthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliyd dros 3 awr, gweler y cyfraddau isod)	£836.00	O/S
Gweithredoedd rhyddhau syml	£265.25	O/S
Gwerthu tir neu Ganiatáu prydlesau		
Os na phenodir cyfreithiwr, gan barti arall (ar gyfer 3 awr o waith, cyfradd fesul awr perthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliyd dros 3 awr, gweler y cyfraddau isod) Pan mae eiddo wedi ei optio i mewn i'r dreth, y TAW a godir yw'r graddfa safonol. Pan nad ydyw wedi optio i mewn i'r dreth, mae'r TAW y tu allan i'r sgôp.	£603.45	S
Os penodir cyfreithiwr, gan barti arall (ar gyfer 6 awr o waith, cyfradd fesul awr perthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliyd dros 6 awr, gweler y cyfraddau isod) Pan mae eiddo wedi ei optio i mewn i'r dreth, y TAW a godir yw'r graddfa safonol. Pan nad ydyw wedi optio i mewn i'r dreth, mae'r TAW y tu allan i'r sgôp.	£1,206.90	S
Grantiau o brydlesi (i gynnwys amrywiadau, aseiniadau a datganiadau) Pan mae eiddo wedi ei optio i mewn i'r dreth, y TAW a godir yw'r graddfa safonol. Pan nad ydyw wedi optio i mewn i'r dreth, mae'r TAW y tu allan i'r sgôp.	Gwir amser a dreuliyd ar raddfa yr awr perthnasol*	S
Cytundebau adran 38 a 278 (Deddf Priffyrdd)	£836.00	O/S
Gorchmynion rheoleiddio traffig, os ceir cais gan drydydd parti (ar gyfer 4.5 awr o waith, cyfradd fesul awr perthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliyd dros 4.5 awr, gweler y cyfraddau isod)	£503.95	O/S
Cofrestr Tir Comin		
Cywiro camgymeriad arall dan Adran 19(2)(b)	£315.20	
Diweddarau enwau a chyfeiriadau dan Adran 19 (2)(d)	£52.55	
Cydgrynhoi dilysiad dan Adran 19 (2)(e)	£52.55	
Ceisiadau dan Atodiad 2, paragraffau 6 i 9 cynhwysol (adeiladau a gofrestrir fel tir comin neu grîn tref a phentref neu tir a gofrestrwyd yn anghywir fel tir comin neu grîn tref neu phentref)	£2,040.00	
*Cyfraddau fesul awr priodol		
Pennaeth Swyddogaeth, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol neu Gyfreithiwr	£167.65	Codir TAW yn gyson â'r ymholiad mae'n ymwneud â hi
Unrhyw staff eraill sy'n ennill ffi	£100.80	
SYLWER - bydd gan y Pennaeth Swyddogaeth neu Reolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, yn ôl ei ddoethineb, y pŵer i hepgor y ffi mewn rhai achosion o galedi ariannol profedig.		

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	19 Chwefror 2018
Pwnc:	Rhenti'r CRT a Thaliadau'r Gwasanaeth Tai 2018-2019
Aelod(au) Portffolio:	Cynghorydd Alun Mummery
Pennaeth Gwasanaeth:	Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Darren Gerrard, Rheolwr Incwm Rhent a Chynhwysiant Ariannol 01248 752265 dkghp@anglesey.gov.uk
Aelodau Lleol:	

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnydd yn y rhent a'r taliadau gwasanaeth ar gyfer 2018/19 fel y nodir isod:-

A1 cymeradwyo'r cynnydd mewn rhent yn unol â rhent targed Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gasgliad dros 51 wythnos.

A2 cymeradwyo cynnydd o 4.5% yn yr holl renti sydd rhwng £0.06 - £6.15 yn is na'r targed yn ogystal â swm hyd at yr uchafswm o £2.00 yr wythnos i gyrraedd y rhent targed.

A3 cymeradwyo cynnydd o 4.5% yn yr holl renti sydd rhwng £4.75 - £6.69 yn is na'r targed a £2.00 ychwanegol yr wythnos.

A4 cymeradwyo bod y rhent ar gyfer yr 19 eiddo sydd â rhent uwch na'r lefel targed yn aros fel y mae.

A5 cymeradwyo cynnydd o 40c yr wythnos ar gyfer rhenti'r holl garejys.

A6 cymeradwyo'r taliadau gwasanaeth a nodir yn adran 3.3. yr adroddiad ar gyfer yr holl denantiaid sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol.

Rhesymau

1.0 Cefndir

- 1.1** Yn unol â Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, mae'n rhaid i'r Cyngor gadw Cyfrif Refeniw Tai (CRT) sydd wedi ei neilltuo'n unig ar gyfer trafodion sy'n ymwneud yn benodol â Thai Awdurdodau Lleol.
- 1.2** Ar 11 Rhagfyr 2017, derbyniwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau ei bod wedi cytuno i gynnal Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol yn 2018/19.
- 1.3** Y fformiwla ar gyfer y codiadau rhent blynyddol fydd gwerth y Mynegai Prisiau defnyddwyr (CPI) yn y mis Medi blaenorol + 1.5%. Ym mis Medi 2017, roedd y CPI yn 3% sy'n gwneud cyfanswm o 4.5% ar gyfer 2018/19.
- 1.4** Oherwydd bod lefelau rhent cyfredol y Cyngor yn sylweddol is na'r rhenti targed yn y polisi, bydd angen cynnydd wythnosol o hyd at £2 uwchben y cynnydd chwyddiant canrannol (yn achos y rhenti sy'n is na'r rhent targed) er mwyn sicrhau eu bod yn gyson gyda rhent darparwyr tai cymdeithasol eraill.

2.0 Cynnydd mewn Rhent i Denantiaid Ynys Môn

- 2.1** Mae rhent targed Llywodraeth Cymru (fel y dangosir yn y tabl isod) yn seiliedig ar rent dros 52 wythnos. Os byddwn yn cymhwysu hyn i'r cynnydd yn y rhent ac yn casglu dros 51 wythnos i gymryd i ystyriaeth yr wythnos di-rent dros gyfnod y Nadolig, byddwn yn cynhyrchu tua £1M o incwm blynyddol ychwanegol.

	Tai a Byngalos (£)					Fflatiau (£)				Fflatiau un Ystafell
	1 Yst Wely	2 Yst Wely	3 Yst Wely	4 Yst Wely	5+ Yst Wely	1 Yst Wely	2 Yst Wely	3 Yst Wely	4+ Yst Wely	
Rhent Targed LIC (52 Wythnos)	£83.66	£92.95	£102.25	£111.54	£120.84	£75.69	£84.10	£92.51	£100.92	£67.28
Rhent Targed (Casglu 51 Wythnos)	£85.30	£94.78	£104.26	£113.73	£123.21	£77.18	£85.75	£94.33	£102.90	£68.60
Rhent Cyfartalog Cyfredol Arfaethedig (51 Wythnos)	£83.36	£86.68	£93.10	£98.75	£105.84	£76.63	£82.15	£88.54	£102.90	£68.60

- 2.3** Gan ddefnyddio'r targed casglu 51 wythnos, bydd y cynnydd yn y rhent arfaethedig ar gyfer 2018/19 yn £5.29 ar gyfartaledd. Bydd hyn yn cynyddu'r rhent wythnosol cyfartalog o £82.79 i £88.08 sydd yn dal i fod yn is na'r band rhent yn y polisi. Y band rhent ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yw rhwng £ 90.10 (pegwn isaf), £ 94.84

(pwynt canol) a £ 99.58 (pegwn uchaf).

2.4 Yn ogystal, y lefel hon o gynnydd yn y rhent sy'n cael ei defnyddio fel y model ar gyfer y Cynllun Busnes Tai. Os na ddilynir y dull hwn, efallai y bydd angen benthyca mwy i ariannu'r cynllun busnes.

2.5 Ar gyfer eiddo y mae eu rhenti'n sylweddol is na'r rhent targed yn y polisi, ac er mwyn symud tuag at y rhent targed ar gyfer y fath eiddo, bwriedir cynyddu'r rhenti cyfredol fel a ganlyn:

- 1) Ar gyfer y 1065 eiddo lle mae'r gwahaniaeth rhwng y rent presennol a'r rhent targed rhwng £0.06 a £6.15 yr wythnos, bydd y rhent presennol yn cynyddu 4.5% yn ogystal â swm o hyd at uchafswm o £2.00 yr wythnos.
- 2) Ar gyfer y 2720 eiddo lle mae'r gwahaniaeth rhwng y rhent presennol a'r rhent targed rhwng £4.75 a £6.69 yr wythnos, bydd y rhent presennol yn cynyddu yn unol â'r fformiwla o 4.5% + £2 yr wythnos.
- 3) Ar gyfer y 19 eiddo y mae eu rhenti cyfredol yn uwch na'r rhent targed, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl llai o gynnydd yn y rhenti hyn gan Awdurdodau Lleol. Rydym yn cynnig peidio â chynyddu'r rhenti hyn nes eu bod yn cyd-fynd gyda'r rhent targed.

2.6 Bydd defnyddio'r dulliau uchod yn symud yr Awdurdod tuag at gyrraedd y rhent targed a sicrhau cydgyfeiriant o ran lefelau rhent. Disgwylir gallu cyflawni'r cydgyfeiriant rhent erbyn 2023/24 a bydd rhenti'n cynyddu wedyn yn unol â'r rhenti targed.

2.7 Bydd y polisi rhent yn creu incwm rhent blynyddol o tua £17.1 miliwn ar gyfer y CRT yn ystod 2018/19.

2.8 Wrth ail osod eiddo gwag fe argymhellir y bydd y rhent yn cael ei osod yn unol â'r polisi rhent targed a fydd yn dileu'r cymhlethdod y broses o gynyddu'r rhent mewn modd trosiannol.

3.0 Codi am Wasanaethau

3.1 Mae'r taliadau am wasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu yn ystod 2018/19 yn seiliedig ar gostau gwirioneddol y gwasanaethau hynny yn 2016/17 ac yn cael eu rhannu'n gyfartal ymhlith tenantiaid a lesddeiliaid. Dylid nodi bod y rhan fwyaf o'r costau hyn yn gymwys am fudd-dal tai.

3.2. Mae'r holl gostau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn wedi cynyddu o gymharu â ffigyrau'r llynedd. Mae cyfanswm yr incwm a fydd yn cael ei gynhyrchu tua £269k.

3.3 Costau wythnosol ar gyfer 2018 – 2019 sy'n cael eu hargymell, yn seiliedig ar 51 wythnos yw:

Cynnal a chadw lifft - £0.70 - £2.51

Glanhau ardaloedd cymunedol - £2.03 – £5.07

Larymau tân ac offer tân - £1.02

Systemau drysau mynediad - £0.59

Costau Carthffosiaeth - £4.94

Golau a gwres mewn ardaloedd cymunedol - £1.03

Erialau Teledu mewn ardaloedd cymunedol - £0.17

Paentio ardaloedd cymunedol – £0.13 - £0.47

Cynnal a Chadw Tiroedd (Eiddo Domestig) - £2.63

Cynnal a Chadw Tiroedd (Tai Gwarchod) - £0.15 - £3.23)

Costau Rheoli yn 15% o gost pob tâl gwasanaeth.

3.4 Ar hyn o bryd mae 61 o brydleswyr a fydd yn gorfod talu am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn gan yr Awdurdod. Bydd hyn yn creu incwm blynyddol ychwanegol o tua £10.5k.

4.0 Garejys

4.1 Nid yw Polisi Rhent Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw arweiniad ar sut i gynyddu rhenti garejys. Mae'r Cyngor felly'n cynnig cynyddu'r rhenti garejys 40c yr wythnos. Bydd hyn yn cynyddu'r rhent o £7.60 yr wythnos i £8.00 yr wythnos ac yn creu incwm o £220k ar ôl diystyru garejys gwag. Roedd 225 o garejys gwag ar 9 Ionawr 2018.

5 Budd-dâl Tai

5.1 Ar hyn o bryd ni fydd 2,727 o denantiaid y Cyngor (73%) yn wynebu unrhyw galedi ychwanegol o ganlyniad i'r cynnydd yn y rhent a'r taliadau gwasanaeth arfaethedig, gan eu bod yn derbyn Budd-dal Tai. Bydd yn rhaid i denantiaid nad ydynt yn derbyn budd-dal tai dalu'r rhent a'r costau gwasanaeth, oni bai, wrth gwrs, eu bod yn dod yn gymwys i gael budd-dâl yn dilyn y cynnydd.

5.2 Fel paratoad ar gyfer Diwygio Budd-daliadau Lles gan y Llywodraeth mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg wedi ei gynyddu i £263k (1.5%) ar gyfer 2018/19 gan ein bod yn disgwyl i ddyledion godi pan fydd yn rhaid i denantiaid dalu cyfran uwch o'r rhent eu hunain. Mae hwn yn gynydd sylweddol o ganlyniad i effaith bosibl Credyd Cynhwysol.

5.3 Mae gan y Gwasanaethau Tai Swyddog Cynhwysiant Ariannol sydd ar gael i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i denantiaid am faterion cynhwysiant ariannol sy'n canolbwyntio'n gryf ar gynyddu sgiliau gallu ariannol a chyllidebu er mwyn i bobl allu rheoli eu harian a chael mynediad i wasanaethau ariannol prif lif. Mae cysylltiadau hefyd wedi eu datblygu er mwyn gwella arferion gwaith ar lefel strategol a gweithredol gyda phartneriaid mewnol ac allanol megis J E O'Toole, CAB, Cymunedau'n Gyntaf Môn, Gofal a Thrwsio, Age Cymru a chwmnïau trydan a dŵr

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

- 1) Ystyriwyd yr opsiwn i beidio â chynyddu rhent y garejys oherwydd cyflwr rhai o'r garejys ond yn dilyn ymholiadau ag Awdurdodau Lleol eraill, cadarnhaodd bob un ohonynt eu bod yn cynyddu'r rhent yn unol â'r cynnydd o 4.5% yn y rhenti tai. Rydym wedi penderfynu mabwysiadu'r un dull er mwyn sicrhau'r rhent uchaf posibl o'r garejys.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae polisi Rhent newydd Llywodraeth Cymru yn effeithio ar y Cynllun Busnes CRT.

D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

- 1) Mae gofyn i'r holl Awdurdodau Lleol, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, weithredu'r Polisi Rhent. Byddai gwrthod y polisi hwn yn y pen draw yn golygu y byddai'r Awdurdod yn colli incwm ac y byddai hynny'n anochel yn effeithio ar y gwasanethau a ddarperir. Byddai hyn hefyd yn tansilio'r Cynllun Busnes CRT ac o bosib yn ein gadael yn agored i ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru pen os na fydd y polisi hwn yn cael ei fabwysiadu.
- 2) Gallai gwrthod y polisi hwn hefyd beryglu'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr blynyddol o dros £2.66 miliwn a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru oherwydd gan y gellid ystyried nad ydym yn gwneud y mwyaf o'n cyfleoedd i greu incwm.

DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol eraill	

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthdodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	

F - Atodiadau:

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	19/02/2018
Pwnc:	Cartrefi'r Awdurdod Lleol ar gyfer Pobl Hŷn - Pennu'r Ffi Safonol
Aelod(au) Portffolio:	Cynghorydd Llinos Medi Huws
Pennaeth Gwasanaeth:	Alwyn Rhys Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Rhys Ll. Roberts, Rheolwr Cyllid 01248 752690 RhysRoberts2@ynysmon.gov.uk Dafydd Bulman, Business & Transformation Manager 01248 752013 DafyddBulman@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Amrywiol

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Mae angen i'r Awdurdod Lleol bennu ei ffi safonol ar gyfer ei gartrefi gofal am y flwyddyn Ebrill 2018-Mawrth 2019.

Mae'r aelodau wedi penderfynu ar gynnydd cyffredinol o 3% mewn ffioedd a thaliadau fel canllaw. Fodd bynnag, gellir trin ffioedd a godir am gartrefi preswyl y mae'r awdurdod lleol yn berchen arnynt fel eithriad oherwydd eu bod yn seiliedig ar ddarpariaeth statudol sy'n amlinellu sut y dylid eu cyfrifo.

Fel yn y blynyddoedd diwethaf, mae costau'r holl gartrefi wedi eu cronni i gyfrifo ffi safonol gyfartalog ar gyfer y cartrefi yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol.

Dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r ffi safonol gyda ffioedd awdurdodau eraill oherwydd, er gwaethaf canllawiau, efallai nad yw awdurdodau eraill wedi cyfrifo'r ffi ar yr un sail. Fodd bynnag, fel gwybodaeth gefndirol, rydym yn nodi isod y ffioedd safonol ar gyfer 2017/18 i Gartrefi Awdurdodau Lleol Gwynedd a Chonwy:-

- Gwynedd - £581.28
- Conwy - £571.00

Yn ystod 2017/18, cyfrifwyd y Ffi Safonol yn £698.46 yr wythnos ac roedd hynny'n seiliedig ar gyfraddau defnydd o 89.7% ar draws y 4 cartref preswyl mewnol (ac eithrio Garreglwyd a Haulfre). Penderfynodd y Cyngor ar gynnydd o 3% yn y ffi safonol wythnosol ac i dderbyn y gwahaniaeth fel cost reoli ar gyfer trawsnewid y ddarpariaeth fewnol o ofal preswyl. Pennwyd ffi safonol o £584.29 yr wythnos yn ystod 2017/18 felly ar gyfer y trigolion.

Wrth gyfrifo'r ffi safonol ar gyfer 2018/19, nid ydym wedi cynnwys y nifer o welyau a gadwyd yn wag yng Nghartref Preswyl Garreglwyd yn ystod 2017/18 gan mai'r bwriad yw ailfodelu'r Cartref. Rydym hefyd wedi peidio ag ystyried niferoedd y gwllâu gwag yn Haulfre o ganlyniad i'r gwaith ailwampio a ddigwyddodd yno yn ystod 2016/17. Y cyfraddau defnydd yn y 4 cartref a oedd yn weddill yn ystod 8 mis cyntaf 2017/18 oedd 93.4% yn seiliedig ar gyfanswm o 109 o wllâu.

Mae'r tabl a ganlyn yn cyfrifo cost wythnosol dybiedig am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019.

Nifer y gwllâu sydd ar gael	109
Amcangyfrif o'r Cyfraddau Defnydd	93.4%
Amcangyfrif o nifer yr wythnosau trigolion	5,309

	Costau Rhedeg 2018/19 £	Ffi Sefydlog 2018/19 £	Ffi Sefydlog 2017/18 £	Ffi a godwyd 2017/18 £
Amcangyfrif o Gostau Rhedeg yn 2015/16	3,141,444	629.39	641.07	547.91
Ychwanegu - Tâl dibrisio	235,220	44.31	35.79	38.89
• Gwasanaethau Cefnogaeth	155,726	29.33	29.37	33.33
Tynnu incwm o Weithgareddau Di-breswyl			-7.77	-35.84
	3,732,390	703.03	698.46	584.29
Cynnydd o gymharu â ffi safonol 2017/18	0.66%	£4.57		

Yn seiliedig ar y tabl uchod, amcangyfrifir bod y gost wythnosol am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 yn £703.03 fesul preswlydd.

Mae'r gost wythnosol ragamcanedig fesul preswlydd ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2019 yn uwch o gymharu â'r gost ragamcanedig ar gyfer y flwyddyn i 31 Mawrth 2018. Mae hyn oherwydd cynnydd mewn costau cyflogau a chwyddiant. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd

blwyddyn ar flwyddyn mor uchel â'r disgwyl o ganlyniad i'r cynnydd mewn cyfraddau defnydd y cartrefi (o 89.7% i 93.4%), sy'n arwain at gost unedol is.

Gan gydnabod penderfyniad y Cyngor ar gyfer 2017/18 a'r cynnydd sylweddol y byddai symud o £584.29 i £703.03 yn ei olygu, argymhellir:

- Er bod y Cyngor yn cydnabod y costau sy'n gysylltiedig â gofal preswyl, nid yw cost wirioneddol darparu'r gwasanaeth wedi ei adlewyrchu yn y tâl a godir ar drigolion.
- Bod y cynnydd ar gyfer y rheini sy'n cyfrannu tuag at gost eu gofal yn gyson gyda'r canllawiau ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor, sef 3% a bod ffi o £601.82 yn cael ei gosod.

Drwy beidio â chodi cost lawn y lleoliad ar drigolion sy'n hunangyllido o fewn y cartrefi hyn mae'r Cyngor yn rhoi cymhorthdal i bob defnyddiwr o tua £101.21 yr wythnos neu £5,262.92 y flwyddyn. Gyda'r 29 o drigolion sy'n hunangyllido ar hyn o bryd, mae hyn gyfwerth â £152,625 y flwyddyn.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Yn unol ag Adran 22 Deddf Cymorth Gwladol 1948, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol bennu'r ffi safonol ar gyfer eu cartrefi.

Y ffi safonol yw'r ffi y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei chodi ar drigolion a chanddynt **y modd ariannol i dalu am eu gofal preswyl yn llawn**. Mae ein rhagdybiaeth gynllunio o gwmpas ein hunangyllidwyr wedi cael ei hadolygu dros y blynyddoedd diwethaf i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gyfredol. Fel sydd wedi nodi yn A, rydym wedi ystyried cynyddu'r tâl i adlewyrchu cost lawn y ddarpariaeth, ond wedi penderfynu peidio â gwneud hynny oherwydd y byddai'n gynnydd sylweddol ac anghymesur i'r preswylwyr.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'r penderfyniad hwn yn gyson gyda Pholisi Cenedlaethol fel yr amlinellir yn rhan C uchod.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)	
1	Economaidd
2	Gwrthdlodi
3	Trosedd ac Anhrefn
4	Amgylcheddol
5	Cydraddoldebau
6	Cytundebau Canlyniad
7	Arall

F - Atodiadau:

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	19/02/2018
Pwnc:	Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Dibreswyl yn y Gymuned - Ffioedd a Thaliadau 2018/19
Portfolio Holder(s):	Y Cyng Llinos Medi Huws
Pennaeth Gwasanaeth	Alwyn Rhys Jones – Pennaeth Gwasanaeth
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Dafydd Bulman - Rheolwr Busnes a Thrawsnewid Strategol 01248 752013 Dafyddbulman@ynysmon.gov.uk
	Delyth LI Jones - Uwch Swyddog Cyllid 01248 752785 DelythJones@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Yr holl aelodau

A – Argymhelliad / argymhellion a rheswm / rhesymau		
1. Cefndir		
1.1 Mae'n arferol i adolygu'r ffioedd a godir mewn perthynas â gwasanaethau cartref bob blwyddyn i gyd-fynd ag adolygiad y Llywodraeth Ganolog o lefelau budd-daliadau a phensiwn.		
1.2 Mae'r adroddiad yn nodi taliadau a ffioedd a godir am ofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned yn 2018/19 yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.		
2. Gwasanaethau Gofal Cartref:		
2.1 Yn dilyn y newidiadau a wnaed i ofal cartref gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror 2017, rydym yn cynnig y dylid parhau i ddefnyddio'r model hwn ar gyfer 2018/19.		
<u>Tabl 1 – Taliadau Gofal Cartref 2018/19</u>		
Os ydych dros oedran pensiwn ac yn derbyn incwm o £236.35 neu fwy ar hyn o bryd yn 2018/19:	Taliadau wythnosol	Os ydych o dan oedran pensiwn ac yn derbyn incwm wythnosol o £160.59 neu fwy ar hyn o bryd yn 2018/19:
A'ch incwm yn llai na £241.34 yr wythnos	DIM TÂL	A'ch incwm yn llai na £165.58 yr wythnos
A'ch incwm rhwng:		A'ch incwm rhwng:

£241.35 - £246.34	£5.00	£165.59 - £170.58
£246.35 - £248.59	£10.00	£170.59 - £172.83
£248.60 - £251.34	£12.25	£172.84 - £175.58
£251.35 - £256.34	£15.00	£175.59 - £180.58
£256.35 - £261.34	£20.00	£180.59 - £185.58
£261.35 - £266.34	£25.00	£185.59 - £190.58
£266.35 - £271.34	£30.00	£190.59 - £195.58
£271.35 - £276.34	£35.00	£195.59 - £200.58
£276.35 - £281.34	£40.00	£200.59 - £205.58
£281.35 - £286.34	£45.00	£205.59 - £210.58
£286.35 - £294.19	£50.00	£210.59 - £218.43
£294.20 - £296.34	£57.85	£218.44 - £220.58
£296.35 - £301.34	£60.00	£220.59 - £225.58
£301.35 - £306.34	£65.00	£225.59 - £230.58
£306.35 - £311.34	£70.00	£230.59 - £235.58
£311.35 - £316.34	£75.00	£235.59 - £240.58
Incwm o £316.35 neu fwy neu gynilon o dros £ 24,000.00	£60.00	Incwm o £240.59 neu fwy neu gynilon dros £24,000.00

Ar gyfer 2018/19 mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r uchafswm tâl gofal cartref o £70 i £80 yr wythnos a adlewyrchwyd yn nhabl 1.

3. Prydau Bwyd mewn Gwasanaethau Dydd

Mae'r tâl hwn yn berthnasol i brydau a lluniaeth a ddarperir ym mhob lleoliad Gwasanaeth Dydd.

Cynigir yr egwyddorion canlynol: -

- Cynnydd o 3% mewn perthynas â darparu prydau bwyd / lluniaeth.

3.3 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r taliadau arfaethedig.

Tabl 3: Darparu Prydau – Taliadau y bwriedir eu codi yn 2018/19

	Taliadau 2017/18	2018/19 (Taliadau Arfaethedig)
Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i oedolion (ac eithrio pobl ag Anabledd Dysgu)	£5.70	£5.90*
Byrbryd canol dydd mewn gwasanaethau dydd i bobl ag Anabledd Dysgu	£2.30	£2.40*
Lluniaeth Arall (te / coffi / teisen) mewn gwasanaethau dydd	£1.30	£1.30*

** Mae'r ffioedd a gynigir ar gyfer 2018/19 wedi eu rowndio i fyny i'r 10c agosaf er mwyn lleihau costau gweinyddol.*

4.0 Taliadau Teleofal

Rhaid cymryd y ffactorau canlynol i ystyriaeth wrth benderfynu tâl teg am y gwasanaeth Teleofal:

- Cyfraniad yr Awdurdod Lleol i'r Gwasanaeth Galw Gofal Rhanbarthol;
- Taliadau cynnal a chadw;
- Costau offer teleofal;
- Costau Cyllid a Gweinyddiaeth;
- Costau gosod;
- Costau offer ailgylchu;
- Costau archwiliadau lechyd a Diogelwch gweledol bob chwe mis;
- Effaith ar fusnes cyfredol.
- Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion.

Teleofal: Taliadau Arfaethedig yn 2018/19

Mae trefniadau codi tâl hanesyddol yn golygu bod Cyngor Sir Ynys Môn erbyn hyn yn codi tâl gwahanol am yr un lefel o gymorth – nid yw hyn yn deg nac yn gyson i bawb. Gwnaed penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith yn Chwefror 2017 i gysoni'r ffioedd hyn dros gyfnod o 2 flynedd. Ar gyfer 2018/19, byddwn yn glynu wrth daliadau 2017/18 er mwyn cysoni'r ffioedd.

Tabl 4: Taliadau Arfaethedig am Deleofal yn 2018/19

Haen 1 Offer, gwasanaeth a chynnal a chadw (uned, larwm gwddf a larymau mwg)	Bydd pawb yn talu £45.24 y chwarter (£ 3.48 yr wythnos)
Haenau 2 a 3 Offer, gwasanaeth, monitro a chynnal a chadw (Offer heblaw uned, larwm gwddf a larymau mwg)	Bydd pawb yn talu £90.22 y chwarter (£ 6.94 yr wythnos)

Taliadau Teleofal Blynyddol – cynnydd o 3% yn 2018/19 fel y nodir yn Nhabl 5

Tabl 5 – Taliadau Teleofal Blynyddol am 2018/19

	Taliadau 2017/18	(Taliadau Arfaethedig) 2018/19
Gwasanaeth a Chynnal a Chadw	£104.44	£107.55
Gwasanaethau yn unig	£67.49	£69.50
Costau Gosod unwaith ac am byth	£41.74	£43.00

Arfaethedig (swm gros wedi ei rowndio i'r 5c agosaf)

Ni fydd unrhyw newid o ran pecynnau sy'n cael eu cyllido'n rhannol neu'n llawn drwy'r cynllun cefnogi pobl. Mae adolygiad wrthi'n cael ei gynnal ar hyn o bryd mewn ymgynghoriad gyda'r adran dai. Bydd unrhyw argymhellion yn dilyn yr adolygiad hwn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn y man.

5.0 Taliadau Uniongyrchol

Mae Taliadau Uniongyrchol yn galluogi unigolion i brynu drostynt eu hunain y gwasanaethau y byddai'r Awdurdod Lleol wedi eu darparu ar eu cyfer fel arall. Mae Taliadau Uniongyrchol yn cefnogi byw'n annibynnol drwy alluogi unigolion i wneud eu penderfyniadau eu hunain a bod â rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. Yng Nghymru, mae'r Cynllun wedi cael ei ymestyn yn raddol i gynnwys: -

- Pobl hŷn
- Gofalwyr
- Rhieni Plant ag Anableddau
- Oedolion ag Anableddau

Pennwyd cyfradd Taliad Uniongyrchol o £ 10.50 yr awr ar gyfer 2017/18. Yn dilyn adolygiad o'r gyfradd hon, bydd yn codi i £11.30 yn 2018/19 er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth mewn ymateb i'r newidiadau yn y cyflog byw a phensiynau.

Moderneiddio'r Cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru

Argymhellir codi tâl o £ 10 am bob bathodyn mewn perthynas â bathodynnau sefydliadol a bathodynnau newydd (yn lle rhai a gollwyd neu a gafodd eu dwyn) ar gyfer 2018/19.

Prynu Gwasanaethau Gofal Dydd mewn Cartrefi Gofal Preswyl Annibynnol

Y ffi am brynu gwasanaethau dydd yn 2017/18 oedd £ 31.28. 'Rydym yn cynnig cynnydd o 3% yn y ffi i £ 32.21 i fod yn gyson gyda chynnydd yn nhaliadau'r Cyngor yn 2018/19. Bydd y cynnydd hwn o gymorth i sicrhau cynaliadwyedd a pharhad gwasanaethau gofal dydd a brynir o gartrefi gofal preswyl annibynnol, ac er mwyn cwrdd ag anghenion unigol y defnyddwyr gwasanaeth.

Ffioedd Gofal Cartref

Ar hyn o bryd mae'r adran gofal cymdeithasol i oedolion yn comisiynu gofal cartref gan y sector annibynnol ar gost uned o £ 15.90 yr awr neu ran o awr. Yn dilyn adolygiad o hyn, rydym yn bwriadu cynyddu'r ffi i £16.53 fel cyfradd interim hyd oni fydd y contractau newydd ar gyfer pobl hŷn wedi cael eu gweithredu. Bydd y cyfraddau'n gwahaniaethu o ardal i ardal yn dilyn y tendr hwn.

Mae'r adran ar hyn o bryd wrthi'n ystyried y cyfraddau gofal cartref ar gyfer Cefnogaeth Barhaus gan ddarparwyr (Cymorth Gwaith Prosiect yn bennaf ar gyfer cleientiaid anabl drwy Dendr Gofal Cartref Gogledd Cymru) ac effaith y cyfraddau hyn ar y costau cyffredinol. Bydd penderfyniad ynghylch a fyddwn yn mabwysiadu'r cyfranndau hyn neu'n pennu ein cyfraddau ein hunain yn cael ei gyhoeddi yn y man.

Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r: -

A1 Ffioedd gofal cartref a amlinellir yn nhabl 1.

A2 Ffioedd ar gyfer prydau mewn gwasanaethau dydd a amlinellir yn nhabl 3.
Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i oedolion (ac eithrio pobl ag Anabledd Dysgu) - £5.85
Byrbryd canol dydd mewn gwasanaethau dydd i bobl ag Anabledd Dysgu - £ 2.35
Lluniaeth Arall (te / coffi / teisen) mewn gwasanaethau dydd - £ 1.35

A3 Ffioedd ar gyfer gwasanaethau Teleofal fel yr amlinellwyd yn nhabl 4.
Haen 1 – bydd pawb yn talu £ 45.24
Haenau 2 a 3 – bydd pawb yn talu £ 90.22

A4 Y ffioedd blynyddol ar gyfer gwasanaethau Teleofal fel yr amlinellwyd yn nhabl 5.
Gwasanaeth a Chynnal a Chadw £107.55
Gwasanaeth yn unig £69.50
Costau Gosod Unwaith ac am byth £43.00

A5 Cyfradd o £ 11.30 / awr ar gyfer Taliadau Uniongyrchol

A6 Ffi o £ 10.00 ar gyfer costau gweinyddu mewn perthynas â cheisiadau am Fathodyn Glas ac i ddarparu bathodynnewydd yn lle rai a gollwyd neu a gafodd eu dwyn

A7 Cynnydd o 5% yn y ffi am brynu gwasanaethau gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol i £32.21

A8 Cynnydd o 5% yn y ffi am brynu gofal cartref wedi ei gymosiynu o £15.90 o £16.53 yr awr fel cyfradd interim

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'r opsiynau a nodir yn gyson â dull cyffredinol y Cyngor o weithredu mewn perthynas â ffioedd a thaliadau yn 2016/17.

C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae gan benderfyniadau ar ffioedd a thaliadau oblygiadau ariannol i gyllideb yr Awdurdod Lleol o ran incwm a dderbynnir a fforddiadwyedd taliadau a wneir yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

--

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?

	DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?	Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)(Gorfodol)	Cyflwynwyd i'r UDA ar 22/1/2016, dim sylwadau pellach
2	Cyllid / Adran 151 (Gorfodol)	Cyflwynwyd i'r UDA ar 22/1/2016, dim sylwadau pellach
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (Gorfodol)	Cyflwynwyd i'r UDA ar 22/1/2016, dim sylwadau pellach
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Amherthnasol
9	Aelodau lleol	Amherthnasol
10	Unrhyw gorff / gyrrff allanol / arall / eraill	Amherthnasol

E - Risgiau ac unrhyw liniaru (os yn berthnasol)

1	Economaidd	Amherthnasol
2	Gwrth-dlodi	Amherthnasol
3	Troseddau ac Anhrefn	Amherthnasol
4	Amgylcheddol	Amherthnasol
5	Cydraddoldebau	Amherthnasol
6	Cytundebau Canlyniadau	Amherthnasol
7	Arall	Amherthnasol

F - Atodiadau:

--

Papurau cefndir (cysylltwch â'r awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach) - FF:

--

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	19/2/2018
Pwnc:	Ffioedd Gofal Cartref yn y Sector Annibynnol ar gyfer 2018/19
Aelod(au) Portffolio:	Y Cyng Llinos Medi Huws
Pennaeth Gwasanaeth:	Alwyn Rhys Jones – Pennaeth Gwasanaeth
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Dafydd Bulman – Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes 01248 752013 Dafyddbulman@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Pob Aelod

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

O 6 Ebrill 2016, mae'r fframwaith ar gyfer asesiad ariannol a chodi ffioedd bellach yn dod dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhaid i'r Awdurdod Lleol adolygu ffioedd yn y sector cartrefi gofal annibynnol bob blwyddyn i gyd-ddigwydd â newidiadau Llywodraeth Ganolog i lefelau budd-daliadau a phensiynau.

Wrth bennu ffioedd ar gyfer cartrefi gofal yn y sector annibynnol, rhaid i ni ddangos ein bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i gostau'r ddarpariaeth wrth benderfynu ar ein ffioedd gofal sylfaenol. Gwneir hyn mewn cydweithrediad gydag Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio Methodoleg Ffioedd Ranbarthol. Dyma wnaed wrth bennu ffioedd yn 2017/18. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r model hwn ar gyfer 2018/19 sy'n adlewyrchu'r newidiadau o ran pensiynau, y cyflog byw cenedlaethol a chwyddiant.

Mae Methodoleg Gogledd Cymru (Atodiad 1) wedi argymhell cynnydd rhwng 3.35% a 3.55% ar draws y 4 categori gofal. Cynigir y ffioedd isod ar gyfer 2017/18:

Tabl 1 – Argymhelliad Methodoleg Gogledd Cymru

Categori	2017/18	2018/19	Cynnydd £	Cynnydd %
Preswyl (Oedolion)	£526.87	£544.49	£17.63	3.35%
Preswyl (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl)	£547.33	£565.99	£18.66	3.41%
Gofal Nyrsio Sylfaenol (Elfen Gofal Cymdeithasol)	£567.81	£587.50	£19.69	3.47%
Nyrsio (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) (Elfen)	£598.51	£619.77	£21.26	3.55%

Gofal Cymdeithasol)				
------------------------	--	--	--	--

(y cyfan yn seiliedig ar Ddychweliad o 10% ar Fuddsoddiad ar gyfer 2017/18 a 2018/19)

Cytunodd Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Gogledd Cymru (NWASH) mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 26/1/2018, bod y codiadau a nodwyd yn gyson â gweithredu'r model ffioedd.

Yn dilyn trafodaeth gyda'r Pennaeth Cyllid (Adran 151), rydym yn bwriadu defnyddio'r fethodoleg yn llawn ar gyfer:

- Preswyl (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl)
- Gofal Nyrsio Sylfaenol (Elfen Gofal Cymdeithasol)
- Nyrsio (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) (Elfen Gofal Cymdeithasol)

Ystyriwyd nad oedd gweithredu'r model yn llawn ar draws yr holl sectorau yn fforddiadwy. Wedi rhoi'r sylw dyledus i fforddiadwyedd y codiadau, a'r cyfeiriad strategol y mae'r Cyngor yn ei gymryd o ran datblygu dewisiadau amgen i ofal preswyl (ar ffurf Tai Gofal Ychwanegol a gofalu am bobl yn eu cartrefi), rydym yn bwriadu pennu'r cyfraddau ar gyfer gofal preswyl (Oedolion) yn seiliedig ar lefel is o Ddychweliad ar Fuddsoddiad (DAF) o 9%.

Amcangyfrif o'r pwysau blynyddol yn seiliedig ar DAF 10% ar gyfer Gofal Preswyl = £208,184k
 Amcangyfrif o'r pwysau blynyddol yn seiliedig ar DAF 9% ar gyfer Gofal Preswyl = £149,553k
 Amcangyfrif o'r pwysau blynyddol yn seiliedig ar DAF 8% ar gyfer Gofal Preswyl = £90,121k

O'r herwydd, mae Ynys Môn yn argymhell y cyfraddau isod ar gyfer eu cymeradwyo.

Tabl 2 – Ffioedd Arfaethedig Ynys Môn ar gyfer 2017/18

Categori	2017/18	2018/19	Cynnydd £	Cynnydd %	DAF
Preswyl (Oedolion)	£517.17	£534.77	£17.60	3.40%	9%
Preswyl (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl)	£547.33	£565.99	£18.66	3.41%	10%
Gofal Nyrsio Sylfaenol (Elfen Gofal Cymdeithasol)	£567.81	£587.50	£19.69	3.47%	10%
Nyrsio (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) (Elfen Gofal Cymdeithasol)	£598.51	£619.77	£21.26	3.55%	10%

Bydd angen i'r Cyngor ymgynghori gyda darparwyr lleol ynghylch y ffioedd a bennwyd. Efallai y bydd angen ystyried cyflwyniadau unigol gan ddarparwyr fel rhan o'r broses hon. Petai tystiolaeth glir i ddangos nad yw'r ffi a bennwyd yn ddigonol mewn unrhyw achos unigol, bydd angen i'r Cyngor ystyried eithriadau i'r ffioedd a bennwyd. Cynigir bod unrhyw benderfyniadau o'r fath yn cael eu dirprwyo i'r Aelod Portffolio, y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:-

1. Cydnabod Methodoleg Ffioedd Gogledd Cymru fel y cafodd ei gweithredu hyd yma gan yr Awdurdodau yng Ngogledd Cymru fel sylfaen ar gyfer pennu ffioedd yn Ynys Môn yn ystod 2018/19 (Atodiad 2).
2. Cymeradwyo'r argymhelliad i gynyddu'r lefelau ffioedd a nodwyd yn **Nhabl 2** uchod
3. Yr un modd ag Awdurdodau eraill, rhoi'r awdurdod i'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyllid ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi i edrych ar eu cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sylfaen i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Rhaid i unrhyw eithriadau gael eu cytuno gyda'r Deilydd Portffolio, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion o'r cyllidebau cyfredol. Oni fedrir dod i gytundeb, bydd y mater yn mynd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyriwyd gweithredu Model Ffioedd Gogledd Cymru yn llawn. Ar sail fforddiadwyedd i'r Cyngor, gwrthodwyd hynny ac argymhellwyd y model a gynigir yn Nhabl 2.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Rhaid i Awdurdodau Lleol bennu ffioedd cartrefi gofal yn unol â pholisi cenedlaethol. Mae gan y penderfyniad hwn oblygiadau ariannol i gyllideb yr Awdurdod Lleol o ran fforddiadwyedd yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'r penderfyniad hwn yn gyson â'r cytundeb a wnaed i gydweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru ac i ddefnyddio Methodoleg Gogledd Cymru i bennu'r ffioedd bob blwyddyn.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Yn seiliedig ar drafodaethau manwl gyda'r Adran Gyllid yn amcangyfrif effaith y newidiadau hyn a chyllideb arfaethedig yr adran ar gyfer 2018/19, ystyrir y gellir cwrdd â'r codiadau hyn o fewn y gyllideb.

Bydd angen i'r adran barhau i ganolbwyntio ar leihau nifer y lleoliadau o'r math yma fel y gwelwyd yn y blynyddoedd diweddar.

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Cyflwynwyd i'r UDA ar 22/1/2016, dim sylwadau pellach

2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Cyflwynwyd i'r UDA ar 22/1/2016, dim sylwadau pellach
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Cyflwynwyd i'r UDA ar 22/1/2016, dim sylwadau pellach
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Amherthnasol
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol
10	Unrhyw gyrrff allanol / arall/eraill	Amherthnasol

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	Amherthnasol
2	Gwrthdodi	Amherthnasol
3	Trosedd ac Anhrefn	Amherthnasol
4	Amgylcheddol	Amherthnasol
5	Cydraddoldebau	Amherthnasol
6	Cytundebau Canlyniad	Amherthnasol
7	Arall	Amherthnasol

F - Atodiadau:
Atodiad 1 – Methodoleg Gogledd Cymru Atodiad 2 – Crynodeb o'r Ymgynghoriad

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

Atodiad 1

Gosod Lefelau Ffioedd Gofal Preswyl a Nyrsio am 2018/19 – Sylwadau a gafwyd ar y Ffioedd arfaethedig a'r Fethodoleg

Ym mis Medi, rhannodd y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion Fodel Ffioedd Gofal Preswyl a Nyrsio Gogledd Cymru gyda'r holl ddarparwyr er mwyn cael eu sylwadau. Daeth y cyfnod ymgynghori hwn i ben ar 30/11/2017. Cawsom nifer o ymatebion gan ddarparwyr a Fforwm Gofal Cymru.

Crynodeb o'r Ymateb	Sylwadau
Dim cyfeiriad at y costau canlynol: Cael gwared ar wastraff, gwisgoedd, llieiniau a llestri, deunydd a phapur ysgrifennu, costau moduro a theithio, tanysgrifiadau, marchnata a chostau amrywiol, gwastraff clinigol a masnachol, deunyddiau domestig a glanhau, cyflenwadau meddygol (gan gynnwys rhentu offer meddygol)	Ymdrinnir â'r rhain yn yr elfen o'r ffi sy'n ymwneud â 'Chostau ychwanegol na wnaed darpariaeth ar eu cyfer mewn mannau eraill' Hoffem archwilio cyfleoedd dros y flwyddyn ariannol nesaf i ddatblygu perthynas â darparwyr cartrefi gofal i gael gwell dealltwriaeth o gostau gwirioneddol a byddwn yn adolygu'r fethodoleg yn unol â hynny
Gofynnwyd am eglurhad am y rheswm dros gael gwared â'r elfen Dodrefn / Ffitiadau, gan gynnwys gwaith adnewyddu a thrwsio.	Mae grŵp ffioedd Gogledd Cymru wedi ymrwymo i adolygu'r elfen hon o'r pecyn cymorth ar gyfer 2019/20.
Mae cyfraniad pensiwn y cyflogwr yn cynyddu i 2% ym mis Ebrill 2018, ac ni chymerwyd cyfraniad pensiwn 1% y llynedd i ystyriaeth ('roedd y grant Gofal Cymdeithasol i fod i leddfu effaith hynny)	<p>Roedd methodoleg 2017/18 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfraniad pensiwn 0.7 % gan y cyflogwr yn seiliedig ar nifer y gweithwyr cymwys a'r niferoedd a fyddai'n manteisio ar y cynllun o fewn sampl o'r cartrefi gofal.</p> <p>'Rydym yn cydnabod bod cyfraniad y cyflogwr yn cynyddu yn 2018/19 ac yn derbyn y dylid cynyddu'r elfen hon o'r gost ac felly 'rydym wedi adolygu'r fethodoleg.</p> <p>Mae'r lwfans bellach yn 1.5% yn seiliedig ar 7^{fed} Argraffiad pecyn cymorth Laing & Buisson.</p> <p>Mewn perthynas â'r Grant Gofal Cymdeithasol, defnyddir y grant i gyfrannu tuag at gynnydd yn y ffioedd ar draws y sector annibynnol a'r trydydd sector.</p>
Ni chymerwyd cyfrif am y cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol	Cyhoeddwyd y sylwadau a'r fethodoleg drafft cyn cyllidebau'r hydref. Mae'r elfen ar gyfer tâl staff wedi codi yn unol â'r cynnydd canrannol yn y Cyflog Byw Cenedlaethol ers Datganiad yr Hydref.

<p>Oriau Gofal EMI – Cyfrifiad (yn seiliedig ar gartref 19 gwely) bod hwn yn gyllid ar gyfer 2 ofalwr i ofalu am 19 o drigolion EMI. 'Ni allai cartrefi llai fod â gofalwr cymwys ar ddyletswydd bob amser'.</p>	<p>Mae'r fethodoleg ariannu ar gyfer staffio yn darparu ar gyfer 50% o'r oriau ar lefel uwch (staff cymwys / lefel uwch) oherwydd bod y rheoliadol statudol yn nodi fod raid i 50% o staff gwasanaethau fod gyda'r cymhwyster priodol. Rydym yn rhagweld y bydd Rheolwyr yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth gynllunio eu rhestri staff</p>
<p>Mae'r elfen a ganiatawyd ar gyfer bwyd ac ati yn £28.46 fesul preswlydd / yr wythnos sy'n cyfateb i £ 4.07 y dydd. Mae hyn ar gyfer darparu 4 pryd y dydd i'r preswylwyr (gan gynnwys nwyddau cartref).</p>	<p>Hoffem archwilio cyfleoedd dros y flwyddyn ariannol nesaf i ddatblygu perthynas â darparwyr cartrefi gofal i gael gwell dealltwriaeth o gostau gwirioneddol a byddwn yn adolygu'r fethodoleg yn unol â hynny</p>
<p>Mae ffioedd yng Ngwynedd tua £ 20 yr wythnos yn uwch na rhai Ynys Môn fesul cleient. Dim gwahaniaeth yn y gost rhwng y ddwy Sir.</p>	<p>Roedd hwn yn benderfyniad lleol i bob awdurdod lleol yn 2017/18 bennu'r Elw ar Fuddsoddiad (ROI). Penderfynodd Ynys Môn newid yr elw ar y buddsoddiad ar gyfer Gofal Preswyl i 9% (penderfyniad a oedd yn seiliedig ar fforddiadwyaeth y model yn gyffredinol) a chadw'r holl gategoriâu eraill ar 10%, a hynny'n gyson â Model Ffioedd Gogledd Cymru. Mewn siroedd eraill mae awdurdodau lleol wedi dewis cynyddu neu ostwng yr ROI yn seiliedig ar faterion lleol a fforddiadwyaeth.</p>
<p>Mae recriwtio nyrsys yn anodd ac yn gostus iawn - mae'r gost wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf. Mae'r costau lleol rhwng £17 a £18 yr awr.</p>	<p>Gwahoddir unrhyw ddarparwyr sydd â thystiolaeth bod y gost yn uwch na'r ffioedd a weithredir yn Ynys Môn i wneud trefniadau i gwrdd ar sail un-i-un i drafod y rhain mewn ymarfer llyfr agored</p>
<p>Mae'r fformiwlâu a ddefnyddir i gyfrifo costau gofal yn rhagdybio oriau cynorthwy-wyr gofal nad oes modd eu cyflawni.</p>	<p>Hoffem ymchwilio i gyfleon dros y flwyddyn ariannol nesaf gyda darparwyr gofal cartref i nodi safonau gofal, gan gynnwys lefelau staffio, a chael tystiolaeth o'r costau gweithredu gwirioneddol.</p> <p>Yn ogystal, os oes gan unrhyw ddarparwyr dystiolaeth bod y gost yn uwch na'r ffioedd a weithredir yn Ynys Môn, fe'u gwahoddir i wneud trefniadau i gwrdd ar sail un-i-un i drafod y rhain mewn ymarfer llyfr agored.</p>
<p>Cyfeiriwyd at y Fframwaith a'r Canllawiau ar gyfer Cymunedau Cefnogol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2010 sy'n datgan y dylai comisiynwyr "ddeal" costau'r darparwyr a gweithredu i hyrwyddo cynaliadwyedd y gwasanaeth. Fforwm Gofal Cymru yn cwstyntu a yw'r ffioedd a gynigir yn digolledu'r darparwyr</p>	<p>Gwahoddir unrhyw ddarparwyr sydd â thystiolaeth bod y gost yn uwch na'r ffioedd a weithredir yn Ynys Môn i wneud trefniadau i gwrdd ar sail un-i-un i drafod y rhain mewn ymarfer llyfr agored</p>

<p>yn llawn am eu costau ac os nad ydynt, sut mae'r Awdurdod yn disgwyl i ddarparwyr gwrdd â'r costau sy'n weddill?</p>	
<p>Ffactorau chwyddiant - roedd CPI yn 3% ym mis Medi 2017 yn hytrach na'r 2.3% a ddyfynnwyd.</p>	<p>Cafodd y fersiwn wreiddiol o'r fethodoleg / pecyn cymorth rhanbarthol ei drafftio cyn y setliad cyllidebol. Mae'r CPI yn y model cyfredol yn 3%</p>
<p>Cofrestru - synnu mai dim ond cynnydd ar sail CPI a ganiatawyd yma o ystyried y gofynion o dan y Ddeddf i bob darparwr ailgofrestru ac i adnewyddu gwiriadau DBS bob 3 blynedd. 'Roedd y darparwr yn cydnabod bod y rheoliadau wedi eu cyhoeddi ar ôl y pecyn cymorth.</p>	<p>Ar gyfer cofrestru a recriwtio, costau bwyd a chostau aelwyd.</p> <p>Nid yw'r fethodoleg ranbarthol yn cynyddu pob llinell nad yw'n ymwneud â thâl yn ôl ei chyfradd benodol o CPI. Yn hytrach, mae'n defnyddio'r CPI cyffredinol.</p> <p>Os oes gan unrhyw ddarparwyr dystiolaeth bod y gost yn uwch na'r ffioedd a weithredir yn Ynys Môn fe'u gwahoddir i wneud trefniadau i gwrdd ar sail un-i-un i drafod y rhain mewn ymarfer llyfr agored.</p>
<p>Recriwtio - nododd nad oes lwfans heblaw am chwyddiant. Mae adroddiadau gan ddarparwyr yn dangos trosiant cynyddol o staff a chynnydd cyfocrog yn yr angen i ddefnyddio staff asiantaeth.</p>	
<p>Dodrefn a ffitiadau – holi pam y tynnwyd y llinell hon allan heb ymgynghori. Cafwyd trafodaethau manwl ynghylch y costau hyn yn mynd yn ôl i 2011 (gweler y llythyr am fanylion). Cyfeiriwyd at Laing & Buisson sy'n parhau i gynnwys tair llinell ar gyfer gwariant cyfalaf ar waith cynnal, trwsio (costau refeniw) a chynnal a chadw contractau cyfarpar. Cyfanswm yr eitemau hyn yw £24.86 yn y pecyn cymorth ar gyfer Gogledd Cymru o gymharu â £43 yn Laing & Buisson (ceir manylion pellach am gyfrifiadau L & B yn y llythyr)</p>	
<p>Bwydydd a darpariaethau cartref – ddim yn teimlo bod £27.82 yn realistig oherwydd bod chwyddiant yn uwch na'r disgwyl. 'Roedd y CPI fis Medi diwethaf yn 3% yn hytrach na'r 2.3%. Ar gyfer bwyd roedd yn 4.1%. Gofynnwyd a gasglwyd gwybodaeth gan ddarparwyr neu a fedr yr Awdurdod ddarparu sampl o fwydlen y gellid ei chynnig o fewn y gost a ganiatawyd (a fyddai'n briodol i breswylwyr cartref gofal).</p>	
<p>Elw ar Fuddsoddiad – Gostyngiad ar ffigwr o £97.79 wedi ei gyflwyno yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru yn 2012/13. Ffigyrau FfGC yn seiliedig ar Laing & Buisson y llynedd oedd £184.37. Fodd bynnag, byddai FfGC yn fodlon cytuno ar isafswm ar gyfer y cartrefi hynny nad ydynt yn cwrdd â'r safonau ffisegol sy'n ofynnol ar gyfer cartrefi gofal newydd. Byddai hyn yn cynnwys disgownt o £79.34 gan wneud</p>	<p>Cytunwyd ar y lwfans a wnaed ar gyfer yr elfen hon gan Gyfarwyddwyr Cyllid Gogledd Cymru fel un sy'n rhesymol o gofio cyflwr y farchnad.</p> <p>Yn ogystal, mae Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru wedi cytuno i edrych ar y modelau gofal sydd eu hangen i'r dyfodol i gwrdd ag anghenion y boblogaeth yng Ngogledd Cymru a phenderfynu ar</p>

<p>cyfanswm o £ 105.03 ar gyfer elw ar gyfalaf i'r cartrefi hynny nad ydynt yn cwrdd â'r safonau gofynnol cenedlaethol.</p>	<p>unrhyw gymorth ychwanegol y gellir ei gynnig ar gyfer buddsoddi / datblygu a digomisiynu gwasanaethau cartrefi gofal ar lefel leol.</p>
<p>Elw ar Fuddsoddiad - Angen safonau newydd mewn perthynas ag eitemau megis manau cymunedol a darpariaeth ensuite. Roedd y daparwr yn gofyn pa ystyriaeth a roddwyd i'r rhain wrth gynhyrchu ffigwr y pecyn cymorth.</p>	
<p>Elw ar Fuddsoddiad - mae'r ffigwr cyfredol yn seiliedig ar 10%, mae Laing & Buisson yn defnyddio 11%. Mae L & B yn cynnwys llinell yn eu pecyn cymorth ar gyfer gorbenion corfforaethol. Ar ba sail y penderfynwyd peidio â chynnwys hyn yn y pecyn cymorth?</p>	<p>Cytunwyd ar elw safonol o 10% mewn egwyddor gan Gyfarwyddwyr Cyllid Gogledd Cymru fel elw rhesymol o gofio cyflwr y farchnad; gyda'r amod y gellir adolygu ac amrywio'r ffigwr hwn ar lefel leol. Yn ogystal, mae Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru wedi cytuno i edrych ar y modelau gofal sydd eu hangen i'r dyfodol i gwrdd ag anghenion y boblogaeth yng Ngogledd Cymru a phenderfynu ar unrhyw gymorth ychwanegol y gellir ei gynnig ar gyfer buddsoddi / datblygu a digomisiynu gwasanaethau cartrefi gofal ar lefel leol.</p>
<p>Gostwng elw ar fuddsoddiad cyfalaf yn afresymegol mewn cyfnod pan fo Ynys Môn yn bwriadu cynyddu'r ddarpariaeth EMI. Mae'n gofyn pa ystyriaeth a roddwyd i effeithiau tebygol newid y cyfrifiad ROI ar y dyhead hwn ?</p>	
<p>Costau Staff - rhannwyd yr oriau staff yn 2017/18 yn ddwy gyfradd, sef un ar gyfer staff gofal a'r llall ar gyfer staff gofal uwch. Arweiniodd hyn at ostwng y gyfradd gyfun ar gyfer y 50% isaf o'r gweithwyr (o £10.17 yn 2016/17 i £9.54 yn 2017 / 18 a chynnig o £9.98 ar gyfer 2018/19).</p>	<p>Costau staff - Cyflogau staff a chyfradd 'gyfun' ar gyfer Gweithwyr Gofal a Chymorth ac Uwch Weithwyr Gofal. Yn 2017/8 adolygwyd elfen staffio'r fethodoleg ranbarthol. Mae hyn wedi arwain at gynydd yn nifer yr oriau staff a gynhwyswyd yn y fethodoleg a'r rhagdybiaethau canlynol ar lefel leol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mabwysiadodd y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol ddull o weithredu a fyddai'n gwahaniaethu'n glir yn y tâl a roddir i staff lefel mynediad a'r staff sydd â chymwysterau a chyfrifoldebau ychwanegol - a delir ar gyfradd uwch (ar gyfer 2018/19 rhagdybir £8.97 + gorbenion. Mae'r gyfradd uwch hon yn seiliedig ar y dystiolaeth o'r arolwg costau staff a gynhaliwyd yn 2016/7 a chynyddwyd y gyfradd hon yn y blynyddoedd dilynol). Tybiwyd rhaniad 50/50 rhwng y cyfraddau hyn. • 'Roedd un awdurdod lleol wedi cadw'r gyfradd 'gyfun', yn seiliedig ar y cyflwyniad gan Fforwm Gofal Cymru yn 2011 a thystiolaeth o gostau, a godwyd yn seiliedig ar y cynnydd canrannol yn y Cyflog Byw Cenedlaethol flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae hyn yn arwain at ragdybiaeth gost uwch ar gyfer staffio <p>Rydym bellach yn nodi:</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae 30% o staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru yn derbyn y Cyflog Byw Cenedlaethol • Mae gan 20% gymwysterau uwch a / neu'n ymgymryd ag uwch ddyletswyddau • Mae gan y 50% sy'n weddill gymwysterau lefel 2 o leiaf ac mae tâl ychwanegol am gymryd cyfrifoldeb ychwanegol / neu am gymwysterau ychwanegol. <p>Rydym yn cydnabod y bydd pob cyflogwr yn dewis gosod cyfraddau tâl yn unol â chyfraddau tâl lleol ac sy'n gydnaws â'r dyletswyddau a gyflawnir. Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth o lefelau cyflog ar gyfer staff â chymwysterau lefel 2 o leiaf, fe wnaethom ddrafftio model o'r elfennau staffio yn seiliedig ar 20% yn derbyn y Cyflog Byw Cenedlaethol, 30% ar y gyfradd uwch yn seiliedig ar yr arolwg staff diweddaraf a 50% o'r staff yn y canol rhwng y ddau begwn. Arweiniodd hyn at gyfradd 'gyfun' sy'n is na'r hyn a roddir gan y fersiwn (ddiwygiedig) hon o'r pecyn cymorth ar gyfer 2018/9 ac felly rydym wedi cadw'r dull cyfrifo hwn.</p>
<p>Sefydlogi'r gweithlu – mae awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd yn pennu cyfraddau tâl gwahanol ar gyfer staff mewnol a staff mewn gwasanaethau a gomisiynwyd. Mae FfGC yn gofyn i'r awdurdod lleol ystyried pennu cyfraddau tâl staff yn ôl y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer eu staff eu hunain. Mae'r Bwrdd Iechyd yn hysbysebu am staff gofal ar gyfraddau hyd at £ 10.15 yr awr sy'n llai na'r hyn y mae archfarchnadoedd lleol yn ei dalu.</p>	<p>Mae awdurdodau lleol yn gweithio i gyfraddau tâl a bennwyd yn lleol ac yn genedlaethol. Nid yw'n briodol i'r Awdurdod Lleol ymyrryd a phennu cyflog o fewn gwasanaethau a gomisiynir yn y sector annibynnol.</p>
<p>Hyd yr arhosiad – mae'r cyfnod y mae pobl yn byw mewn cartrefi gofal yn lleihau ond mae eu hanghenion yn dod yn fwyfwy cymhleth. Mae hyn yn arwain at gostau cynyddol ac mae FfGC yn holi sut y cymerwyd hyn i ystyriaeth yn y pecyn cymorth?</p>	<p>Hoffem archwilio cyfleoedd dros y flwyddyn ariannol nesaf i ddatblygu perthynas â darparwyr cartrefi gofal i gael gwell dealltwriaeth o gostau gwirioneddol a byddwn yn adolygu'r fethodoleg yn unol â hynny.</p>
<p>Eitemau Amrywiol - yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau ble mae'r eitemau canlynol yn ymddangos yn y pecyn cymorth: Cael gwared ar wastraff, gwisgoedd, lliainiau a llestri, deunydd a phapur ysgrifennu, costau moduron a theithio, tanysgrifiadau, marchnata a chostau amrywiol, gwastraff clinigol a masnachol, deunyddiau domestig a</p>	<p>Ymdrinnir â'r rhain yn yr elfen o'r ffi sy'n ymwneud â 'Chostau ychwanegol na wnaed darpariaeth ar eu cyfer mewn manau eraill' Hoffem archwilio cyfleoedd dros y flwyddyn ariannol nesaf i ddatblygu perthynas â darparwyr cartrefi gofal i gael gwell</p>

glanhau, cyflenwadau meddygol (gan gynnwys rhentu offer meddygol)	dealltwriaeth o gostau gwirioneddol a byddwn yn adolygu'r fethodoleg yn unol â hynny
Mae adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd sydd newydd ei gyhoeddi yn dweud nad yw'r system bresennol ar gyfer darparu gofal yn gynaliadwy heb gael arian ychwanegol. Mae'r diffyg wedi arwain at gartrefi gofal yn cynnal eu sefyllfa ariannol trwy godi ffioedd uwch ar y rheini sy'n hunanariannu eu gofal.	Os oes gan unrhyw ddarparwyr dystiolaeth bod y gost yn uwch na'r ffioedd a weithredir yn Ynys Môn fe'u gwahoddir i wneud trefniadau i gwrdd ar sail un-i-un i drafod y rhain mewn ymarfer llyfr agored.
Costau rhedeg yn sylweddol uwch na'r incwm o ffioedd. Er yn gweithredu'n agos i'r capasiti llawn, gwneir colled bob blwyddyn sydd bellach yn gyfanswm o £724,000 dros y cyfnod y bûm yn berchnogion (nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys costau cyllid na phrif swyddfa, nac ychwaith unrhyw elfen ar gyfer elw ar fuddsoddiad cyfalaf). Mae'r cartref wedi cael ei sybsideiddio gan weithrediadau eraill o fewn y Grŵp.	Os oes gan unrhyw ddarparwyr dystiolaeth bod y gost yn uwch na'r ffioedd a weithredir yn Ynys Môn fe'u gwahoddir i wneud trefniadau i gwrdd ar sail un-i-un i drafod y rhain mewn ymarfer llyfr agored.
Ar hyn o bryd mae'r ffi wythnosol sefydlog o dan y CIC (yn cynnwys yr FNC) wedi'i bennu ar £ 748.18 yr wythnos ac mae oddeutu 75% o'r trigolion yn cael eu hariannu gan y CIC. Yn gofyn am gategori arbenigol ar gyfer y grŵp hwn o gleientiaid heriol / cymhleth fel y mae Cyngor Dinas Lerpwl wedi ei wneud (copi o lythyr gan Gyngor Dinas Lerpwl). Croesewid y cyfle i drafod hyn ymhellach.	Mater i'r Bwrdd Iechyd yw hwn a dylid ei gyfeirio i'w sylw felly.
Costau Gofynion Deietegol Arbennig heb eu hystyried yn y pecyn cymorth.	Bydd yr elfen hon yn cael ei hadolygu yn 2019/20.

Draft Fee Calculations 2018/19					
	Fee 2017/18	Indicative Fee 2018/19	Basis of Calculation	Increase per week	Overall % Increase
1. INDIRECT COSTS -standard for all categories of care					
Utilities (electricity, gas, TV, Council Tax, Water, Telephone)	£28.28	£29.13	CPI Sep 2017 = 3%		
Registration (Professional Membership, CRBs etc)	£1.24	£1.28	CPI Sep 2017 = 3%		
Recruitment	£2.40	£2.47	CPI Sep 2017 = 3%		
Contract maintenance of equipment	£3.48	£3.58	CPI Sep 2017 = 3%		
Maintenance of capital equipment	£21.38	£22.02	CPI Sep 2017 = 3%		
Gardener /handyman	£9.30	£9.71	NLW 4.4% increase on 17/18 rate		
Training	£2.39	£2.46	CPI Sep 2017 = 3%		
Non prescription medical supplies	£3.61	£3.72	CPI Sep 2017 = 3%		
Insurance	£6.02	£6.20	CPI Sep 2017 = 3%		
Groceries & household provisions	£27.62	£28.65	CPI Sep 2017 = 3%		
Sub-total Indirect Costs	£105.92	£109.22			
2. OTHER COSTS - standard for all categories of care					
Return on Investment	£97.16	£97.16	10% ROI		
Additional Expenses (not covered elsewhere)	£17.55	£18.08	CPI Sep 2017 = 3%		
Sub-total Other Costs	£114.71	£115.24			
3. STAFF COSTS					
Residential Homes					
Management /Admin	£47.89	£48.85	2% increase		
Senior Care Staff	£114.77	£120.65	10.5 hours x £11.49		
Care Staff	£100.17	£105.21	10.5 hours x £10.02		
Domestic Staff	£43.41	£45.32	NLW 4.4% increase on 17/18 rate		
Sub-total Residential Homes' Staff Costs	£306.24	£320.03			
TOTAL RESIDENTIAL	£526.87	£544.49		£17.63	3.35%
EMI Residential Homes					
Management /Admin	£47.89	£48.85	2% increase		
Senior Care Staff	£125.69	£132.13	11.5 hours x £11.49		
Care Staff	£109.71	£115.23	11.5 hours x £10.02		
Domestic Staff	£43.41	£45.32	NLW 4.4% increase on 17/18 rate		
Sub-total EMI Residential Homes' Staff Costs	£326.70	£341.53			
TOTAL EMI RESIDENTIAL	£547.33	£565.99		£18.66	3.41%
Nursing Homes					
Management /Admin	£47.89	£48.85	2% increase		
Senior Care Staff	£136.63	£143.62	12.5 hours x £11.49		
Care Staff	£119.25	£125.25	12.5 hours x £10.02		
Domestic Staff	£43.41	£45.32			
Sub-total Nursing Homes' Staff Costs	£347.18	£363.04			
TOTAL NURSING	£567.81	£587.50		£19.69	3.47%
EMI Nursing Homes					
Management /Admin	£47.89	£48.85	2% increase		
Senior Care Staff	£153.02	£160.86	14 hours x £11.49		
Care Staff	£133.56	£140.28	14 hours x £10.02		
Domestic Staff	£43.41	£45.32	NLW 4.4% increase on 17/18 rate		
Sub-total Nursing EMI Homes' Staff Costs	£377.88	£395.31	£17.43		
TOTAL EMI NURSING	£598.51	£619.77		£21.26	3.55%

Note: Due to affordability, IoACC have opted for an ROI of 9% for the Residential placements category, with an ROI of 10% for the other 3 categories. This reduces the fee for Residential placements for IoACC by £9.72 to £534.77. This reduces the fee for Residential placements for IoACC by £9.72 to £534.77.

Bases of Calculation:

- National Living Wage estimated to increase from £7.50 to £7.83 (4.4%) in April 2018
Therefore, costs of care staff, gardener/ handyman and domestic staff increased by 4.4%.
- CPI 3% in September 2017 (Bank of England)
- No allowance made for the Apprenticeship Levy in the calculation of pay costs. The levy only applies to businesses with staffing costs in excess of £3m, therefore it would be applied on a case-by-case basis.
- Administration/ management costs increased by 1% in line with public sector pay award.
- The calculation of the return on investment element is based on the same land and building values as 2017/18. It is assumed that the % return on investment will remain at the 2017/18 amount (10%)

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	Y PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	19 CHWEFROR 2018
TESTUN:	DEFNYDDIO ARIAN WRTH GEFN A BALANSAU
DEILIAD/DEILIAID PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH
PENNAETH GWASANAETH:	MARC JONES (EST. 2601)
AWDUR YR ADRODDIAD: FFÔN: E-BOST:	Marc Jones EST. 2601 rmjfi@ynysmon.gov.uk
AELODAU LLEOL:	Dim yn berthnasol
A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau	
1. PWRPAS YR ADRODDIAD	
1.1 Bydd yr adroddiad yn nodi asesiad y Swyddog Adran 151 ar lefel balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn ar gyfer 2018/19 ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â chlustnodi balansau cyffredinol i'w defnyddio yn ystod 2018/19.	
2. ARGYMHELLION	
<ul style="list-style-type: none"> I nodi y polisi cyffredinol ynglŷn â balansau a chronfeydd a fabwysiadwyd ar 1 Mawrth 2016, fel y nodir hynny yn Atodiad A; Pennu isafswm balansau cyffredinol o £6.5m ar gyfer 2018/19 yn unol ag asesiad y Swyddog Adran 151; Cadarnhau parhad y cronfeydd presennol a glustnodwyd. 	
B - Pa opsiynau eraill a ystyriwyd gennych a pham y bu i chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?	
Ni ystyriwyd unrhyw opsiwn arall - nid oedd hynny'n briodol yn yr achos hwn.	
C - Pam mai'r Pwyllgor Gweithredol fydd yn penderfynu ar hyn?	
Mae'r Cyfansoddiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gyflwyno ei gynigion ar y gyllideb terfynol cyn i'r Cyngor ei hystyried.	
CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?	
D/B	
D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?	
D/B	
DD - Gyda phwy y bu i chi ymgynghori?	Beth oedd ganddynt i'w ddweud?
1 Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth Strategol (TAS) (gorfodol)	
2 Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Ddim yn berthnasol - adroddiad gan y Swyddog Adran 151 yw hwn
3 Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Dim sylw
4 Adnoddau Dynol (AD)	
5 Eiddo	
6 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7 Craffu	
8 Aelodau Lleol	
9 Unrhyw gyrff allanol / eraill	

E - Risgiau ac unrhyw liniaru (os yn berthnasol)	
1	Economaidd
2	Gwrthdodi
3	Troseddu ac Anhrefn
4	Amgylcheddol
5	Cydraddoldebau
6	Cytundeb Canlyniadau
7	Arall
F - Atodiadau:	
<p>Atodiad A - Polisi cyffredinol arfaethedig ynglŷn â ChronfeyddWrth Gefn a Balansau Atodiad B – Balansau hyd yma</p>	
FF - Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad i gael rhagor o wybodaeth):	

DDEFNYDDIO BALANSAU CYFFREDINOL A CHRONFEYDD WRTH GEFN

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Mae Adrannau 32 a 43 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn sydd ei angen ar gyfer gwariant a amcangyfrifir yn y dyfodol wrth gyfrifo anghenion y gyllideb. Mae Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Adran 151 adrodd yn ffurfiol ar gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig pan bennir gofynion y gyllideb ac i sicrhau bod yna brotocolau allweddol ar gyfer eu pennu a'u defnyddio.
- 1.2. Bydd yr adroddiad yn nodi asesiad y Swyddog Adran 151 ar lefel balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn ar gyfer 2018/19 ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â chlustnodi balansau cyffredinol i'w defnyddio yn ystod 2018/19.

2. POLISI AR GRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU

- 2.1. Yn ychwanegol at y balansau cyffredinol, mae'r Cyngor yn dal nifer o gronfeydd wrth gefn ar ei fantolen. Pwrpas y cronfeydd wrth gefn hyn yw talu am gost prosiectau a gynllunnir neu ar gyfer ariannu eitemau penodol o wariant pryd bynnag fo angen gwneud hynny.
- 2.2. Mae'r ddogfen a atodir fel Atodiad A yn nodi'r egwyddorion cyffredinol a'r polisi mewn perthynas â phenderfynu ar lefel cronfeydd wrth gefn a balansau digonol a sut y defnyddir cronfeydd wrth gefn.

3. BALANSAU CYFFREDINOL

- 3.1. Ar 31 Mawrth 2017, lefel y balansau cyffredinol oedd £8.355m, sef gostyngiad o £0.531m ers y flwyddyn flaenorol.
- 3.2. Yng nghyllideb 2016/17, crëwyd cronfa o £1m o'r balansau cyffredinol er mwyn ariannu prosiectau unigol ag oedd gyda'r modd i greu arbedion effeithlonrwydd i'r Awdurdod. O'r 29 cais busnes a dderbyniwyd gan adranau, cafodd 9 cais busnes eu cymeradwyo, gwerth £937,800, hyd yn hyn mae'r prosiectau'n mynd ymlaen yn dda ac mae'r balans ar ôl i'w wario yn £900,000 (rhagwelwyd). Mae adroddiad ar sefyllfa bob prosiect yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Gwaith bob Chwarter.
- 3.3. Fel y nodir yn Atodiad A, paragraff 5, bydd angen i'r Swyddog Adran 151 asesu nifer o risgiau wrth benderfynu ar lefel y balansau cyffredinol sydd ei hangen. Ystyrir y risgiau isod:-
 - **Gwasgfeydd Costau yn y Dyfodol** - Wrth i gyllidebau gael eu tocio, mae gallu gwasanaethau unigol i ddefnyddio unrhyw gapasiti wrth gefn o fewn eu cyllidebau presennol er mwyn mynd i'r afael â gwasgfeydd costau annisgwyl yn llawer llai a, phan fo gwasgfeydd costau yn digwydd, y balansau cyffredinol fydd yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r gwasgfeydd yma. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn wynebu gwasgfa ar y gyllideb yn ystod 2017/18, a hynny'n fwyaf amlwg yng Ngwasanaethau Plant ac Addysg. Mae'r setliad gwell na'r disgwyl wedi galluogi'r Cyngor i fynd i'r afael â'r gwasgfeydd costau yma yng nghyllideb 2018/19, fodd bynnag, mae risg y bydd galwadau pellach yn cael eu gwneud ar falansau cyffredinol a bydd adolygiadau aml yn cymryd lle yn ystod y flwyddyn.
 - **Arbedion** - Mae cyllideb 2018/19 yn cynnwys pecyn arbedion o £3.315m. Mae'r arbedion arfaethedig wedi cael eu herio ac arweiniodd hynny at beidio â chynnwys £81k o arbedion arfaethedig yng nghyllideb arfaethedig 2018/19, oherwydd ystyriwyd na ellid eu gwireddu yn ystod 2018/19. Er bod yna risg na fydd yr holl arbedion yn cael eu cyflawni, dylai'r broses herio sydd wedi cael ei chynnal sicrhau bod y risg yn cael ei lleihau ac na fydd unrhyw alwadau dilynol sylweddol ar y balansau cyffredinol.

- **Chwyddiant a Chyfraddau Llog** - Mae cyllideb 2018/19 wedi tybio mai codiad chwyddiant o 2.6% fydd ar draws yr holl dreuliau nad ydynt yn gyflogau. Mae'r Undebau yn ystyried codiad cyflog o 2% ar hyn o bryd i staff sydd ar pwynt cyflog 20 ac uwch ond dyfarniadau uwch i staff ar pwynt 6 – 19, yn amrywio o 9.91% i staff ar pwynt 6, i 3.37% i staff ar pwynt 19. Mae bob chwyddiant cytundebol hysbys wedi ei gynnwys yn y gyllideb ac mae chwyddiant o 3% wedi ei roi ar incwm. Rhagwelir y gallai chwyddiant ostwng o ganlyniad i drafodaethau ynglŷn â Brexit.
- **Incwm** - Mae sicrhau bod cyllidebau incwm yn cael eu gwireddu bob amser yn anodd eu gwarantu, yn arbennig mewn perthynas â gwasanaethau dewisol pan fo cwsmeriaid yn gallu dewis prynu'r gwasanaeth neu beidio. Mae'r broses o bennu cyllideb 2018/19 wedi adolygu tueddiadau incwm real ac mae cyllidebau incwm wedi cael eu hail-alinio pan ystyriwyd y byddai'r gwir incwm yn sylweddol is na'r gyllideb. Ni ellir anwybyddu'r risg na fydd targedau incwm yn cael eu cyrraedd ac y gallai hynny olygu y byddai'r gwariant net yn uwch na'r gyllideb gyffredinol, ac y byddai'r balansau cyffredinol wedyn yn gorfod talu am y diffyg hwnnw.
- **Hanes** - Ers 2011/12, mae'r Cyngor wedi tanwario yn ei gyllideb refeniw net yn ystod 3 o'r 6 mlynedd, a gwelwyd cynnydd o £5.796m yn 2012 i £8.355m yn 2017 yn y balans cyffredinol. Mae hyn yn cadarnhau bod y trefniadau rheoli cyllideb yn gyffredinol gadarn a bod y risg o orwario sylweddol yn erbyn cyllidebau yn isel, er y cydnabyddir bod y risg hon yn cynyddu wrth i gyllidebau gael eu tocio ac yn ystod y flwyddyn ariannol 2017/18 mae'r cyllidebau â arweinig gan y galw, er enghraifft Gwasanethau Plant a lleoliadau Addysg yn gorwario.
- **Sefyllfa Ariannol Gyffredinol y Cyngor** - Mae sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn dda ar hyn o bryd gyda lefel derbyniol o falansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Mae'r rhaglen gyfalaf yn y dyfodol wedi ei hariannu ac mae Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor tua £24m yn is na'r ffin weithredol, ac yn £29m yn is na'r terfyn statudol a ganiateir.

3.4 Nid oes yna reol gadarn mewn perthynas â lefel y balansau cyffredinol y dylai Cyngor ei gynnal, er bod rheol gyffredinol yn bodoli sy'n awgrymu y dylai lefel balansau cyffredinol fod yn 5% o'r gyllideb refeniw net, ac eithrio'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig. Fodd bynnag, oherwydd Balansau Ysgolion sy'n disbyddu, mae'r cyfrifiad ar gyfer lefel 2017/18 yn cynnwys cyllideb ysgolion dirprwyedig. Yn seiliedig ar gyllideb arfaethedig 2018/19, byddai angen i falans y cronfeydd wrth gefn cyffredinol fod tua £6.5m, sy'n cyfateb i'r balans isaf a ragwelwyd am 31 Mawrth 2018. Am fwy o gyngor a gwybodaeth, cyfeiriwch at bapur y Strategaeth Ariannol Tymor Canol a'r Gyllideb am 2018/19.

3.5 Mae dal balansau cyffredinol yn rhoi sicrwydd ariannol i'r Cyngor, ond mae dal balansau heb eu hangen yn arwain at adnoddau ariannol ddim yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Ar ôl asesu'r risgiau ariannol sylfaenol sy'n wynebu'r Cyngor, yr hyblygrwydd cyfyngedig sydd gan ddeiliaid cyllidebau bellach wrth reoli eu cyllidebau a'r angen i ryddhau arian er mwyn gwireddu arbedion effeithlonrwydd y dyfodol, rwy'n asesu y dylid pennu isafswm balansau cyffredinol o £6.5m.

4. CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD

4.1 Mae Cronfeydd wrth gefn a Glustnodwyd yn perthyn i gategoriâu penodol, fel a ganlyn:-

- Cronfeydd wrth gefn Cyfalaf - y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen ar gyfer ariannu'r rhaglen gyfalaf;
- Cronfeydd wrth gefn Cyfyngedig - y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen i dalu am gostau posibl yn y dyfodol, mae'r defnydd ohonynt yn cael ei gyfyngu i bwrpas penodol ac ni ellir eu rhyddhau at unrhyw ddiben arall, arian gaiff eu dal gan y Cleient ar ran trydydd parti

neu gronfa wrth gefn sy'n gysylltiedig â'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig ac na ellir ei hailddyrrannu;

- Cronfa wrth gefn CRT - cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu neilltuo ar gyfer y CRT;
- Cronfa wrth gefn Yswiriant - cronfa wrth gefn sydd ei hangen ar gyfer talu am gost unrhyw golledion anyswiriedig a thaliadau dros ben y polisi fydd i'w talu gan y Cyngor;
- Cronfeydd wrth gefn Dal Grantiau - cronfeydd wrth gefn sy'n dal swm unrhyw grant a dderbyniwyd nad yw wedi cael ei ddefnyddio;
- Cronfeydd a Glustnodwyd - Cronfeydd sydd wedi'u clustnodi i wasanaethau ar gyfer cynnal prosiectau penodol.

4.2 Dangosir balans y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar 31 Mawrth 2017 a'r balans rhagamcanedig ar gyfer 31 Mawrth 2018 ar gyfer pob un o'r categorïau yn Nhabl 1 isod (atodir dadansoddiad llawn o bob categori fel Atodiad B):-

Tabl 1
Crynodeb o Falansau Cronfeydd wrth gefn a Glustnodwyd

Categori'r Gronfa Wrth Gefn	Balans ar 31 Mawrth 2017 £	Newid yn Ystod 2017/18 £	Balans Rhagamcanedig ar gyfer 31 Mawrth 2018 £
Cyfalaf	899,000	101,000	1,000,000
Cyfyngedig	8,659,000	-4,681,615	3,977,385
Tâl Cyfartal	1,060,000	-760,000	300,000
Yswiriant	1,371,000	-121,000	1,250,000
Dal Grantiau	397,000	-365,070	40,930
A Glustnodwyd	971,000	3,040,857	4,011,857
CYFANSWM	13,357,000	-2,776,828	10,580,172

4.3 Mae'r gronfa wrth gefn gyfyngedig yn cynnwys nifer o gronfeydd wrth gefn unigol sylweddol, yn arbennig cronfa Safle Penhesgyn £2m, Cronfa wrth gefn Gwaith Trin Gwastraff Gogledd Cymru £1.05m. Bydd cronfa wrth gefn Gwaith Trin Gwastraff Gogledd Cymru yn cael ei defnyddio yn y dyfodol ac mae'r gwaith wedi ei ddechrau.

4.4 Mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant wedi asesu bod angen £1.25m er mwyn sicrhau bod digon ar gael i dalu am golledion anyswiriedig posibl a thaliadau dros ben.

4.5 Mae Cronfa wrth gefn CRT yn cael ei gwarchod ac ni ellir ei defnyddio ond i ariannu gwariant mewn perthynas â'r CRT. Mae'r Cynllun 30 Mlynedd newydd sydd heb ei awdurdodi eto yn ystyried bydd yr Arian Wrth Gefn wedi cael eu defnyddio'n llawn yn 2017/18, ac y mae'n bosib y bydd rhaid benthyca swm bychan i cyllido tai newydd o fewn y cap dyled awdurdodedig).

5. ARGYMHELLION

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r argymhellion canlynol:-

1. Nodi'r polisi cyffredinol ynglŷn â balansau a chronfeydd wrth gefn fel y nodir hynny yn Atodiad A;
2. Pennu isafswm balansau cyffredinol o £6.5m ar gyfer 2018/19 yn unol ag asesiad y Swyddog Adran 151;
3. Cadarnhau parhad y cronfeydd wrth gefn presennol a glustnodwyd, Atodiad B.

POLISI CYFFREDINOL AR GRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU**1. Pwrpas**

Mae'n ofynnol i Ynys Môn gynnal cronfeydd ariannol digonol er mwy A bodloni anghenion y sefydliad. Pwrpas y polisi hwn yw nodi'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Defnyddio Cronfeydd WRTH GEFNa Balansau er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi i'r Cyngor yr hyblygrwydd sydd ei angen arno, a hefyd er mwyn sicrhau y'u defnyddir i ychwanegu gwerth i'r sefydliad.

2. Cyd-destun Rheoleiddiol

Mae Adrannau 32 a 43 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn sydd ei angen ar gyfer gwariant a amcangyfrifir yn y dyfodol wrth gyfrifo gofynion y gyllideb.

Nid oes yna isafswm cronfeydd wrth gefn penodol y dylai awdurdod ei ddal ac mae Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Adran 151 adrodd yn ffurfiol ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig pan bennir gofynion y gyllideb ac i sicrhau bod yna brotocolau allweddol ar gyfer eu pennu a'u defnyddio.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r fframwaith ar gyfer defnyddio a rheoli cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, yn unol â Chôd Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (CIPFA/LASAAC) ac y cytunir ag ef mewn polisïau cyfrifyddu.

3. Mathau o Gronfeydd Wrth Gefn

Gellir categorio cronfeydd refeniw defnyddiadwy mewn dwy ffordd:-

Cronfeydd cyffredinol wrth gefn ar gyfer lliniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau; a

Chronfeydd wrth gefn a Glustnodwyd sydd, fel arfer, yn cael eu cynyddu er mwyn talu am rwymedigaethau hysbys neu rwymedigaethau a ragwelir.

Fel arfer caiff Cronfeydd wrth gefn Refeniw a Glustnodwyd eu creu a'u dal am un o'r pum prif reswm isod:-

- i. Adnewyddu – er mwyn galluogi gwasanaethau i gynllunio ac ariannu rhaglen effeithiol o adnewyddu cerbydau ac offer a gwaith cynnal a chadw eiddo a gynllunnir. Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn yn fecanweithiau ar gyfer hwyluso gwariant fel y gellir cyflawni rhaglen adnewyddu resymol heb yr angen i amrywio cyllidebau.
- ii. Tanwariant a ddygir ymlaen - mae rhai gwasanaethau yn ymrwymo gwariant i brosiectau, ond heb allu gwario'r gyllideb yn ystod y flwyddyn. Defnyddir y cronfeydd fel mecanwaith i gario'r adnoddau hyn ymlaen.
- iii. Cyfrifon masnachu - mewn rhai achosion, cedwir gwargedion ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.
- iv. Cronfa wrth gefn Yswiriant - er mwyn talu am yr hawliadau sy'n cael eu rhagamcanu yn y dyfodol er mwyn galluogi'r Cyngor i dalu am y taliadau dros ben nad yw'r yswiriant yn atebol amdanynt.
- v. Bydd cronfeyddwrth gefn eraill a glustnodwyd yn cael eu sefydlu o dro i dro er mwyn talu am rwymedigaethau hysbys neu rwymedigaethau a ragamcanir, er enghraifft, pwysau ar alwadau cyllidebau a ragamcanir yn y dyfodol.

Er bod cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cael eu sefydlu at ddiben penodol, mae cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn gronfeydd na chyfyngir ar y defnydd a wneir ohonynt. Gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn o'r fath i liniaru effaith pwysau sylweddol o un flwyddyn i'r llall, i wrthbwysu'r gofynion ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn a lliniaru risgiau digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau.

Hefyd, gellir defnyddio cronfeydd wrth gefncyffredinol er mwyn cefnogi buddsoddiadau a ddyluniwyd i sicrhau mwy o arbedion yn y gyllideb sylfaenol.

4. Rheoli Cronfeydd

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ddal a chynnal cronfeydd wrth gefn, ond mae hefyd yn cydnabod, drwy ddal neu a chynyddu cronfeydd wrth gefn, bod y Cyngor yn clustnodi adnoddau rhag cael eu defnyddio at ddibenion eraill posibl ac, o ganlyniad i hynny, mae yna 'gost cyfle' sy'n gysylltiedig â dal balansau fel cronfeydd wrth gefn. Oherwydd hyn, mae'n bwysig sefydlu fframwaith eglur, a adolygir yn rheolaidd, y gellir ei defnyddio i reoli'r cyfryw gronfeyddwrth gefn.

Mae rheoli cronfeydd ariannol wrth gefn yn elfen allweddol o strategaeth ariannol gyffredinol y Cyngor, ac mae iddi ddau amcan allweddol:-

- Cynnal cyllidebau sefydlog a chynaliadwy drwy gydol y tymor canolig; a
- Sicrhau bodadnoddau yn canolbwyntio'n effeithiol ar flaenoriaethau.

Mae'r gydnabyddiaeth a roddir i'r angen i reoli risg yn tanategu'r broses o wireddu'r amcanion hyn. Gall hyn fod yn fwy o risg o ansefydlogrwydd mewn tybiaethau cynllunio wrth i'r cyfnod economaidd ansicr barhau, neu'r risg i gyllideb Llywodraeth Cymru o ganlyniad i adolygiadau cyllido sylweddol yn y dyfodol. Fodd bynnag, efallai bydd y busnes am gymryd mwy o risgiau busnes drwy fabwysiadu dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau er mwyn cyrraedd targedau anodd mewn perthynas ag arbedion. Po fwyaf y risgiau, y mwyaf yw'r cronfeydd wrth gefn y mae'r Cyngor yn debygol o fod angen dal gafael arnynt er mwyn lliniaru yn erbyn hynny. Mae'n rhaid i werthfawrogi risgiau o'r fath fod yn flaenllaw yn ystyriaethau'r Swyddog Adran 151.

5. Mesur y Cronfeydd Angenrheidiol

Mae pennu lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn un o nifer o benderfyniadau cysylltiedig wrth ffurfio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a'r gyllideb flynyddol. Wrth wneud y penderfyniad hwn mae angen ystyried y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Yn benodol, mae'r CATC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu a chynnal cronfeydd wrth gefn cyffredinol i dalu am y risgiau ariannol allweddol fydd yn ei wynebu.

Bydd angen i'r Swyddog Adran 151 ystyried nifer o ffactorau wrth benderfynu ar union lefelau'r cronfeydd wrth gefn, ac mae nifer ohonynt yn golygu asesu risg y tybiaethau sy'n gynwysedig yn y gyllideb a'r CATC, yn ogystal â sefyllfa ariannol y Cyngor a sut y rheolir ei arian.

Nodir y ffactorau allweddol isod:-

Rhagdybiaethau'r Gyllideb;

Sefyllfa ariannol a rheolaeth ariannol;

Gofynion cyffredinol ar y llif arian, y rhagolwg ar gyfer chwyddiant a chyfraddau llog;

Sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor (lefel y benthyciadau, dyled a.y.y.b.);

Amcangyfrif o lefel ac amseru'r derbyniadau cyfalaf;

Hanes y Cyngor mewn perthynas â rheoli cyllideb a rheolaeth ariannol, yn cynnwys cadernid ei gynlluniau tymor canolig;

Ystod posibl costau gwasanaethau a arweinir gan y galw;

Capasiti'r Cyngor i reoli pwysau ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn;

Arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd / enillion cynhyrchiant;

Cryfder y wybodaeth ariannol a'r trefniadau adrodd;

Y risgiau ariannol sy'n rhan annatod o unrhyw bartneriaethau cyllido newydd sylweddol;

Trefniadau allanol mawr neu ddatblygiadau cyfalaf mawr;

Trosglwyddiad y Cyngor a'r gweithdrefnau diwedd blwyddyn mewn perthynas â than/gorwariant yn y gyllideb;

Argaeledd cronfeydd eraill er mwyn talu am hapddigwyddiadau mawr a digonolrwydd darpariaethau;

Digonolrwydd trefniadau yswiriant y Cyngor er mwyn talu am risgiau anrhagweladwy mawr.

Bydd gwerthusiad gwrthrychol o'r ffactorau yma'n cael ei gynnal bob blwyddyn er mwyn penderfynu ar lefel ddarbodus cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn seiliedig ar asesiad o'r ffactorau uchod. Fodd bynnag, mae lefel derfynol y cronfeydd wrth gefn yn y pen draw yn ddarostyngedig i farn y Swyddog Adran 151, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol.

Fel rhan o'r argymhellion cyllideb blynyddol i'r Cyngor, bydd y Swyddog Adran 151 yn amlygu'r symiau sy'n cael eu neilltuo ar gyfer y cronfeyddwrth gefn .

6. Cynyddu Cronfeydd

Petai'r Swyddog Adran 151 yn ystyried y dylid cynyddu lefel y Cronfeydd wrth gefnCyffredinol, byddai hynny'n cael ei gyflawni fel rhan o'r broses o bennu cyllideb, gan bennu dyraniad o'r gyllideb flynyddol er mwyn cyrraedd lefel y balans a ddymunir. Dylai cyfraniadau i ac o'r Cronfeydd wrth gefn Cyffredinol gael eu hadolygu'n flynyddol. Bydd hyn yn ychwanegol at unrhyw symiau fydd eu hangen i ailgyflenwi'r cronfeydd wrth gefn sydd wedi cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn flaenorol, er mwyn cynnal isafswm lefel y cronfeyddwrth gefn.

Bydd cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cael eu sefydlu yn 'seiliedig ar angen' yn unol â'r gofynion a gynlluniwyd neu a ragdybiwyd, a byddant yn destun cymeradwyaeth Pwyllgor, fel arfer fel rhan o adroddiad blynyddol ar y cronfeydd wrth gefn sy'n rhan o'r adroddiad diwedd blwyddyn.

Yn achos pob cronfawrth gefn, bydd y Cyngor yn diffinio:-

Pwrpas y gronfa wrth gefn;

Sut a phryd y gellir defnyddio'r gronfa wrth gefn;

Gweithdrefnau ar gyfer rheoli'r gronfa wrth gefn;

Proses ac amserlen ar gyfer adolygu'r gronfa wrth gefn er mwyn sicrhau perthnasedd a digonolrwydd parhaus. Fel rheol bydd hyn yn digwydd ar ddiwedd y flwyddyn.

7. Defnyddio'r Cronfeydd Wrth Gefn

Unwaith yn unig y gellir defnyddio'r cronfeydd wrth gefn, ac oherwydd hynny ni ddylid eu defnyddio fel arfer i ariannu gwariant cylchol a gynlluniwyd - er enghraifft ni fyddai'n ddisgwyliedig iddynt gael eu defnyddio i 'falansio'r gyllideb' heblaw o dan amgylchiadau eithriadol.

Pan fo cronfeydd wrth gefnyn cael eu defnyddio i gefnogi cyflawni'r gyllideb yn ystod unrhyw flwyddyn benodol, er enghraifft i leihau effaith amrywiadau cyllidebu neu wasgfeydd yn ystod nifer o flynyddoedd, dylai'r Cyngor sicrhau bod y cronfeydd wrth gefn yn cael eu hailgyflenwi yn ystod y flwyddyn ganlynol os bydd angen.

Pan fo'r Cyngor wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol at ddibenion buddsoddi er mwyn cynhyrchu arbedion, fel rheol byddai'r rhain hefyd yn cael eu had-dalu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ganlynol. Mewn amgylchiadau eithriadol, megis lleihau effeithiau tocio gwasanaethau ar ddefnyddwyr a dinasyddion, byddid yn caniatáu mwy o amser i ailgyflenwi, hyd at uchafswm o bedair blynedd, yn unol â'r cylch cynllunio tymor canolig.

Bydd y defnydd o Gronfeydd wrth gefn Cyffredinol yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Swyddog Adran 151, a'r Pwyllgor Gwaith mewn rhai amgylchiadau. Hefyd, bydd creu cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Swyddog Adran 151, a phan fo'r gymeradwyaeth honno wedi cael ei rhoi, gellir tynnu arian o'r gronfa wrth gefn yn ddarostyngedig i fodloni'r meini prawf.

Mewn amgylchiadau eithriadol, pan fo cronfeydd wrth gefn cyffredinol wedi cael eu gwagio o ganlyniad i bwysau anrhagweladwy ar wariant yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol benodol, byddai'r Cyngor yn gallu tynnu arian o'i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd er mwyn darparu adnoddau tymor byr, ond ni fyddai hynny'n gynaliadwy, a byddai angen adfer y balansau.

Ni fyddai cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd sydd wedi'u defnyddio i dalu am rwymedigaeth benodol yn cael eu hailgyflenwi, ar ôl cyflawni'r diben y'u sefydlwyd ar ei gyfer yn wreiddiol.

8. Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau

Cyfunwyd cronfeydd wrth gefn gwasanaethau unigol i greu un Gronfa wrth gefn Gwasanaeth Gorfforaethol, a nawr ar ddiwedd y flwyddyn gall gwasanaethau unigol gyflwyno cynigion / bidiau ar gyfer defnyddio'r cronfeydd a ddelir yn y Gronfawrth gefn.

Bydd y defnydd o'r Gronfa Gwasanaeth Gorfforaethol hon yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Swyddog Adran 151, y Deilydd Portffolio Cyllid neu'r Pwyllgor Gwaith mewn rhai amgylchiadau. Pan roddir y gymeradwyaeth hon, gellir tynnu arian o'r gronfa.

9. Cronfeydd Wrth Gefn Cyfalaf

Mae'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2017/18 yn defnyddio'r holl gronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn llawn hyd at y lefel lleiafswm. Hyd yma, nid yw derbyniadau cyfalaf gwerthiant asedau strategol disgwyliedig yn y dyfodol wedi cael eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf.

Mae strategaethau rheoli asedau da yn cynnwys ailgyflenwi asedau yn dilyn gwerthiant asedau strategol, fel y bydd yna asedau o werth strategol ar y fantolen ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.

Mae'r derbyniadau cyfalaf a ddaw o werthiant asedau strategol o'r fath yn ffynhonnell werthfawr o arian cyfalaf ond, yn yr un modd, mae angen ail-fuddsoddi cyfran o'r derbyniadau hyn naill ai ar gyfer enillion referniw neu ar gyfer buddsoddi mewn asedau eraill a fydd, gydag amser, yn cynyddu yn eu gwerth ac yn ffurfio rhan o arian cyfalaf blynyddoedd y dyfodol.

Dylid clustnodi cyfran o'r holl dderbyniadau cyfalaf o asedau strategol ar gyfer ei hail-fuddsoddi, naill ai ei buddsoddi er mwyn greu ffynonellau cyllid yn y dyfodol neu er mwyn greu ffrwd o incwm referniw.

Bydd cronfa wrth gefn Buddsoddi Cyfalaf yn cael ei chreu ac, ar ôl derbyn enillion o werthiannau, bydd cyfran yn cael ei ychwanegu i'r gronfa wrth gefn hon. Bydd cynlluniau cyfalaf sydd naill ai yn cynnig ail-fuddsoddi mewn asedau neu ffrydiau incwm referniw yn cael eu hystyried ar gyfer eu hariannu gan y gronfa wrth gefn hon a glustnodwyd, er mwyn ategu cynlluniau'r rhaglen gyfalaf bresennol a ariennir gan gronfeydd derbyniadau cyfalaf cyffredinol.

Yn yr un modd, bydd y cronfeydd cyfalaf a glustnodwyd ar gyfer Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael eu hailgyflenwi gan y derbyniadau cyfalaf a ddaw o werthu'r eiddo a brynwyd. Yna bydd hyn yn sylfaen i gronfa dreigl ar gyfer y gorchmynion prynu gorfodol a roddir.

10. Cronfa Wrth Gefn Yswiriant

Cafodd ffigwr y gronfa wrth gefn yswiriant ei gynyddu'n hanesyddol dros gyfnod o amser er mwyn talu am golledion o dan y polisiâu yswiriant mwy. Bydd lefel y Gronfa wrth gefn Yswiriant yn cael ei hadolygu yn flynyddol o leiaf gan y Rheolwr Risg ac Yswiriant ac yn destun cymeradwyaeth y Swyddog Adran 151.

BALANSAU HYD YMA

ATODIAD B

Cyfadran	Cronfa Wrth Gefn	Categori	Cyfanswm Hyd Yma £	A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2017/18	Yw cais i ddwyn ymlaen i 2018/19 yn debygol?	Cyfanswm a Ragwelir £
Gwasanaethau Plant – Gwasanaeth Lleoli Plant	Buddsoddi i Arbed Gwasanaeth Lleoli Plant	CLUSTNODWYD	£420.00	NAC YDYW	NA	£420.00
Gwasanaethau Cymunedol – Gwasanaethau Tai	Pobl Fregus Corfforaethol	CLUSTNODWYD	570,000.00	NAC YDYW	YDYW – Mae'r balans yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau pobl fregus ac i dalu am y costau gweinyddu.	£375,000.00
Corfforaethol	Cyfraniadau Refeniw na chymhwyswyd	GWARIANT CYFALAF	1,024,671.00	NAC YDYW	YDYW - Cynlluniau prosiet yn pontio mwy nag un blwyddyn ariannol. Balans yn cael ei ddal fel cronfa wrth gefn l ariannu gwariant cyfalaf.	1,000,000.00
Corfforaethol	Prosiect Northgate	CLUSTNODWYD	126,902.00	NAC YDYW	YDYW – Mae cynlluniau'r prosiect yn mynd am fwy naG un blwyddyn ariannol, dyddiad gorffen a ragwelir yw Medi 2018.	75,000.00
Corfforaethol	Cost newid	CLUSTNODWYD	365,699.00	NAC YDYW	YDYW – Prosiectau cost newid ychwanegol sydd angen eu cyllido.	350,000.00
Corfforaethol	Tâl Cyfartal	TÂL CYFARTAL	995,707.00	NAC YDYW	YDYW – mae'n debygol bydd yr ymarferiad yma wedi ei gwblhau yn gynnar yn y flwyddyn 2018/19. Gyda'r amcan cyfredol o £700k yn cael ei roi yn ôl l'r Balansau wrth gefn Cyffredinol.	300,000.00

Cyfadran	Cronfa	Categori	Cyfanswm Hyd Yma	A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17	Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth?	Cyfanswm a Ragwelir
Corfforaethol	Gwario i Arbed	CLUSTNODWYD	£957,740.00	NAC YDYW	YDYW - Cynlluniau prosiet yn pontio mwy nag un blwyddyn ariannol, ac mae'r holl brosiectau ar rannau gwahanol.	£900,000.00
Corfforaethol	Prosiectau a ariennir gan Arian Wrth Gefn Cyfyngedig	CLUSTNODWYD	£14,142.00	NAC YDYW	YDYW - Cynlluniau yn pontio mwy nag un blwyddyn ariannol.	£14,142.00
Corfforaethol - Adnoddau	Datblygu'r System Civica a'r Gweithgareddau ariannol cysylltiedig	CLUSTNODWYD	£20,786.00	NAC YDYW	YDYW - Cynlluniau yn pontio mwy nag un blwyddyn ariannol.	£5,000.00
Corfforaethol - Adnoddau	Cronfa wrth gefn Yswiriant (Trychineb)	CRONFA YSWIRIANT	£1,370,713.00	NAC YDYW	YDYW – ystyrir gan y Rheolwr Yswiriant fod lefel yr arian wrth gefn yn dderbyniol ar gyfer Awdurdod o'n maint.	£1,250,000.00
Busnes y Cyngor – Cyfreithiol	Prynu System Rheoli Achosion Cyfriethiol newydd (rhanbarthol)	CLUSTNODWYD	£30,000.00	YDYW -	NAC YDYW – disgwylir i'r prosiect fod wedi ei chwblhau yn ystod 2017/18	£0
Busnes y Cyngor – Cyfreithiol	System gyfrifiadurol Pridiannau Tir	CLUSTNODWYD	£8,100.00	Gwaith yn parhau, mae'n debygol y bydd y gwariant yn llithro l'r flwyddyn ariannol nesaf.	YDYW – Gall y gwaith bontio blwyddyn ariannol ac mae'r holl brosiectau ar rannau gwahanol.	£8,100.00
Busnes y Cyngor - Polisi	System Rheoli Polisi	CLUSTNODWYD	£32,363.00	NAC YDYW	YDYW – mae'r cynllun hwn yn rhan o brosiect 5 mlynedd.	£32,363.00

Cyfadran	Cronfa	Categori	Cyfanswm Hyd Yma	A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17	Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth?	Cyfanswm a Ragwelir
Busnes y Cyngor - Polisi	Gwe-ddarlledu	GRANT	£500.00	YDYW	NAC YDYW	£500.00
Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Priffyrdd	Cronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfyngedig Priffyrdd – Grant Llifogydd	CYFYNGEDIG	£36,473.00	NAC YDYW	Cynllun ar y cyd hefo Cynghorau Gwynedd a Chonwy yw hwn. Bydd unrhyw danwariant yn cael ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru.	£36,473.00
Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Priffyrdd	Cronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfyngedig Priffyrdd - Grant Llwybr Arfordirol	CYFYNGEDIG	£7,575.00	NAC YDYW	YDYW - dal y cyllid i brintio'r fersiwn nesaf o Canllaw Llwybr Arfordirol Ynys Môn ac amryw bamffledi.	£7,575.00
Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Priffyrdd	Cronfa Grantiau Cyfyngedig Priffyrdd – Incwm Maes Parcio Maes Awyr	CYFYNGEDIG	£6,406.00	NAC YDYW	YDYW - LIC sy'n berchen y cyllid ac fe'i ddefnyddir ar gyfer amryw weithfeydd ym Maes Awyr Môn.	£6,406.00
Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Priffyrdd	Gwaith Cynnal a Chadw y Gaeaf	CLUSTNODWYD	£33,478.00	NAC YDYW	YDYW – Mae'r arian wrth gefn yma i'w ddefnyddio mewn cyfnodau o dywydd garw	£33,478.00
Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Rheoli Gwastraff	Safle Penhesgyn	CYFYNGEDIG	£2,000,000.00	NAC YDYW	YDYW – Fe ysytyrir fod yr arian wrth gefn yma yn dderbyniol i'w gadw rhag ofn bydd ceuffos yn cwmpo o dan Tip Penhesgyn neu os bydd NRW yn newid eu polisi.	£2,000,000.00
Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Rheoli Gwastraff	Gwario i Arbed – Toiledau Cyhoeddus	CLUSTNODWYD	£10,406.00	NAC YDYW	YDYW – gwaith yn parhau ond posiblwydd o lithriant i'r flwyddyn ganlynol.	£10,000.00

Cyfadran	Cronfa	Categori	Cyfanswm Hyd Yma	A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17	Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth?	Cyfanswm a Ragwelir
Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Rheoli Gwastraff	Cronfa Wrth Gefn Gwastraff/Ailgylchu	GRANT	£10,001.00	NAC YDYW	NAC YDYW	£0.00
Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Rheoli Gwastraff	Gwaith Trîn Gogledd Orllewin Cymru	CYFYNGEDIG	£1,206,156.00	NAC YDYW	YDYW - bydd gwario sylweddol yn ystod y 3 mlynedd nesaf wrth i'r gwaith trin newydd gael ei adeiladu.	£1,050,000.00
Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Rheoli Gwastraff	Incwm Proses Ailgylchu	CYFYNGEDIG	£389,372.00	NAC YDYW	YDYW – Arian wrth gefn yw hwn i helpu gyda'r gostyngiad yn y Grant Amgylchedd Sengl (GAS) -	£389,372.00
Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Priffyrdd	Maes Awyr Priffyrdd	CYFYNGEDIG	£93,990.00	NAC YDYW	YDYW - LIC sy berchen y cyllid ac fe'i ddefnyddir ar gyfer amryw weithfeydd ym Maes Awyr Môn.	£93,990.00
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Eiddo	Rhesymoli Rheoli Asedau	CLUSTNODWYD	£56,796.00	NAC YDYW	YDYW – Gwaith fel arfer yn pontio mwy nag un blwyddyn ariannol.	£30,000.00
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Eiddo	Ad-dalu Sir y Flint – llwybrau bus	CYFYNGEDIG	54,480.00	YDYW	NAC YDYW	0.00
Tai	Darpariaeth Digartrefedd	CLUSTNODWYD	£87,950.00	NAC YDYW	YDYW – Prosiect sy'n pontio mwy nag un blwyddyn ariannol.	£50,000.00

Cyfadran	Cronfa	Categori	Cyfanswm Hyd Yma	A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17	Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth?	Cyfanswm a Ragwelir
Tai	Gwelliannau Tenant Landlord	CLUSTNODWYD	£5,000.00	NAC YDYW	YDYW – Prosiect sy'n pontio mwy nag un blwyddyn ariannol.	£5,000.00
Tai	Tai Fforddiadwy	CLUSTNODWYD	£99,000.00	NAC YDYW	YDYW – Cynlluniau'n pontio mwy nag un blwyddyn ariannol.	£99,000.00
Tai	Rheoli Tai	CLUSTNODWYD	£56,300.00	NAC YDYW	Dwyn ymlaen beth bynnag sydd heb ei wario gan fod prosiectau'n pontio mwy nag un blwyddyn ariannol.	£50,000.00
Tai	Cefnogi Pobl	CLUSTNODWYD	£734,010.00	NAC YDYW	YDYW – Cynlluniau'n pontio mwy nag un blwyddyn ariannol.	£610,000.00
Dysgu – Addysg	Cronfa Dyddiau Ysgol	CYFYNGEDIG	-£66,860.00	Mae'n rhaid dwyn rhain ymlaen gan fe'y dirprwywyd i ysgolion.	YDYW – y balans llawn. Cronfa ddirprwyedig i'r holl ysgolion yw hwn ac fe'i ddefnyddir i wneud iawn am amrywiadau rhwng y flwyddyn ysgol yn ddibynnol ar pryd mae Pasg yn disgyn o fewn y calendr. Mae'r gronfa mewn diffyg ac ni ddefnyddir i wneud iawn am ddiwrnodau ychwanegol, ond bydd yn cael ei ychwanegu at y blynyddoedd pan mae diwrnodau ysgol yn gostwng, hyd nes fydd y gronfa'n cael ei chlirio, yn dilyn hynny ni fydd angen cronfa wrth gefn rhagor. Bydd y balans diffyg yn parhau tu hwnt i 2017/18.	£66,130.00

Cyfadran	Cronfa	Categori	Cyfanswm Hyd Yma	A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17	Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth?	Cyfanswm a Ragwelir
Dysgu - Addysg	Cynllun Salwch/Hysbysebu – Cynradd	CYFYNGEDIG	£48,272.00	Anhysbys. Mae'n rhaid dwyn rhain ymlaen gan fe'y dirprwywyd i ysgolion.	YDYW – y balans llawn - cyllideb ddirprwyedig yw hwn.	£48,272.00
Dysgu – Addysg	Rhesymoli Ysgolion	CYFYNGEDIG	£465,941.00	NAC YDYW	YDYW – y balans llawn - cyllideb ddirprwyedig yw hwn.	£60,000.00
Dysgu Gydol Oes - Diwylliant	Estyn Allan y Gogledd	CLUSTNODWYD	£2,643.00	Bydd angen dwyn hwn ymlaen gan ei fod wedi ei ddyrannu ar gyfer gweithgareddau penodol wedi eu hamserlennu.	YDYW	£2,643.11
Dysgu Gydol Oes - Diwylliant	Cronfa Prynu'r Amgueddfa	CYFYNGEDIG	£19,167.00	Hwn yw arian a godwyd drwy gyfraniadau i'r Oriel a ni ellir ei ddefnyddio tuag at unrhyw bwrpas arall.	YDYW – y balans llawn. Cyllid wedi ei amgáu yw hwn o roddion a ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw bwrpas arall.	£19,167.00
Dysgu Gydol Oes – Addysg	Buddsoddi i Arbed – system talu ar-lein awtomotaidd i ysgolion ar gyfer taliadau am brydau	CLUSTNODWYD	£25,542.00	Bydd unai'n cael ei wario'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol yma neu, os ddim, bydd yn cael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn academiaidd.	YDYW - Bydd angen dwyn ymlaen unrhyw gyllideb sy'n weddill, hyd at ddiwedd y flwyddyn academiaidd.	£25,542.00

Cyfadran	Cronfa	Categori	Cyfanswm Hyd Yma	A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17	Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth?	Cyfanswm a Ragwelir
Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	Cronfa Trwydded	CLUSTNODWYD	£23,000.00	NAC YDYW	£23,000 – cronfa wrth gefn wedi ei chlustnodi i brosiect TG sydd i ddigwydd yn 2017/18 a 2018/19. Mae angen i Warchod y Cyhoedd foderneiddio a diweddarau eu cronfa ddata er mwyn mabwysiadu'n llawn athroniaeth Gweithio'n Gallach. Bydd angen adnoddau ychwanegol i uwchraddio neu newid y gronfa ddata bresennol ac, er fod rhywfaint o gyllid wedi cael ei ddarparu, clustnodwyd y gronfa wrth gefn yma yn flaenorol i uwchraddio cronfa ddata Drwyddedu a bydd yr uwchraddio arfaethedig newydd yma'n helpu cyflawni'r diben gwreiddiol	£23,000.00
Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	Cynllun Datblygu Lleol	CLUSTNODWYD	£168,700.00	NAC YDYW	YDYW – Yn dilyn adolygiad ffurfiol o'r trefniadau gweithio mae'r 2 Awdurdod wedi cytuno i'r JPPU gario 'mlaen am 5 mlynedd arall. Bydd angen yr arian wrth gefn yma hyd nes diwedd y cytundeb.	£168,700
Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	Cronfa Prynu Gyda Hyder	CLUSTNODWYD	£3,147.00	Nid cronfa wrth gefn yw hwn, mae'n gyfrif ar wahân a grëwyd i ddelio â materion Prynu Gyda Hyder. Mae angen ei gadw gan y Swyddogaeth Gwarchod y Cyhoedd.	Bydd angen dwyn ymlaen y mwyafrif o'r gronfa wrth gefn i'r flwyddyn ariannol 2018/19. Mae ei angen ar gyfer gwaith parhaus.	£3,147.00

Cyfadran	Cronfa	Categori	Cyfanswm Hyd Yma	A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17	Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth?	Cyfanswm a Ragwelir
Rheoleiddio - Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	Costal Cyfreithiol Cynllunio	CLUSTNODWYD	£22,375.00	NAC YDYW	YDYW – Mae'r achos cyfreithiol yn parhau, a felly, bydd angen y gronfa wrth gefn tan y cwblheir y mater.	£22,375.00
Rheoleiddio - Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	Cynllunio	CLUSTNODWYD	£25,000.00	Defnyddir y gronfa wrth gefn yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag, gall rhywfaint o wariant ddisgyn i'r flwyddyn ariannol nesaf.	YDYW – Defnyddir y gronfa wrth gefn yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag, gall rhywfaint o wariant ddisgyn i 2018/19.	£25,000.00
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Economaidd	Cronfa Prosiectau'r UE	CLUSTNODWYD	£50,000.00	NAC YDYW	YDYW – bydd angen dwyn ymlaen y swm gyfan (£50,000) i'r flwyddyn ariannol 2018/19. Mae wedi ei ddyrannu fel darpariaeth rhag ofn bydd Archwiliad Prosiectau Ewropeaidd, a allai ddigwydd rhwng rwan a 2024.	£50,000.00
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Economaidd	Datblygiadau Mawr	CLUSTNODWYD	£233,362.00	NAC YDYW	YDYW – bydd angen cadw'r swm gyfan. Dyranwyd y gronfa wrth gefn eisoes i'r broses Caniatadau DCO.	£233,362.00
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Economaidd	Cronfa Wrth Gefn Datblygu Economaidd - Ynys Ynni	CLUSTNODWYD	£47,896.00	NAC YDYW	YDYW – bydd unrhyw arian dros ben yn cael ei gario 'mlaen i'r flwyddyn ariannol 2018/19.	£47,896.00
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Economaidd	Parc Morglawdd Caergybi	CLUSTNODWYD	£20,000	NAC YDYW	YDYW – Prosiect yn parhau	£2,950.00

Cyfadran	Cronfa	Categori	Cyfanswm Hyd Yma	A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17	Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth?	Cyfanswm a Ragwelir
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Economaidd	Cronfa wrth gefn Cyfyngedig Datblygu Economaidd	CLUSTNODWYD	£37,116.00	NAC YDYW	YDYW – bydd angen dwyn ymlaen y gronfa wrth gefn gyfan (£37,115.78) i'r flwyddyn ariannol 2018/19. Mae wedi ei ddyrannu fel darpariaeth rhag ofn bydd Archwiliad SETS, a allai ddigwydd rhwng rwan a 2024.	£37,116.00
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd - Economaidd	Datblygiadau Mawr	CLUSTNODWYD	£240,849.00	NAC YDYW	YDYW – Bydd angen cadw'r swm i gyd. Mae'r arian wrth gefn eisoes wedi ei glustnodi ar gyfer gwaith caniatadau DCO.	£590,849.00
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Hamdden	Cynllun Cynnal a Chadw Canolfan Hamdden	CLUSTNODWYD	£2,941.00	Defnyddir tuag at atgyweiriadau a cynnal a chadw y safleoedd treftadaeth amgueddfeydd ac Orielau. Mae'n debygol y'i defnyddir yn llawn cyn diwedd y flwyddyn ariannol.	Dwyn ymlaen unrhywbeth sydd heb ei wario gan fod prosiectau'n pontio mwy nag un flwyddyn ariannol.	£0.00
Adnoddau – Refeniw a Budd-daliadau	Refeniw a Budd-daliadau	CLUSTNODWYD	£42,936.00	Nac Ydyw – Gwaith wedi dechrau â bydd peth gwariant, fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o'r gwariant yn 2017/18	YDYW – bydd y prosiect yn parhau am fwy nag un blwyddyn ariannol, fodd bynnag, mae'r brosiect wedi cychwyn	£42,936.00
Adnoddau – Refeniw a Budd-daliadau	Refeniw a Budd-daliadau Staff	CLUSTNODWYD	£27,000.00	NAC YDYW	YDYW – bydd gwaith yn parhau am fwy nag un blwyddyn ariannol	£27,000.00
Gwas. Cym. – Gwasanaethau Oedolion – Iechyd Meddwl	Cronfa Adran 117	CYFYNGEDIG	£150,000.00	Nac Ydyw	YDYW – ond mae risg o hawliadau posib o dan adolygiadl	£150,000.00

Cyfadran	Cronfa	Categori	Cyfanswm Hyd Yma	A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17	Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth?	Cyfanswm a Ragwelir
Gwas. Cym. – Gwasanaethau Oedolion a Phlant	Trawsnewid	CLUSTNODWYD	£105,498.00	Nac Ydyw	Mae hon yn brosiect sy'n mynd rhagddi a bydd yn pontio mwy nag un flwyddyn ariannol	£61,838.00
Trawsnewid – AD	Camddefnyddio Sylweddau Cymdeithasol	CLUSTNODWYD	£50,000.00	Nac Ydyw	Cysylltiedig I Gyllido Grant	£50,000.00
Trawsnewid – AD	SCWDP	GRANT	£40,430.00	Nac Ydyw	YDYW – Y gwerth cyfan.	£40,430.00
Trawsnewid – TGCh	Costau Trosi PSBA	CLUSTNODWYD	£982,00	Ydyw	NAC YDYW –	0.00
Cyfanswm			£12,191,073.00			£10,580,172.11

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	19 CHWEFROR 2018
PWNC:	Y GYLLIDEB AR GYFER 2018/19 A'R STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL
AELOD(AU) PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD J GRIFFITH
PENNAETH GWASANAETH:	MARC JONES
AWDUR YR ADRODDIAD:	MARC JONES
FFÔN:	01248 752601
E-BOST:	rmifi@ynysmon.gov.uk
AELODAU LLEOL:	d/b
A - Argymhelliad / argymhellion a rheswm / rhesymau	
1 Y STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL A CHYLLIDEB REFENIW 2018/19	
1.1 Pwrpas	
<p>Mae gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar nifer o faterion allweddol mewn perthynas â chyllideb 2018/19. Bydd hyn wedyn yn golygu y gellir cyflwyno'r argymhellion terfynol i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror, 2018. Y materion y mae angen cytuno arnynt yw: -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyllideb Refeniw'r Cyngor a'r Dreth Gyngor ar gyfer 2018/19 yn sgil hynny; • Strategaeth Ariannol ddiweddaedig y Cyngor ar gyfer y Tymor Canol; • Defnydd o arian unwaith ac am byth i gefnogi'r gyllideb. 	
1.2 Crynodeb	
<p>Mae'r adroddiad hwn yn dangos y cynigion manwl ar gyfer y gyllideb refeniw y mae angen eu hadolygu a'u cytuno'n derfynol ar gyfer 2018/19 a'u heffaith wedyn ar gyllideb refeniw Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'r rhain yn faterion i'r Cyngor gytuno arnynt a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gyflwyno ei argymhellion terfynol i'r corff hwnnw.</p> <p>Mae'r adroddiad hefyd yn diweddarau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol sy'n darparu cyd-destun ar gyfer gwaith ar gyllidebau'r Cyngor yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd adroddiad pellach ar Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan fydd gwybodaeth bellach am yr economi a'r setliad arfaethedig i lywodraeth leol yn y dyfodol yn eglurach efallai.</p>	
2. ARGYMHELLION YNGHYLCH Y GYLLIDEB REFENIW A'R DRETH GYNGOR AR GYFER 2018/19	
Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith: -	
<ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol ar y gyllideb ac ystyried yr adborth a gafwyd yn eu sgil ac fel yr amlinellir yn Adran 2, Atodiad 1 ac yn Atodiad 2; • Nodi'r crynodeb yn Adran 11 ac Atodiad 5 ar oblygiadau'r cynigion cyllidebol o safbwynt cydraddoldebau; 	

- Cytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor gan gynnwys y cyllid diwygiedig mewn ymateb i'r pwysau ar y gyllideb a'r arbedion arfaethedig fel y dangosir nhw yn Adran 10 Atodiad 1 ac Atodiad 3;
- I benderfynu sut mae'r arbedion ar gyllidebau ysgolion dirprwyedig, a ohirwyd o 2017/18, yn cael ei ddyrannu ar draws y 3 sector;
- Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 bod o leiaf £6.5m yn cael ei gadw ym malansau'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer 2018/19;
- Nodi'r sylwadau a wnaed gan y Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon a wnaed fel y cânt eu hamlinellu yn Adran 8, Atodiad 1;
- Argymhell cyllideb net ar gyfer y Cyngor Sir a'r cynnydd yn lefel y Dreth Gyngor o ganlyniad, gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol yn cynnwys y Praeseptau i Heddlu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Cymuned, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 28 Chwefror, 2018;
- Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau a all fod yn angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor;
- Cytuno fod unrhyw gyllidebau a arweinir gan y galw ac y bydd pwysau annisgwyl arnynt yn ystod y flwyddyn ariannol yn gallu tynnu ar gyllid o'r cyllidebau hapddigwyddiadau cyffredinol;
- Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os bydd y gyllideb hapddigwyddiadau gyffredinol wedi'i hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn;
- Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 y pŵer i ryddhau hyd at £50k o'r gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol ar gyfer unrhyw un eitem. Ni chaniateir cymeradwyo unrhyw eitem dros £50k heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Pwyllgor Gwaith;
- Argymhell cynnydd o 4.8% yn y Dreth Gyngor i'r Cyngor.

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyriwyd nifer o opsiynau yn dilyn rhyddhau'r cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb. Mae'r cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb yn cymryd i ystyriaeth y setliad terfynol i lywodraeth leol, y sylwadau a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori a barn y Pwyllgor Sgriwtini.

C - Pam fod y penderfyniad hwn yn un i'r Pwyllgor Gwaith?

Yn unol â'r Cyfansoddiad, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi ei gynnig terfynol ar gyfer y gyllideb cyn iddo gael ei ystyried gan y Cyngor.

CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

D/B

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

D/B

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu ylwadau?	
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) Mae'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi bod yn rhan o'r broses o osod y gyllideb ar ei hyd ac maent yn cytuno gyda'r adroddiad ac yn cefnogi'r cynnig terfynol ar gyfer y gyllideb
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol) D/B - y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA ac, o'r herwydd, mae sylwadau'r swyddog wedi cael eu cymryd i ystyriaeth
4	Adnoddau Dynol (AD)
5	Eiddo
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)
7	Sgriwtini Ystyriwyd y cynigion terfynol gan y Pwyllgor Sgriwtini yn ei gyfarfod ar 5 Chwefror 2018. Caiff diweddariad ei ddarparu mewn adroddiad ar wahân yn paragraff 9 o Atodiad 1.
8	Aelodau lleol
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill
E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)	
1	Economaidd
2	Gwrth-dlodi
3	Trosedd ac Anhrefn
4	Amgylcheddol
5	Cydraddoldebau Gweler Adran 11 yn Atodiad 1 ac Atodiad 5.
6	Cytundebau Canlyniad
7	Arall
F - Atodiadau:	
Atodiad 1 – Adroddiad manwl ar y Cynigion ar gyfer y Gyllideb Atodiad 2 – Crynodeb o Ganlyniadau'r Broses Ymgynghori Atodiad 3(a) a (b) - Dadansoddiad o'r Arbedion Arfaethedig Atodiad 4 – Crynodeb o'r Gyllideb Refeniw Arfaethedig ar gyfer 2017/18 fesul Gwasanaeth Atodiad 5 – Aseidiadau Unigol o'r Effaith ar Gydraddoldebau (EIA1 – EIA10)	
FF - Papurau cefndir (cysylltwch â'r awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):	

1. CYFLWYNIAD A CEFNDIR

- 1.1 Mae'r adroddiad canlynol yn nodi'r cynigion ar gyfer cyllideb referniw 2018/19 ac mae'n un o gyfres o adroddiadau sy'n rhoi darlun cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor ac sy'n sicrhau bod arian y Cyngor yn cael ei ddyrannu i gwrdd â'i flaenoriaethau. Mae'r adroddiadau eraill yn y gyfres yn ymwneud â Rhaglen Gyfalaf y Cyngor, Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, Ffioedd a Thaliadau a Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor.
- 1.2 Gyrrir y gyllideb referniw a'r angen parhaus i ddod o hyd i arbedion referniw gan y Strategaeth Ariannol Tymor Canol fel y cymeradwywyd hi gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2017 a gellir ei chrynhof fel a glynir: -

Tabl 1
Cynllun Ariannol Tymor Canol 2018/19 i 2020/21

	2018/19 £ 'm	2019/20 £ 'm	2020/21 £ 'm
Cyllideb Referniw Net a ddygwyd ymlaen	126.16	125.64	125.77
Pwysau ar y Gyllideb a chwyddiant	3.66	2.64	2.99
Cyllideb Ddiwygiedig	129.82	128.28	128.76
Cyllid Allanol Cyfun (AEF)	90.80	89.53	89.08
Y Dreth Gyngor	34.84	36.24	37.69
Cyfanswm Cyllid	125.64	125.77	126.77
Yr Arbedion y mae angen eu gwneud	4.18	2.51	1.99
Prif Dybiaethau			
Dyfarniadau Tâl	1.5%	1.5%	2.0%
Chwyddiant Cyffredinol	2.6%	2.4%	2.2%
Lleihad yn yr AEF	-2.0%	-1.4%	-0.5%
Cynnydd yn y Dreth Gyngor	4.0%	4.0%	4.0%

- 1.3. Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith ei gynigion cyllidebol cychwynnol yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd 2017 a chymeradwyodd Gyllideb Ddisymyd gychwynnol o £132.337m ac, yn seiliedig ar y setliad dros dro a chynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor, nodwyd bwlch cyllidebol o £1.99m. 'Roedd y cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor yn cynnwys cynnydd o 1% a fyddai'n cael ei neilltuo'n benodol ac yn unig ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Byddai'r cynnydd hwn o 1% yn y Dreth Gyngor yn destun ymghynghoriad, ac, os na fyddai'n cael ei weithredu, byddai gostyngiad cyfatebol yn y gyllideb ddisymyd. Nododd y cynigion drafft arbedion referniw posib o £3.296m.

2 YMGYNGHORIAD Y CYNGOR

- 2.1 Cyhoeddodd y Cyngor ei gynigion ar gyfer y gyllideb ar 7 Tachwedd 2017 a daeth y cyfnod ymgyngori i ben ar 29 Rhagfyr 2017. Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid, rhanddeiliaid a staff ymateb i'r ymgyngoriad trwy wahanol ddulliau gan gynnwys: -

- Cyfryngau cymdeithasol
- Ymateb trwy wefan y Cyngor
- Ymateb yn uniongyrchol trwy lythyr neu e-bost

2.2 Yn ogystal, fe gynhaliodd y Cyngor : -

- Grwpiau ffocws ar gyfer pobl dan 25 oed
- Fforwm Pobl Hŷn
- Sesiwn gyda Phenaethiaid ac Uwch Reolwyr Ysgolion
- Fforwm Cyngorau Tref a Chymuned
- Fforwm Partneriaeth (Yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, Iechyd, Fforymau Cyngorau Tref a Chymunedol, y Trydydd Sector).

2.3. Mae canlyniadau'r broses ymgynghori ynghlwm yn Atodiad 2.

3 Y GYLLIDEB DDISYMYD DDIWYGIEDIG AR GYFER 2018/19 A'R BWLCH YN Y GYLLIDEB

3.1 Ers cwblhau'r cynigion cyllidebol cychwynnol, gwnaed rhagor o waith i adolygu a diwygio'r gyllideb ddigifnewid ar gyfer 2018/19. Mae hyn wedi arwain at nifer o newidiadau a nodir yn Nhabl 2 isod:-

Tabl 2
Addasiadau i'r Gyllideb Ddisymyd

	£ 'm	£ 'm
Y Gyllideb Ddisymyd ar 6 Tachwedd 2017		132.337
Dileu cyllid ychwanegol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i'w ariannu trwy gynnydd o 1% yn y Dreth Gyngor	(0.338)	
Ardoll Gwasanaeth Tân - cynnydd wedi'i osod ar 1%	(0.018)	
Cywiro cyllideb staffio TGCh	0.021	
Lleihad yn y Grant Gweinyddu Budd-dal Tai	0.022	
Colli Tâl a godir ar yr Ymddiriedolaeth Elusenol	0.016	
Cywiro Cyllideb Staffio'r Swyddogaeth Adnoddau	(0.034)	
Cywiro cyllidebau Trethi Annomestig - cadarnhawyd lluosydd 2018/19 erbyn hyn	(0.014)	
Cywiro tybiaethau Chwyddiant ar gyllidebau penodol	0.020	
Arian ychwanegol ar gyfer y cynnig tâl uwchlaw'r 2% y caniateir ar ei gyfer yn y gyllideb ddisymyd	0.485	
Cywiro Cyllidebau Grant i adlewyrchu'r cynnig tâl uwch	0.015	
Arian ychwanegol yn y setliad i wneud iawn am golli incwm yn dilyn y cynnydd yn y trothwy cynilion i gleientiaid mewn gofal preswyl / nyrso	0.173	
		0.348
Cyllideb Ddisymyd Diwygiedig ar 19 Chwefror 2018		132.685

- 3.2.** Mae'r newid mwyaf arwyddocaol sydd wedi codi ers i'r cynigion cychwynnol gael sylw yn ymwneud â'r cynnig cyflog i staff CGC (staff nad ydynt yn staff dysgu). Yn y gyllideb ddisymyd gychwynnol, gwnaed darpariaeth o 1% mewn cyllidebau gwasanaeth i ariannu'r dyfarniad tâl ynghyd â 1% ychwanegol wrth gefn (£450k) oherwydd rhagwelwyd y byddai'r cynnig cyflog yn uwch na 1%. Mae'r Cyflogwyr bellach wedi cyhoeddi eu cynnig cyflog i'r Undebau, sy'n cynnwys cynnydd o 2% ar gyfer pob aelod o staff ar bwynt cyflog 20 ac uwch ond dyfarniadau cyflog uwch ar gyfer staff ar bwyntiau 6 - 19, yn amrywio o 9.19% i staff ar bwynt 6 i 3.73 % ar gyfer staff ar bwynt 19. Mae'r dyfarniadau cyflog uwch ar gyfer y staff ar y graddfeydd cyflog is yn cymryd y cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol i ystyriaeth a'r angen i sicrhau'r gwahaniaethau cyflog rhwng y graddfeydd cyflog. Amcangyfrifodd y Cyflogwyr y byddai cynnydd o 2.7% yn y costau tâl cyffredinol.
- 3.3.** Mae gwir gost y cynnig tâl bellach wedi'i fodelu i mewn i'r cyllidebau staffio ac mae hyn yn cynyddu'r costau tâl £485k yn fwy na'r 1% a ganiatawyd ar ei gyfer yn y cyllidebau gwasanaeth a'r 1% yn y gyllideb wrth gefn. Ar gyfer Ynys Môn, cyfanswm y cynnydd yn y cyllidebau tâl o ganlyniad i'r cynnig cyflog yw 3.08%. Dylid nodi bod y dyfarniad tâl ar gyfer Dysgu yn rhedeg o fis Medi i fis Medi bob blwyddyn ac nid oes gennym unrhyw arwydd hyd yma o ran beth fydd lefel y dyfarniad cyflog. Mae £150k yn parhau fel cyllideb hapddigwyddiadau i ariannu'r gost uwchlaw'r 1% y gwnaed darpariaeth ar ei gyfer yng nghyllideb y Gwasanaeth.
- 3.4.** Cyhoeddwyd y ffigyrau setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr 2017. Ar draws Cymru, bu cynnydd o £38.884m yn yr Aseiad Gwario Safonol ond bu cynnydd o £10.10m hefyd yn y Dreth Gyngor a ragwelir. O ganlyniad, bu cynnydd o £28.784m yn yr AEF cyffredinol i Gymru o gymharu â'r ffigwr yn setliad dros dro ac mae hyn, yn ei dro, wedi newid Cyllid Allanol Cyfun y Cyngor, gyda'r ffigwr terfynol yn £95.812m, sef cynnydd o £0.888m o gymharu â'r ffigwr dros dro.
- 3.5.** Mae'r Cyngor wedi penderfynu gosod premiwm o 25% ar gartrefi a ddynodwyd fel rhai gwag (y tu hwnt i'r cyfnod eithriad) ac ar gartrefi a ddynodwyd fel ail gartrefi'r rheini sy'n talu'r Dreth Gyngor. Byddai'r premiwm hwn, ynghyd â chynnydd o 4% yn y Dreth Gyngor, yn cynhyrchu £34.867m. Felly, byddai cyfanswm incwm y Cyngor yn £130.679m, sef diffyg o £2.009m.

Er mwyn pontio'r bwlch cyllido trwy'r Dreth Gyngor yn unig byddai angen cynnydd o 10.0% yn y Dreth y Cyngor.

4. ARBEDION CYLLIDEB REFENIW

- 4.1** Yn y cynigion cyllidebol cychwynnol, nodwyd cyfanswm o £3.296m o arbedion referniw ac ymgynghorwyd yn eu cylch. Mae'r Tîm Cyfrifeg a'r Rheolwyr Gwasanaeth wedi cynnal adolygiad pellach o'r cynigion arbedion unigol. Nododd yr adolygiad y byddai modd gweithredu'r holl gynigion yn ystod 2018/19 er na fydd rhai'n cael eu cyflawni erbyn Ebrill 2018. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o £78k yn yr arbedion cyffredinol posib.
- 4.2.** Cyfanswm y cynigion arbedion terfynol a gyflwynwyd yw £3.318m. Dangosir crynodeb fesul gwasanaeth yn Nhabl 3 isod a gwelir crynodeb yn ôl categori yn Nhabl 4.

Tabl 3
Crynodeb o'r Cynigion Arbedion fesul Gwasanaeth

Gwasanaeth	Cynnig Cychwynnol £ '000	Cynnig Diwygiedig £ '000	Gwahaniaeth £ '000
Oedolion	450	450	0
Plant	0	0	0
Tai	23	23	0
Addysg - Canolog	336	325	-11
Addysg – cyllidebau a ddirprwywyd i Ysgolion	663	663	0
Diwylliant	65	63	-2
Rheoleiddio ac Economaidd	125	125	0
Priffyrdd a Thrafnidiaeth	200	196	-4
Eiddo	140	140	0
Gwastraff	30	30	0
Busnes y Cyngor	0	0	0
Trawsnewid	44	40	-4
Adnoddau	24	24	0
Corfforaethol	296	236	-60
Cyllido Cyfalaf	1,000	1,000	0
Cyfanswm	3,396	3,315	-81

Tabl 4
Cynigion Arbedion yn ôl Categori

Categori Arbedion	Cynnig Cychwynnol £ '000	Cynnig Diwygiedig £ '000	Gwahaniaeth £ '000
Rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaeth / trosglwyddo gwasanaeth	51	47	-4
Dileu swyddi gwag / swyddi nad oes eu hangen	305	271	-34
Ailstrwythuro Staff	137	111	-26
Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol	317	287	-30
Arbedion Caffael	150	150	0
Gostyngiad mewn Cyllidebau Ysgol	663	663	0
Lleihau Grantiau	20	20	0
Cynhyrchu Incwm	142	164	22
Trawsnewid Gwasanaeth	611	602	-9
Lleihad mewn Costau Cyllido Cyfalaf	1,000	1,000	0
Cyfanswm	3,396	3,315	-81

- 4.3. Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys arian wrth gefn o £300k a fydd yn cwrdd ag unrhyw gostau diswyddo sy'n deillio o ailstrwythuro strwythurau staffio neu ostyngiadau yn nifer staff addysgu. Bydd yn rhaid i unrhyw gynnig i ailstrwythuro sy'n arwain at orfod gwneud taliadau diswyddo ddangos ei fod yn cynhyrchu arbedion parhaol yn y gyllideb sy'n fwy na chost y diswyddo dros gyfnod i'w gytuno arno.
- 4.4. O ystyried lefel ddiwygiedig yr arbedion, dangosir y sefyllfa gyllidebol ddiwygiedig yn Nhabl 5 isod:-

Tabl 5
Y Sefyllfa Gyllidebol Ddiwygiedig Ar ôl Arbedion

	£ 'm
Cyllideb Ddisymyd ar 19 Chwefror 2018	132.688
Arbedion a nodwyd	(3.315)
Cyllideb Refeniw Ddiwygiedig ar ôl Arbedion	129.373
Cyllid Allanol Cyfun	(95.812)
Y Gyllideb i'w hariannu gan y Dreth Gyngor	33.561

5. PWYSAU A THWF

5.1 Mae adroddiad monitro'r Cyngor hyd at ddiwedd chwarter 3 yn dangos bod pwysau ar gyllidebau'r Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Oedolion a hefyd ar y gyllideb Addysg ar gyfer lleoliadau all-sirol. Er bod disgwyl i bob gwasanaeth gadw'r costau o fewn y gyllideb, mae hynny'n anodd mewn gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw. Mae'r gorwariant a amcangyfrifir oddeutu £1.8m yn y Gwasanaethau Plant a £700k yn y Gwasanaeth Addysg. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddod o hyd i ffyrdd o leihau costau ond ni fydd ond yn cwrdd yn rhannol â'r gorwariant. Oni fydd y galw yn lleihau ni fydd y gyllideb yn ddigonol i gwrdd â chostau'r dyfodol.

5.2 Yn ychwanegol at y pwysau arferol ar gyllidebau'r gwasanaethau hynny a arweinir gan y galw, mae penderfyniadau sydd yn rhannol y tu allan i reolaeth y Cyngor hefyd wedi arwain at bwysau ychwanegol ar y gyllideb. Mae'r rhain yn cynnwys: -

- Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS) - Bydd y gofyn ar y Cyngor i gynnal asesiadau DOLS bob blwyddyn yn cynyddu'r costau'n sylweddol. Amcangyfrifir y bydd angen £172k ychwanegol y flwyddyn. Gweler y Pwyllgor Gwaith ar 29 Ionawr 2018.
- Cais Twf Rhanbarthol – Fel y 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru, cytunodd y Cyngor i gyfrannu hyd at £50k yn 2017/18 i gwrdd â chostau paratoi'r cais. Wrth i'r cais symud yn ei flaen, bydd angen cyllid pellach ar lefel debyg.
- Prosiect STEM – Mae'r prosiect STEM yn brosiect 4½ mlynedd a ariennir yn rhannol o gyllid grant yr UE, yn rhannol gan y sector preifat ac yn rhannol gan y 3 awdurdod lleol yng Ngogledd-Orllewin Cymru. Bydd y prosiect yn golygu y bydd gofyn i'r Cyngor gyfrannu hyd at £37,500 dros y 4 blynedd nesaf, er y gallai hyn ostwng os yw cyfraniad y sector preifat yn cynyddu.
- Grant Amgylchedd Sengl - Trosglwyddwyd rhan helaeth o'r Grant Amgylchedd Sengl, a ddefnyddir yn bennaf i ariannu costau ailgylchu, i'r setliad. Cafodd cyfran Ynys Môn, sef £920k, ei chynnwys yn y gyllideb ddisymyd. Bydd y £26.8m sy'n weddill o'r grant hwn ledled Cymru yn cael ei dorri i £20.79m yn 2018/19 (gostyngiad o 22%). Amcangyfrifir y bydd hyn yn golygu gostyngiad o oddeutu £180k yn y grant i'r Cyngor (y ffigurau terfynol i'w cadarnhau).

- Grant Gwella Addysg – Bu gostyngiad yn y grant hwn o 11.4% ar draws Cymru ac mae dyraniad Ynys Môn wedi gostwng £268k. Yn ychwanegol at hyn, costau staffio yw'r rhan fwyaf o'r costau a ariennir gan y grant a bydd y cynnig tâl (gweler paragraff 3.2) yn golygu cynnydd o £95k yn y swyddi a ariennir gan grantiau.

5.3. Bydd cyllido'r pwysau hyn ar y gyllideb yn golygu y bydd y Cyngor angen mwy o gyllideb net ac y bydd y bwlch rhwng y ffigwr hwnnw a chyfanswm yr arian sydd ar gael yn mynd yn fwy.

6. Y DRETH GYNGOR

6.1 'Roedd y Dreth Gyngor Band D ar gyfer 2017/18 yn £1,088.01 ar gyfartledd, sef y 5ed isaf yng Nghymru ac yn is na chyfartaledd Cymru, sef £1,184. Yr hyn sy'n bwysicach i Ynys Môn yw'r gymhariaeth â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Dangosir hyn yn Nhabl 6 isod:-

Tabl 6
Cymhariaeth o Gostau Band y Dreth Gyngor ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru

Awdurdod	Tâl Band D 2017/18 £	Y swm dros / o dan ffigwr Ynys Môn £	Y ganran dros / o dan ffigwr Ynys Môn %
Ynys Môn	1,088		
Gwynedd	1,241	+ 153	+ 14.1%
Conwy	1,113	+ 25	+ 2.3%
Sir Ddinbych	1,191	+ 103	+ 9.5%
Sir y Fflint	1,104	+ 16	+ 1.5%
Wrecsam	1,052	- 36	- 3.3%

6.2. 'Roedd y gyllideb Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18 (ar ôl addasu ar gyfer y newid yn Sail y Dreth Gyngor) yn £33.526m. Felly, mae pob cynnydd o 1% yn cynhyrchu £ 335k ychwanegol. Cynnig cychwynnol y Pwyllgor Gwaith oedd cynnydd o 4% yn y Dreth Gyngor, a fyddai'n cynhyrchu £1.34m ychwanegol ac yn arwain at dâl Band D o £1,131.57, sef cynnydd o £43.56 (£0.84 yr wythnos).

6.3. Yn Nhabl 7 isod dangosir effaith pob cynnydd o 0.5%, yn dechrau gyda 1% ac i fyny at 5%. Dylid nodi bod lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn bwysig nid yn unig wrth bennu cyllideb 2018/19 ond oherwydd hefyd ei fod yn cael effaith ar 2019/20, gan y bydd y pwynt cychwyn ar gyfer y Dreth Gyngor yn cael ei bennu gan y cynnydd yn 2018/19 ac y bydd hynny'n effeithio ar y cynnydd y bydd ei angen yn 2019/20.

Tabl 7
Effaith gwahanol lefelau o gynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2018/19

Cynnydd Canrannol	Newid yng Nghyllid Cyffredinol y Cyngor £	Cyllid Uwchben Cyllideb ddisymyd Ddiwygiedig 2018/19 £	Tâl Band D 2018/19 £	Cynnydd o gymharu â 2017/18 £	Cynnydd Wythnosol o gymharu â 2017/18 £
5.0%	+ 1.676m	+ 1.641m	1,142.37	+ 54.36	+ 1.05
4.5%	+ 1.509m	+ 1.474m	1,136.97	+ 48.96	+ 0.94
4.0%	+ 1.341m	+ 1.305m	1,131.57	+ 43.56	+ 0.84
3.5%	+ 1.173m	+ 1.138m	1,126.08	+ 38.07	+ 0.73
3.0%	+ 1.006m	+ 0.970m	1,120.68	+ 32.67	+ 0.63
2.5%	+ 0.838m	+ 0.803m	1,115.19	+ 27.18	+ 0.52
2.0%	+ 0.671m	+ 0.635m	1,109.79	+ 21.78	+ 0.42
1.5%	+ 0.503m	+ 0.468m	1,104.30	+ 16.29	+ 0.31
1.0%	+ 0.335m	+ 0.300m	1,098.90	+ 10.89	+ 0.21

- 6.4.** Byddai unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor yn darparu mwy o arian na'r hyn sy'n ofynnol i ariannu'r gyllideb Sefydlog Ddisymyd o £129.373m. Gellir defnyddio'r arian dros ben fel a ganlyn: -
- Ariannu'r pwysau cyllidebol a nodir ym mharagraff 5 uchod.
 - Caniatáu gohirio rhywfaint o'r £3.315m o arbedion arfaethedig.
 - Cynyddu cyllidebau hapddigwyddiadau a, thrwy hynny, leihau'r perygl o orwario yn 2018/19.
- 6.5.** Dylid nodi na wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol unrhyw gyfeiriad penodol yn ei ddatganiad ar y setliad ynglŷn â lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor y dylai awdurdodau unigol ei ystyried. Nid oes unrhyw gap swyddogol ar lefel y cynnydd y Dreth Gyngor, ond ers nifer o flynyddoedd mae Cynghorau wedi anelu at gadw'r cynnydd o dan 5%. Mae rhai Cynghorau yn ystyried o ddifrif gynnydd o fwy na 5% yn y Dreth Gyngor yn 2018/19.
- 6.6.** Yn y setliad terfynol, gosodwyd yr elfen dreth safonol ar gyfer y Cyngor ar £1,170.48 h.y. ffigwr safonol y Dreth Gyngor ar draws Cymru a ddefnyddir i bennu'r AEF ar gyfer pob Cyngor. Mae'r ffigwr hwn 3.4% yn uwch na ffigwr ar gyfer 2017/18.

7. CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL A PHENODOL, CRONFEYDD HAPDDIGWYDDIADAU A RISG ARIANNOL

- 7.1** Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o ragdybiaethau o ran yr incwm a'r gwariant tebygol yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n anochel, felly, fod nifer o risgiau ariannol cynhenid yn y gyllideb arfaethedig. Amlygir y risgiau ariannol allweddol isod: -
- Mae gan unrhyw orwariant a ragwelir yn 2017/18 oblygiadau uniongyrchol ar gyfer cyllideb 2018/19, h.y. a fydd gwasanaethau sy'n gorwario ar hyn o bryd yn wynebu'r un pwysau ar eu cyllidebau yn 2018/19 ac, o ganlyniad, a fyddant yn gallu darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb arfaethedig yn 2018/19? Yn ogystal, bydd unrhyw orwariant yn 2017/18 yn effeithio ar lefel cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor i'r dyfodol. Rhagwelir gorwariant net o £3.05m ar gyllidebau Gwasanaeth (ac eithrio cyllidebau corfforaethol a chostau cyllido cyfalaf) ar hyn o bryd ar gyfer 2017/18 ac mae hwn yn ffactor pwysig i'w ystyried;
 - Mae'r gyllideb ddisymyd ddiwygiedig ar gyfer 2018/19 yn cynnwys cynigion arbedion o £3.315m. Pe baent yn cael eu gweithredu, bydd angen eu cyflawni er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer 2018/19. Gwnaed lwfans, lle bo'n briodol, ar gyfer costau gweithredu, ond mae elfen o risg ariannol o ran cyflawni'r holl arbedion yn llawn, gyda'r risgiau'n amrywio'n sylweddol rhwng cynigion unigol. Gwnaed rhagdybiaethau realistig o ran lefel yr arbedion y gellir eu cynhyrchu os nad oes modd eu gweithredu ar unwaith, ond mae risg ariannol gynhenid o ran cyflawni newidiadau mewn amser i sicrhau'r math hwn o arbediad;
 - Caniatawyd cynnydd chwyddiant o 2.6% ar draws yr holl wariant nad yw'n ymwneud â thâl (oni bai fod y cynnydd a wnaed ar gyfer chwyddiant mewn cytundebau yn hysbys). Er bod y rhan fwyaf o'r proffwydoliaethau'n awgrymu bod chwyddiant wedi cyrraedd ei bwynt uchaf ac y bydd yn dechrau disgyn yn 2018, gall yr ansicrwydd ynghylch Brexit a'i effaith ar economi'r DU arwain at chwyddiant yn parhau i godi uwchlaw'r ffigwr a ganiateir yn y gyllideb;
 - Codwyd ffioedd a thaliadau anstatudol 3% ym mhob gwasanaeth ar gyfartaledd. Ni wnaed unrhyw addasiad ar gyfer newid yn y galw am y gwasanaethau a, phe bai'r cynnydd yn y ffioedd a thaliadau yn arwain at ostyngiad yn y galw, yna mae perygl na chyflawnir cyllidebau incwm.

- 7.2.** O ran unrhyw gronfeydd hapddigwyddiadau a chronfeydd wrth gefn, mae angen i'r Swyddog Adran 151 adolygu'r cyfan o'r rhain a'r gyllideb sylfaenol ei hun, ynghyd â'r risgiau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Yn ogystal, dylai'r adolygiad edrych i'r tymor canol lle bo'r angen a chymryd i ystyriaeth unrhyw ddatblygiadau allweddol a allai effeithio ar yr angen am adnoddau unwaith ac am byth a'r angen i'w defnyddio.
- 7.3.** Cymerir agwedd gadarn ar hyn o bryd tuag at reoli risgiau cyllidebol a diogelu iechyd ariannol y Cyngor. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo angen diogelu arian unwaith ac am byth yn ddigonol er mwyn ariannu newidiadau strategol / trawsnewid yn y dyfodol yn hytrach na chyllido gorwariant sylweddol yn y gyllideb sylfaenol ei hun.
- 7.4.** Cymerwyd i ystyriaeth yr angen i gyfyngu cymaint â phosib ar wariant a'r effaith ganlynol ar wasanaethau, ond rhaid cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i sicrhau sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn y tymor canol a'r tymor hir a'r angen hefyd i weithredu'r arbedion dros y blynyddoedd nesaf mewn ffordd raddol a strwythuredig. Yn ogystal, mae yna rywfaint o risg o wariant neu orwariant annisgwyl oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar gyllideb gwasanaethau, a rhaid i'r cronfeydd wrth gefn hefyd fod yn ddigonol i fedru ymdopi â'r pwysau hyn.
- 7.5.** Ar 31 Mawrth 2017, roedd cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor yn £8.355m, sy'n cyfateb i 6.6% o gyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2017/18, neu 10.2 % os na chaiff y cyllidebau a ddirprwywyd i'r ysgolion eu cynnwys. Mae maint y gronfa wrth gefn gyffredinol y dylai'r Cyngor ei chadw yn fater i'r Cyngor benderfynu arno, a hynny'n seiliedig ar argymhelliad gan y Swyddog Adran 151 ond, fel rheol gyffredinol, ystyrir bod 5% o'r gyllideb refeniw net yn lefel dderbyniol. Yn seiliedig ar gyllideb refeniw ddisymyd yn 2018/19, byddai hyn yn golygu y byddai angen tua £6.5m o gronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth nad oes gan y mwyafrif o ysgolion uwchradd unrhyw gronfeydd wrth gefn i ddisgyn yn ôl arnynt a bod ysgolion cynradd yn dibynnu fwyfwy ar eu cronfeydd wrth gefn i gydbwysu'u cyllidebau.
- 7.6.** Yn ystod 2017/18, bydd yn rhaid ariannu nifer o eitemau o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol neu mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cytuno i ariannu'r gost o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys: -
- Ariannu costau diswyddo gwirfoddol - £0.25m - a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf 2017;
 - Gorwariant a ragwelir o £1.7m yn y gyllideb refeniw ar gyfer 2017/18 ar ddiwedd chwarter 3;
 - Cost y gwaith atgyweirio sy'n codi o'r llyfogydd diweddar, uwchlaw'r swm a ariennir trwy gynllun cymorth brys Llywodraeth Cymru - amcangyfrifir y bydd yn costio £0.4m ond 'rydym yn disgwyl am gadarnhad terfynol o union werth y grant gan Lywodraeth Cymru. Os bydd yn is na'r disgwyl, efallai y bydd angen gohirio rhywfaint o'r gwaith atgyweirio;
 - Costau symud adeilad y Rovacabin ac adfer y maes parcio - £0.028m - a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 29 Ionawr 2018;
 - Ariannu dyluniad y gwaith gwella ar A545 o Borthaethwy i Fiwmares - £0.095m - a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 29 Ionawr 2018.

Yn dilyn yr addasiadau hyn, mae'r lefel ddiwygiedig o falansau cyffredinol yn gostwng i £5.882m sydd islaw'r £6.5m a argymhellir fel isafswm.

- 7.7.** Mae gan y Cyngor hefyd £13.357m mewn cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chyfyngedig. Mae angen y mwyafrif o'r cronfeydd wrth gefn hyn i ariannu prosiectau penodol, neu maent yn arian grant sydd yn ymwneud â balansau grant sydd heb eu dyrannu, neu maent ar gael i ariannu risgiau posib os byddant yn gwaethygu i'r fath raddau eu bod yn creu problem. Fodd bynnag, mae £996k yn y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ariannu'n rhannol cost Hawliadau Tâl Cyfartal. Mae mwyafrif helaeth yr hawliadau wedi'u setlo ac mae Llywodraeth Cymru wedi awdurdodi cyfalafu'r gwariant hwn, a fydd yn caniatáu i'r Cyngor fenthycu i dalu'r gost. Mae angen peth gwaith i orffen setlo gweddill yr hawliadau ac i dalu unrhyw ffioedd a geid, ond mae'n debygol na fydd angen mwy na £700k o'r gronfa hon ac y gellir ychwanegu'r swm hwnnw at falansau cyffredinol y Cyngor. Mae hyn yn cynyddu'r balans i'r lleiafswm angenrheidiol o £6.56m.
- 7.8.** Mewn amseroedd o lymder ariannol, mae cyllidebau'n gostwng ac nid ydynt yn gallu delio â chynnydd mewn galw, yn enwedig yn y gwasanaethau hynny sydd â llai o reolaeth dros y galw e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol. Felly, mae dadl bod mwy o angen am gronfeydd wrth gefn cyffredinol oherwydd bod mwy o risg o orwariant a bydd y Cyngor angen mwy o adnoddau ariannol i leihau'r risg.
- 7.9.** Yn fy marn broffesiynol i, mae'r balans o £6.56m yn lefel ddigonol o arian wrth gefn cyffredinol, gan ystyried maint cyllideb refeniw'r Cyngor a'r risgiau y gall eu hwynebu. Fodd bynnag, mae angen adolygu'r sefyllfa hon ac, os bydd lefel y cronfeydd wrth gefn yn disgyn o dan y lefel hon, efallai y bydd angen gwneud darpariaeth mewn cyllidebau yn y dyfodol er mwyn cynyddu'r balansau cyffredinol i'r ffigwr a argymhellir fel isafswm.
- 7.10.** Efallai y bydd sgôp i ryddhau cronfeydd wrth gefn clustnodedig eraill ac mae adroddiad llawn ar y Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol a Chlustnodedig wedi'i gynnwys fel eitem ar wahân ar raglen y Pwyllgor.
- 7.11.** Mae'r gyllideb refeniw ddisymyd ar gyfer 2018/19 yn cynnwys £1.687m o gronfeydd hapddigwyddiadau clustnodedig a chyffredinol. Mae'r eitemau o dan y pennawd hwn yn cynnwys cronfa hapddigwyddiadau gyffredinol o £280k, cronfa hapddigwyddiadau o £330k ar gyfer yr ardoll prentisiaeth, £300k ar gyfer cyflogau a graddfeydd, cyllid tymor penodol o £335k ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Plant, £150k ar gyfer Chwyddiant Tâl a £292k ar gyfer Cyfrifoldebau Newydd a drosglwyddwyd i'r Setliad. Mae'r cyllidebau hyn ar gyfer hapddigwyddiadau yn lliniaru, i ryw raddau, y risg y bydd y Cyngor yn cael costau annisgwyl neu bod costau'n cynyddu yn ystod y flwyddyn. Byddai lleihau lefel y cyllidebau hapddigwyddiadau cyffredinol yn golygu y byddai'n rhaid ariannu costau annisgwyl neu gynydd mewn costau o'r balansau cyffredinol.

8. CADERNID YR AMCANGYFRIFON

- 8.1.** Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig.
- 8.2.** Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm yn y dyfodol ac yn cynnwys elfen o risg yn sgil rhagdybio. Gall effaith y risg hon gael ei lliniaru drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau hapddigwyddiadau wrth gefn a chronfeydd ariannol wrth gefn.
- 8.3.** Nid yw cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol yn gwestiwn syml o p'un a ydynt wedi eu cyfrifo'n gywir ai peidio. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrif neu ragolygon, ac efallai y bydd elfen o risg ynghylch a fydd y cynlluniau'n cael eu gweithredu neu ynghylch a fydd modd cyflawni'r targedau. Caiff risgiau gwahanol i'r gyllideb eu hystyried yn eu tro isod: -

- **Risg Chwyddiant** - Mae hyn yn risg y gallai chwyddiant droi allan i fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaeth a wnaed yn y gyllideb. Ar gyfer 2018/19, caniatwyd ar gyfer chwyddiant yn y gyllideb fel a ganlyn: dyfarniadau tâl yn unol â'r cynnig a wnaed gan y Cyflogwr ar gyfer staff CGC a 2% ar gyfer Athrawon, chwyddiant prisiau (2.6%). Yn dilyn canlyniad refferendwm yr UE, mae chwyddiant wedi codi ac ar hyn o bryd mae'n 3.1% (Mynegai Prisiau Defnyddwyr - Tachwedd 2017) er bod llawer yn rhagweld y bydd yn disgyn tuag at darged 2% y Llywodraeth yn 2018 a dylai lefel y chwyddiant y caniatwyd ar ei gyfer yn y gyllideb fod yn ddigonol. Mae tua £65m o gyllideb y Cyngor ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau lle bydd y pris yn cynyddu wrth i chwyddiant gynyddu. Gallai cynnydd o 1% mewn chwyddiant ychwanegu £650k i gostau'r Cyngor (tua 0.5% o'r gyllideb net). Er bod chwyddiant yn dal i fod yn risg, mae gan y Cyngor ddigon o gronfeydd wrth gefn i ariannu cynnydd sydyn mewn chwyddiant.
- **Risg Cyfraddau Llog** – Mae cyfraddau llog yn effeithio ar gyllideb referniw un flwyddyn drwy'r llog a enillir – h.y. mae cynnydd yn y gyfradd log yn beth da. Yn unol â Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, yr ystyriaethau cyntaf wrth fuddsoddi fydd diogelwch a hylifedd y buddsoddiad - bydd yr elw ar y buddsoddiad yn llai o flaenoriaeth. Nid yw'r gyllideb felly'n dibynnu ar gael elw mawr o'r buddsoddiadau a wneir. Mae cyfraddau llog yn parhau i fod yn isel iawn ac er y gallant godi efallai yn ystod 2018, ni fyddant yn codi'n sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o'r llog a delir gan y Cyngor yn gysylltiedig â benthyciadau cyfraddau sefydlog na fyddant yn newid pe bai'r gyfradd llog yn codi. Felly, fel yn y blynyddoedd diwethaf, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel, ac mae hon yn risg y mae'r risg chwyddiant yn ei lliniaru, oherwydd os yw un yn cynyddu, yna mae'r llall debygol o gynyddu hefyd;
- **Risg Grantiau** - Mae'r rhain yn risgiau sydd ynghlwm wrth y nifer fawr o grantiau penodol gan Ewrop neu gyrff eraill sy'n cefnogi cyfran dda o wariant y Cyngor. Efallai y bydd rhai o'r rhain yn gostwng yn sylweddol neu'n cael eu torri yn gyfan gwbl; nid oes gennym ddarlun cyflawn o'r rhain i gyd ac ni fydd y darlun hwn ar gael hyd yn oed wrth i'r flwyddyn ariannol gychwyn. Er mai'r ymateb naturiol yw dweud y bydd yn rhaid i'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r grant ddod i ben pan ddaw'r grant i ben, mae perygl na fydd hyn bob amser yn bosib. Efallai na fydd yn bosib pan fydd telerau'r contract yn golygu na all y gwariant gael ei dorri mor gyflym â'r incwm neu os oes costau diswyddo sydd heb eu hariannu. Efallai na fydd yn bosib os yw'r gweithgaredd a ariennir mor bwysig ar gyfer cyflawni Blaenoriaethau'r Cyngor ei hun fel bod y Cyngor yn penderfynu bod rhaid iddo barhau â'r gwariant. Wrth ymdrechu i liniaru'r risg hon, rhaid sicrhau bod gennym y wybodaeth orau sydd ar gael ar bob un o'r grantiau, ond ni fedrir diystyru'n gyfan gwbl y posibilrwydd y bydd newidiadau sylweddol yn digwydd yn ystod y flwyddyn;
- **Risgiau Incwm** - Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd cyffredinol o 3% yn y ffioedd, ac mae nifer o wasanaethau wedi rhagdybio codiadau a fydd hyd at 3%. Os bydd newid yn y galw am Wasanaethau'r Cyngor yn golygu bod lefel y galw'n disgyn, ac os na lwyddir i gyrraedd targedau incwm, gall hynny arwain at orwario ar gyllidebau net. Bydd angen monitro'r sefyllfa o ran y gyllideb net yn ofalus ac, os oes angen, bydd raid torri yn ôl ar wariant i gyfateb i'r gostyngiad mewn incwm;
- **Risg o fod yn rhy optimistaidd** - Mae'n debyg mai'r risg fwyaf yn yr amgylchiadau cyffredol yw bod yr Awdurdod, Aelodau a Swyddogion, wedi bod yn or-optimistaidd o ran yr arbedion fydd yn cael eu cyflawni. Petai'r prosiectau hyn yn rhedeg i drafferthion ac yn methu cyflawni'r arbedion a gymerwyd allan o'r gyllideb, gallai hynny arwain at orwario sylweddol;
- **Y Risg o fod yn rhy Ofalus** – Dyma'r gwrthwyneb i'r risg uchod: y perygl bod ein cyllidebau wedi cael eu llunio'n rhy ofalus ac, o'r herwydd, eu bod yn fwy nag sydd ei angen;

- **Risgiau Arbedion** - Mae'r gyllideb refeniw ddisymyd yn cynnwys £3.315m o arbedion refeniw ac, er bod yr holl gynigion wedi cael eu hasesu ac er bod swm yr arbediad wedi ei addasu i gymryd y dyddiad gweithredu arfaethedig i ystyriaeth, mae perygl na fydd yr holl gynigion yn cael eu gweithredu erbyn y dyddiad arfaethedig. Mae hyn yn arbennig o wir am gynigion sy'n ymwneud â thrawsnewid gwasanaethau'n sylweddol, diswyddo staff, cynhyrchu incwm neu newidiadau i gontractau. Bydd unrhyw oedi o ran dechrau gweithredu'r arbedion yn rhoi pwysau ar y gyllideb refeniw; gellir cael rhywfaint o dawelwch meddwl yn sgil perfformiad y Cyngor yn y gorffennol gan ei fod wedi llwyddo i gyflawni'r rhan fwyaf ohonynt;
- **Risgiau Cyflogau a Graddfeydd** – Yn dilyn cwblhau'r broses arfarnu swyddi, mae pob cyllideb staffio yn seiliedig ar y graddfeydd cyflog newydd. Mae'r holl apeliadau am ailraddio swyddi yn codi o'r broses arfarnu swyddi wedi cael sylw a bellach bydd raid i unrhyw newidiadau i raddfeydd cyflog neu strwythurau staffio gael eu cyllido o gyllidebau presennol y gwasanaethau;
- **Costau Diswyddo Staff** – Mae nifer o wasanaethau wedi ailstrwythuro eu staff ac eisoes wedi caniatáu i nifer o staff adael drwy ddiswyddiad gwirfoddol. Caiff costau diswyddo eu cyllido o gronfa hapddigwyddiadau ganolog ac mae £300k wedi cael ei roi o'r neilltu yng nghyllideb ddisymyd 2017/18 i gwrdd ag unrhyw gostau diswyddo a gyfyd yn ystod y flwyddyn er mwyn lliniaru'r risg. Cafodd yr un swm ei neilltuo i ddechrau yn 2017/18 ond rhyddhawyd £250k ychwanegol o falansau cyffredinol i gwrdd â'r costau. Er bod nifer y staff gweinyddol sy'n cael eu rhyddhau trwy ddiswyddo gwirfoddol wedi lleihau, mae'r pwysau ar ysgolion i leihau costau yn cynyddu, sy'n arwain at gynnydd yn nifer y staff ysgol sy'n gadael cyflogaeth y Cyngor. Mae eto'n risg sylweddol na fydd yr arian wrth gefn o £300k yn ddigon i gwrdd â'r costau;
- **Premiwm y Dreth Gyngor** - Yn ystod blwyddyn gyntaf y premiwm, gosodwyd y sail dreth ar 70% o'r eiddo a restrwyd. Yn ystod 2017/18 mae nifer y cartrefi gwag sy'n denu premiwm wedi gostwng ond nid yw nifer yr ail gartrefi sy'n denu'r premiwm wedi lleihau. Yng ngoleuni hyn, cynyddwyd canran yr eiddo a gynhwyswyd yn y sail dreth i 80%. Mae perygl y gall trethdalwyr gymryd camau i sicrhau nad ydynt bellach yn atebol am y premiwm a bod nifer yr eiddo gwirioneddol sy'n talu'r premiwm yn disgyn islaw'r ffigwr sydd wedi ei gynnwys yn y sail dreth. Fodd bynnag, byddai angen peidio codi premiwm ar gyfwerth â dros 500 o eiddo Band D i incwm y Cyngor ostwng yn is na'r gyllideb ac, o ganlyniad, ystyrir bod y risg hon yn isel iawn.

8.4. Ar ôl ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Swyddog Adran 151 o'r farn bod y cyllidebau'n gadarn ac y gellir eu cyflawni.

9. PWYLLGOR SGRIWTINI

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth pellach i osod cyllideb 2018/19 gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 5 Chwefror 2018.

9.2. Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini â oedd yn amlinellu cyd-destun y broses o osod cyllideb 2018/19 ynghyd â materion allweddol a chwestiynau i Sgriwtini werthuso'r cynigion cyllideb terfynol yng ngoleuni canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn ymgorffori'r dogfennau canlynol :-

- Adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth Adnoddau ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2018/19. Rhoddodd ddatganiad a'r y sefyllfa ar ystyriaethau ariannol allweddol oedd wedi dylanwadu sut siapwyd cynigion y gyllideb derfynol.
- Adroddiad y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad sy'n crynhoi negeseuon allweddol yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ar gynigion cyllideb 2018/19 yr Awdurdod.

- Adroddiad Panel y Dinasyddion a'r Cyngor Ieuentid (Llais Ni) ynglŷn a'u rhan o ran gwella ymgysylltiad y cyhoedd â Sgriwtini.

9.3 Ar ôl ystyried a thrafod y wybodaeth a gyflwynwyd ar ffurf ysgrifenedig ac ar lafar i'r cyfarfod, ac o ystyried y farn a gyflwynwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion cyllideb 2018/19, ar ddinasyddion, PENDERFYNODD y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i : Gefnogi ac i argymhell i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror 2018 y cynigion cyllideb referniw gyflwynwyd, yn seiliedig ar gynnydd yn y Dreth Gyngor o 5% i gynnwys cynnydd o 1% wedi'i neilltuo ar gyfer gofal cymdeithasol.

10. Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG A LEFEL Y DRETH Y CYNGOR

10.1 Ar ôl ystyried yr arian sydd ar gael a'r cynnydd yn yr AEF ers llunio'r cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb, ar ôl ystyried canlyniadau'r broses ymgynghori ac ymateb y Pwyllgor Sgriwtini, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi diwygio ei gynnig terfynol ar gyfer y gyllideb ac mae'n cynnwys y newidiadau canlynol :-

- Bod y gyllideb ddisymyd ar gyfer 2018/19 ar ôl caniatáu ar gyfer arbedion arfaethedig o £3.315m, yn £129.373m.
- Gwneud yr addasiadau canlynol i'r cynigion arbedion: -
 - 1)** Peidio a gweithredu'r gostyngiad o £563k yn 2018/19 yn y gyllideb a ddirprwywyd i'r ysgolion. Bydd toriad o £490k yn y gyllideb fel y cytunwyd fel rhan o gyllideb 2017/18 ond caiff ei gyllido o gronfeydd wrth gefn a bydd ysgolion hefyd yn wynebu gostyngiad o £100k yn y gyllideb ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a gostyngiad o £275k yn y Grant Gwella Addysg. Mae'r Pwyllgor Gwaith o'r farn y bydd toriad ychwanegol o £563k yn anodd i ysgolion ei weithredu yn y tymor byr.
 - 2)** Ni fydd y cynnydd arfaethedig o £10 y flwyddyn ar gyfer y cynllun seddau gwag yn cael ei weithredu ar hyn o bryd. Mae angen rhagor o waith i wella'r broses dalu a chaniatáu mwy o hyblygrwydd i rieni ynghylch sut y telir y ffi.
 - 3)** Ni wneir unrhyw ostyngiad yn lefel yr arian grant ar gyfer grwpiau cymunedol. Bydd effaith y gostyngiad yn sylweddol ar y grwpiau yr effeithir arnynt o gymharu â'r arbediad cyffredinol i'r Cyngor.
 - 4)** Peidio â gweithredu'r gostyngiad o £100k yn y gyllideb gwaith atgyweirio a chynnal. Mae'r Adain Eiddo yn gweithio i leihau costau trwy gyflogi staff mewnol i ymgymryd â'r gwaith yn hytrach na chyflogi contractwyr allanol. Mae angen asesu effaith y newidiadau hyn cyn gwneud unrhyw ostyngiadau pellach yn y gyllideb.
 - 5)** Gohirio cau'r 2 gegin yng nghartrefi preswyl y Cyngor hyd nes bydd rhagor o waith wedi ei wneud i sefydlu costau sefydlu'r cynnig.
- Mae hyn yn lleihau cyfanswm gwerth y cynigion arbedion i £2.522m (mae rhestr lawn ynghlwm yn Atodiad 3).
- Dyrannu cyllid ychwanegol i gwrdd â phwysau ar gyllidebau fel a ganlyn: -

- 1 Bod y cyllid a gynhrychir gan y cynnydd o 0.8% yn y Dreth Gyngor (e.e. uwch na'r cynnig cychwynnol o 4%) yn cael ei ddyrannu i'r Gwasanaethau Plant fel cyfraniad tuag at y cynnydd yn y costau a wynebir gan y gwasanaeth oherwydd cynnydd yn y nifer o blant sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn cynyddu'r gyllideb £268k.
 - 2 Dyrannu £72k i ariannu'r gost o gynnal Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 29 Ionawr 2018.
 - 3 Dyrannu £50k ar gyfer 2018/19 yn unig i ariannu costau paratoi cais Twf Rhanbarthol Gogledd Cymru. Asesir yr angen am gyllid pellach yn ystod 2018/19.
 - 4 Dyrannu £37k i'r prosiect STEM ar gyfer y cyfnod 2018/19 i 2021/22, yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 29 Ionawr 2018.
 - 5 Dyrannu £180k ychwanegol i'r gyllideb Gwastraff i wneud iawn am y gostyngiad yn y Grant Amgylchedd Sengl. Caiff y swm hwn ei addasu os yw'r gostyngiad yn y grant yn llai na £180k.
- Cynnydd o 4.8% yn y Dreth Gyngor yn 2018/19 sydd yn codi Band D y Dreth Gyngor £52.20 i £1,140.21.
 - Bod y cyfan o unrhyw falans sydd raid wrtho i gydbwysu'r gyllideb yn cael ei ychwanegu i'r gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol.

10.2 Mae Tabl 8 isod yn crynhoi'r symudiad yng nghyllideb 2018/19 gan gymryd i ystyriaeth y cynigion a nodir yn mharagraff 10.1 uchod.

Tabl 8
Gofynion o ran y Gyllideb ac ariannu yn 2018/19

Gofynion Cyllideb	£ 'm	£ 'm
Cyllideb Derfynol 2017/18		126.157
Taliadau a ymrwymwyd a Chwyddiant		6.180
Cyllideb ddisymyd ar 6 Tachwedd 2017		132.337
Addasiadau i'r Gyllideb Ddisymyd - gweler Tabl 2		0.348
Cyllideb Ddisymyd ar 19 Chwefror 2018		132.685
Cynigion Arbedion Terfynol Posib - gweler Tabl 3 a 4		(3.315)
Gofynion Cyllideb Diwygiedig Ar ôl Arbedion		129.370
Cynigion Terfynol ar gyfer y Gyllideb - paragraff 10.1		
Addasiad i'r cynigion arbedion terfynol	0.793	
Cyllid ar gyfer pwysau ychwanegol ar y gyllideb	0.707	
		1.500
Y Gofynion Cyllidebol Terfynol Arfaethedig		130.870
Ariennir gan:		
Grant Cymorth Refeniw	73.238	
Trethi Annomestig	22.574	
Cyfanswm AEF		95.812
Y Dreth Gyngor (yn cynnwys Premiwm)		35.133
Cyfanswm Cyllid		130.945
Balans ar gyfer y Gronfa Hapddigwyddiadau Gyffredinol		0.075

10.3 Fel rhan o gyllideb 2017/18, gohiriwyd £490k o arbedion cyllideb o gyllideb ysgolion ddirprwyedig am flwyddyn, ynghyd â phenderfyniad ar sut i ddyrannu'r arbedion ar draws y tri sector ysgol. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith i ystyried sut i ddyrannu'r arbedion. Yr opsiynau canlynol ar sut i ddyrannu sydd ar gael:-

- Yn seiliedig ar cyllideb ysgolion dirprwyedig 2018/19. Buasai hyn yn dyrannu'r arbedion fel a ganlyn:- £257,640 i'r Sector Cynradd, £212,320 i'r sector Uwchradd, £20,040 i'r Sector Arbennig.
- Yn seiliedig ar lefel y balansau ysgolion ar 31 Mawrth 2017 (ffigwr olaf). Byddai hyn yn dyrannu'r arbedion fel a ganlyn:- £399,940 i'r Sector Cynradd, £53,460 i'r Sector Uwchradd, £36,600 i'r Sector Arbennig.
- Cyfartaledd y 2 ddull welir uchod. Byddai hyn yn dyrannu'r arbedion fel a ganlyn:- £328,790 i'r Sector Cynradd, £132,890 i'r Sector Uwchradd a £28,320 i'r Sector Arbennig.
- Neilltuo'r holl arbedion i'r Sector Cynradd, o gofio bod y sefyllfa ariannol rhan fwyaf o ysgolion yn y sector hwn yn iachach na'r Sector Uwchradd.

11. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

11.1. Wrth ddarparu ei wasanaethau, mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 i asesu effaith penderfyniadau ariannol allweddol ar grwpiau gwarchoddedig a rhaid rhoi sylw dyledus i ganlyniad asesiadau o'r fath.

11.2. Fel rhan o'r broses o osod cyllideb 2018/19, gofynnwyd i wasanaethau gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb cychwynnol o effaith y cynigion hynny ar y rheini y mae'r Rheoliadau yn berthnasol iddynt. Cynhelir yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan ddefnyddio templed safonol sy'n sicrhau cysondeb ar draws y Cyngor. Bydd angen i'r gwasanaethau fonitro'n ofalus unrhyw gynigion sy'n debygol o gael effaith sylweddol.

11.3. Mae'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y prif gynigion arbedion sy'n effeithio ar gwsmeriaid a chleientiaid ynghlwm yn Atodiad 5 (cyfeirir ato fel EIA 1 i EIA 10).

12. DIWEDDARU'R STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL

12.1 'Roedd y cynigion cyllidebol cychwynnol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 6 Tachwedd 2017 yn seiliedig ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2017 (gweler Tabl 1). 'Roedd y strategaeth yn amcangyfrif y byddai gostyngiad o 2% yn yr AEF yn 2018/19 ac y byddai cynnydd o 4% yn y Dreth Gyngor.

12.2 Bu cynnydd o 0.7% yn yr AEF yn sgil y setliad gwirioneddol ac mae hynny wedi cael effaith sylweddol ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol. Nid yw'r sefyllfa'n unigryw i Ynys Môn ac 'roedd mwyafrif Cynghorau Cymru wedi cynllunio ar gyfer toriad sylweddol yn yr AEF ond mae'r AEF wedi cynyddu i 13 o'r 22 Cyngor mewn termau arian parod.

12.3. Mae ceisio amcangyfrif newidiadau yn yr AEF yn y dyfodol yn anodd a bydd llawer yn dibynnu ar berfformiad economi'r DU ar ôl Brexit. Mae Llywodraeth y DU wedi diwygio eu polisi cyllidol ac nid yw bellach yn darged i glirio diffyg cyllidebol y DU erbyn 2020 ond, os yw twf economaidd yn is na'r disgwyl, yna gallai hyn arwain at doriadau pellach i gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru. Bydd y diogelwch a roddir gan Lywodraeth Cymru i feysydd gwariant eraill o gymharu â Llywodraeth leol hefyd yn cael effaith sylweddol ar lefel y setliad ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol.

- 12.4. Nododd y setliad dros dro y gellid bod gostyngiad o hyd at -1.5% yn y setliad ar gyfer llywodraeth leol yn 2019/20, er na chaiff hyn ei ailadrodd yn y setliad terfynol. Mae'r setliad terfynol yn nodi y bydd £20m ychwanegol ar gael yn 2019/20 ond nid yw'n eglur a yw hyn ar ôl y gostyngiad o 1.5% ynteu a yw'n disodli'r bwriad i wneud gostyngiad o 1.5%.

Mae Tabl 9 yn dangos y sefyllfa waethaf gyda thoriadau sylweddol yn yr AEF ar gyfer 2019/20, dim newid yn yr AEF yn 2020/21 a chynnydd o 0.5% yn 2020/21. Amcangyfrifir cynnydd o 3% yn y costau tâl yn 2019/20 ac yna 2% yn y 2 flynedd ddilynol. Amcangyfrifir y bydd chwyddiant tua 2% ym mhob un o'r 3 blynedd. Mae'r model hwn yn tybio y bydd cynnydd o 4% yn y Dreth Gyngor bob blwyddyn.

Tabl 9
Strategaeth Ariannol Tymor Canol 2019/20 - 2021/22 (Senario Waethaf)

	2019/20 £ 'm	2020/21 £ 'm	2021/22 £ 'm
Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen (ar ôl addasu ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn)	130.95	131.26	133.11
Pwysau ar y Gyllideb a chwyddiant	3.25	3.31	3.27
Cyllideb Ddiwygiedig	134.20	134.57	136.38
Cyllid Allanol Cyfun (AEF)	(94.37)	(94.37)	(94.85)
Y Dreth Gyngor	(36.89)	(38.74)	(40.67)
Cyfanswm Cyllid	(131.26)	(133.11)	(135.52)
Yr Arbedion y byddai eu angen	2.94	1.46	0.86

- 12.5. Mae Tabl 10 yn dangos senario mwy optimistaidd lle mae cynnydd o 0.5% yn yr AEF am y cyfnod o dair blynedd. Mae'r holl ragdybiaethau eraill yr un fath.

Tabl 10
Strategaeth Ariannol Tymor Canol 2019/20 - 2021/22 (Senario Optimistaidd)

	2019/20 £'m	2020/21 £'m	2021/22 £'m
Cyllideb Refeniw a ddygwyd ymlaen (ar ôl addasu ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn)	130.95	133.18	135.51
Pwysau ar y Gyllideb a chwyddiant	3.25	3.31	3.26
Cyllideb Ddiwygiedig	134.20	136.49	138.77
Cyllid Allanol Cyfun (AEF)	(96.29)	(96.77)	(97.26)
Y Dreth Gyngor	(36.89)	(38.74)	(40.67)
Cyfanswm Cyllid	(133.18)	(135.51)	(137.93)
Yr Arbedion y byddai eu hangen	1.02	0.98	0.84

- 12.6. Bydd y Strategaeth Ariannol Tymor Canol yn cael ei diweddarau a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith wrth i wybodaeth am setliadau yn y dyfodol ddod yn fwy eglur.

13. ARGYMHELLION

- 13.1. Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cynnig ar gyfer y gyllideb derfynol fel y nodir ym Mharagraff 10 i gyfarfod llawn y Cyngor ar 28 Chwefror 2018.

Ymateb i Gynigion Cychwynol ar gyfer Cyllideb y Pwyllgor Gwaith – 2018/19**CYNGOR SIR YNYS MÔN****Ionawr 2018****Dadansoddwr – Alwyn Williams, Dadansoddwr Perfformiad****Awdur – Gethin Morgan, Rheolwr Cynllunio Busnes, Rhaglen a Perfformiad****Pennaeth Gwasanaeth – Scott Rowley, Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol****1. Rhagarweiniad**

- 1.1. Ymgynghorodd y Cyngor yn ddiweddar ar gynigion cyllidebol cychwynol y Pwyllgor Gwaith rhwng 7 Tachwedd a 29ain Rhagfyr, 2017. Roedd y cynnod ymgynghori o 7 wythnos yn canolbwyntio ar oddeutu 40 o gynigion.
- 1.2. Allbwn y broses gyllidol blynyddol oedd y cynigion arfaethedig yma. Cawsant eu cyflwyno gan y gwasanaethau yn ystod tymor yr Hydref pan fu iddynt hefyd gael eu herio a'i cytuno i bwrpas ymgynghori gan Aelodau Etholedig pob grwp gwleidyddol y Cyngor.
- 1.3. Rhannwyd y cynigion i mewn i'r themau canlynol fel yr amlinellir isod, sef:
 - Rhoi'r gorau i neu drosglwyddo gwasanaethau
 - Trawsnewid Gwasanaeth neu newid y ddarpariaeth
 - Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol
 - Codi mwy am rai o'r gwasanaethau rydym yn ei ddarparu
 - Lleihau a rhesymoli niferoedd o staff
 - Gostyngiad yng nghostau ysgolion
 - Beth yw eich barn ar y codiad arfaethedig o 4% yn nhreth Cyngor ac ydych yn fodlon talu 1% yn ychwanegol i ddefnydd gwarchod gwasanaethau cymdeithasol
- 1.4. Ystyriwyd amrywiaeth helaeth o arbedion lle'r oedd yr her a chytundeb fewnol wedi arwain at gynigion oedd yn amrywio o faterion parthed cau cartref preswyl Plas Penlan wedi agor Hafan Cefni, toriadau i'r grantiau diwylliant, cynyddu'r ffioedd bws ysgol a chynyddu rhai ffioedd parcio ar draws yr Ynys.
- 1.5. Marchnatwyd y cynigion yma mewn nifer o ffyrdd;
 - 1.5.1. Sesiwn briffio i'r wasg lleol
 - 1.5.2. Datganiadau ac erthyglau yn y wasg
 - 1.5.3. Cyhoeddiad o'r cynigion ar dudalen cartref gwefan y Cyngor Sir
 - 1.5.4. Defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol Twitter, Facebook i'w hyrwyddo i ystod mwy eang o drigolion

1.5.5. E-byst perthnasol yn tynnu sylw a gwahodd trigolion i drafodaethau pwrpasol

1.5.6. Cyfweiliad gan yr Arweinydd ar MônFM yn hybu'r ymgynghoriad a'i gynnwys

Roedd pob un o'r sianeli uchod wedi'u hanelu at hysbysu ac ennyn brwdfrydedd dinasyddion a staff i ymgysylltu ac ymateb i'r cynigion cychwynol.

1.6. Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad drwy wahanol ddulliau gan gynnwys:

- Arolwg ar-lein ar ein gwefan
- E-bostio neu
- Ysgrifennu atom ar y ffurf traddodiadol o lythyr drwy'r post

1.7. Yn ogystal â'r uchod, cynhaliodd y Cyngor:

- Sesiwn grŵp ffocws ar gyfer pobl ifanc o dan 25 oed yn Siambr y Cyngor a sesiynau pellach yn yr ysgolion uwchradd David Hughes, Amlwch, Bodedern, a Chaergybi
- Sesiwn a gynhaliwyd yn y Cyngor ar gyfer nifer o partneriaethau fel yr Heddlu, Gwasanaeth Tan, Iechyd, Cynghorau Tref a Chymuned, cyrff y 3ydd Sector ac asiantaethau arall.
- Sesiwn gyda Prifathrawon ac Uwch Reolwyr ysgolion yr Ynys ar y 26ain o Hydref, 2017 ac wedi hynny ar y 17eg o Ionawr, 2018
- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ar y 21ain o Dachwedd, 2017

Roedd yr ymgynghoriad eleni yn dilyn digwyddiadau ymgynghori tebyg a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf ond rhoddwyd mwy o bwyslais eleni ar feithrin ymateb electroneg drwy'n defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol.

Yn ogystal a hyn hefyd ac yn wahanol i'r llynedd, am y tro cyntaf eleni bu inni ofyn am farn ein trigolion ynglyn a lle y gallwn gynyddu ein hincwm neu wneud arbedion pellach dros y blynyddoedd i ddod. Bwriad hyn oedd I ennyn trafodaeth gyda'n trigolion a'n cymunedau ar y materion dan sylw.

Rydym wedi derbyn ystod eang o syniadau mewn ymateb i cwestiwn hyn ac mae'r mwyafrif wedi eu cynnyws fel Atodiad A. i'r adroddiad hwn.

Argymhellir bod y syniadau hyn yn cael eu trafod ymhellach gan y Panel Cyllid Sgrwtini fel rhan atodol i'r broses presennol i weld os oes lle i'w derbyn fel syniadau gwirioneddol ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

2. Canfyddiadau

2.1. Roedd yr ymateb i'r cynigion cyllidebol cychwynol ar gyfer 18/19 dros cyfnod o 7 wythnos yn weddol gadarnhaol. Mae oddeutu 700 o ymatebion wedi'i dderbyn eto eleni ar draws yr amryw sianelau a amlinellwyd uchod gydag ymatebwyr yn ymgysylltu ar draws pob dull.

- 2.2. Y ffordd fwyaf llwyddiannus o gasglu ymatebion eto eleni oedd yr arolwg ar-lein gyda oddeutu 47% yn ymatebdrwy'r sianel yma. Mae hyn yn llai na'r un ymateb llynedd ond gwelwyd cynnydd eleni yn ein ymatebion drwy lythyr ac e-byst. Roedd yr ymatebion hyn yn ymwneud a dau fater penodol.
- 2.3. Derbyniwyd ymatebion gan gyrff tebyg I gynghorau tref, cyrff llywodraethu ysgolion, plant ysgolion, athrawon, a thrigolion eraill na ellid eu grwpio i unrhyw grwp penodol.
- 2.4. Fel y llynedd, rydym hefyd wedi medru casglu'r 'reach' a'r ymgysylltiad a wnaethpwyd fel Cyngor drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Drwy hyrwyddo'r ymgynghoriad drwy'r cyfryngau hyn bu inni gyrraedd oddeutu 57,000+ o bobl. (6,000+ o bobl drwy posts Cymraeg a 51,000+ o bobl drwy'n posts Saesneg).
- 2.5. Bu inni 'bostio'r ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol nifer o weithiau dros y cyfnod dan sylw (7 wythnos).
- 2.6. Nid yw'r ffaith ein bod wedi cyrraedd cynifer yn cadarnhau eu bod wedi ymweld a'r dudalen ymgynghori ei hun ar y we ond maen't heb os yn dangos bod y niferoedd hyn yn ymwybodol o'r ymgynghoriad oedd wrth waith.
- 2.7. Yn wir, o'r wybodaeth dadansoddol sydd gennym, gweler fod cyrhaeddiad y gwaith marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol eleni wedi golygu ymgysylltiad cryf gydag oddeutu 1,600 o unigolion a fu yn ymweld a'r ymgynghoriad ar ein safle gwe.
- 2.8. Mae'r pwynt hyn yn cael ei ategu yn y niferoedd a ymwelodd a'n safle we corfforaethol yn ystod y cyfnod a'r tarddiad daearyddol hynny o'r unigolion oedd yn ymweld a'r arolwg o wledydd megis –
 - 2.8.1. Unol Daliaethau America
 - 2.8.2. Sbaen
 - 2.8.3. UAE
 - 2.8.4. Twrci
 - 2.8.5. De Affrica.
- 2.9. Wedi dweud hynny roedd mwyafrif yr ymweliadau i'n gwefan gan unigolion o'r Deyrnas Unedig (dros 1,500).
- 2.10. Beth ellid nodi eleni yn ogystal yw'r ffaith ein bod wedi cyrraedd aelwydydd yn y pentrefi a trefi canlynol fel rhan o'r ymgynghoriad – Caergybi, Llangefni, Amlwch, Porthaethwy, Niwbwrch, Fali, Gaerwen, Beaumaris, Benllech, Llandegfan, Bodedern, Pentraeth, Gwalchmai, Rhosneigr, Moelfre, Bodorgan, Caergeiliog, LLanfachraeth, Llanddona, Llangoed, Llangristiolus, LLanfaelog, Llanfechell, Aberffraw, Marian-glas.
- 2.11. Mae hyn yn galonogol I'w nodi a pe gellid defnyddio'r ystadegyn hyn i dybio bod yr ymatebion a dderbynwyd wedi dod o'r trawsdoriad yma, gellid nodi bod yr ymateb wedi bod yn draws-sirol gyda safbwyntiau'r gwahanol gymunedau wedi'i derbyn.

3. Canlyniadau'r Ymgynghoriad

3.1. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad eleni wedi bod yn gadarnhaol ac yn gytbwys ar y cyfan gyda safbwyntiau o blaid ac yn erbyn nifer o gynigion. Ceir tri maes penodol lle mae barn pendant wedi ei gynnig a daw'r meysydd hynny I'r amlwg fel rhan o'r adroddiad hyn. (gweler isod)



3.2. O ganlyniad, mae gweddill yr adroddiad yma yn cyfarch yr ymatebion ffurfiol a gasglwyd drwy'r gwahanol ffyrdd a nodwyd yn 1.6 a 1.7 uchod. Caiff ei lunio i gyfarch / ddilyn y testunau / themau perthnasol.

3.3. *Gostyngiad yng nghostau Ysgolion*. Roedd 2 argymhelliad i'w cysidro fel rhan o'r ymgynghoriad-

- Cynnal cyllidebau'r ysgolion ar yr un lefel a 2017/18 drwy ofyn i ysgolion gyllido cost dyfarniadau cyflog a chwyddiant o'u cyllidebau presennol - £563,000
- Datganoli mwy o gyllidebau cynnal a chadw I'r ysgolion gan roi'r hawl iddynt reoli gwaith trwsio - £100,000

Cyfanswm y 2 argymhelliad uchod oedd - £663,000.

3.3.1. O'r ymatebion a dderbyniwyd ymddengys bod dau ffordd o feddwl yn gyffredinol. Un ffordd o feddwl gan y rhai hynny sydd yn ymwneud a'r byd addysg yn rheolaidd (sef athrawon / plant / rhieni a llywodraethwyr) ac un arall gan unigolion sydd (yn ymddengys felly) â dim cysylltiad amlwg a'r byd addysgol.

3.3.2. *Parthed yr ymateb gan y rhai sydd yn ymwneud a'r byd addysg daeth yn glir fod yr argymhelliad cyntaf (1) yn un sydd yn gwbl annerbynniol. Nodwyd pwyntiau tebyg I'r canlynol –*

- Education should be the number one concern for any authority and should be protected as a priority.
- Absolutely not. Do you not think schools have taken enough of a beating? Have you ever worked as a teacher?.....scrap this idea now, unethical and immoral
- This is simply a textbook 'pass the buck' move that will see schools enter a new period of severe crisis. I do not support it.
- Mae'r disgrifiad o arbediad ar gyfer dewis 1 yn gamarweiniol I bobl lleig – toriad ydyw I bob cyfrif.....rydym mewn sefyllfa argyfyngus. Mae gwynebu costau ychwanegol yn gwbl amhosib. Mae safonau a natur y gynhaliath eisoes yn dioddef.
- The Schools are stretched as it is.....schools should most definitely not be facing additional costs from their slim budgets.
- Arbediad cyntaf yn gwbl warthus! Man a man I chi gau holl ysgolion Môn, gwarth!

3.3.3. *Ond o safbwynt yr agwedd cadarnhaol i'r cynigion gwelwyd ymatebion tebyg i'r canlynol –*

-the schools reduction in cost should be much more radical and there should be a real emphasis on transforming schools across the island, which should extend to secondary schools.....
- Both are sensible
- Seems fair perhaps more PTA's could encourage parents to volunteer their time to help with school repairs (depending on their skills)
- Hardly anyone is getting pay awards these days so the school budget should be maintained at existing levels. The school service isn't improving therefore it's only natural that pay awards should be frozen.....

3.3.4. Yn fras felly, tra bod rhai yn erbyn y fath newid / lleihad, ceir rhai sydd hefyd o blaid. Parthed ymateb gan yr ifanc, roedd yn amlwg fod yna ymdeimlad o rwystredigaeth gydag amryw un o'r grwpiau ffocws yn cydnabod nad oedd ysgolion yn cael tegwch, na ddylid dorri'r cyllidebau presennol a rhoddwyd yr engrafft ymlaen gan un grwp mai nhw oedd wedi gorfod paentio'r ysgol ar benwythnosau yn y gorffennol. Nodwyd fod angen buddosddiad mewn technoleg mewn ysgolion uwchradd, nid toriadau pellach.

3.3.5. Fel y sylwer, nid yw'n fater ddu a gwyn ac ymddengys o'r ymateb bod ystod eitha' eang I'r ymateb.

3.3.6. Parthed yr ail-bwynt a'r argymhelliad i ddatganoli mwy o arian I'r ysgolion - roedd hwn hefyd yn faes lle roedd ymateb ffraeth yn dangos safbwyntiau gwahanol. Noder ar y pwynt yma fod hwn yn argymhelliad a wnaed ar y cyd rhwng yr Awdurdod a'r Panel Cyllid Ysgolion sydd yn cynnwys Prifathrawon.

3.3.7. Cafwyd ymateb tebyg i'r canlynol –

- If there is money in the budget for repairs etc then I agree with pt 2
- Cytuno efo datganoli mwyI'r ysgolion gan y gallwn gael prisiau tecach sydd ddim yn cael eu chwyddo gan bod cwmnïau yn gwybod mai'r Cyngor sy'n talu
- This may have merit, but only where schools are genuinely free to choose the contractors / materials that meet best-value criteria.....
- This sounds good but would be totally ineffective as the schools do not have the in-house skills to do this task properly.
- Could would – with parents from schools communities fundraising for repairs.
- Amddifadedd o gyfrifoldeb fyddai datganoli.....fel Prifathro rwy'n gweithio dros 60awr.....fydd na fwy o bres i ni gyflogi rheolwyr busnes??
- Use Education and school reserves for maintenance, surely that's what it's there for?
- Os ydych o'r farn y gellid arbed £100,000 drwy ddatganoli cyllid cynnal a chadw I ysgolion mewn blwyddyn felly mae camweinyddu difrifiol wedi bod ers blynyddoedd.....

3.3.8. Yn ychwanegol i'r hyn sydd wedi ei nodi eisoes, noder hefyd fod yr Awdurdod wedi derbyn llythyr gan ranbarth Ynys Môn o'r Undeb Addysg Cenedlaethol. Mae'r ymateb yma yn datgan ac yn ein hatgoffa o'n cyfrifoldebau statudol i wireddu cynydd mewn cyflog i athrawon ac yn tynnu sylw at y ffaith / tensiwn bod rhai ysgolion yn mynd I fod mewn sefyllfa cryfach nag eraill I wneud hyn fel rhan o'r trafodaethau. Maent yn tynnu sylw tuag at bwyntiau ehangach ym mhapurau'r gyllideb sydd yn cydnabod y cyfrifoldebau hynny gan dynnu sylw at y pwynt os all buddsoddiad gael ei roi I'r ysgolion hynny sydd falle mewn anhawsterau ariannol o fedru delio ar mater y byddent yn teimlo y gallent gefnogi'r arbediad.

3.3.9. I gloi felly ar y gostyngiad mewn costau ysgolion, ymddengys bod yna gydbwysedd amlwg gyda rhai yn erbyn a rhai o blaid. Mae'r drafodaeth uchod yn dangos 'chydig o'r tensiynau hynny.

3.4. **Lleihau'r Niferoedd o staff** – lle roedd 6 cynnig yn cael ei argymhell ac yn amrywio o

- gyfuno swyddi yn y gwahanol adrannau I greu un swydd,
- I leihau'r nifer o swyddi yn yr adran Eiddo I
- ddileu swyddi yn gyfangwbl yn y gwasanaethau Adnoddau a Trawsnewid

3.4.1. Cyfanswm y gostyngiad hyn oedd £347,000

3.4.2. Roedd yr ymatebion I'r thema hyn yn fwy cadarnhaol na'r gweddill gyda falle mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gyfundeb gyda'r toriadau yn hytach nag anghytundeb er bod rhai yn cwestiynu effaith y fath o newidiadau.

3.4.3. Derbynwyd sylwadau tebyg I'r canlynol –

- Very surprised that there are not substantially more opps for staff reductions
- Os am redeg y Cyngor fel busnes rhaid gweithredu'r uchod I gyd
- This makes economic sense as if posts are not filled then why do we need the specific role
- Certainly manager posts should be amalgamated and salaries capped.

3.4.4. Er yr ymateb cadarnhaol hyn, roedd yna ymdeimlad fod angen cadw golwg ar bwysau staff oedd yn gorfod cymryd y baich ychwanegol / cwestiynu os oedd y fath leihad yn ‘short sighted’ yn enwedig ym Mhriffyrdd / Cynllunio o gofio’r pwysau ychwanegol fydd yn dod ein ffordd gyda datblygiadau Wylfa ayyb ac yn holi os oes modd rhoi targedau ariannol pendol I rai I alluogi cynnydd mewn incwm a parhad swyddi penodol.

3.5. **Codi mwy am rai o’r gwasanaethau rydym yn ei ddarparu yw’r thema nesaf** – 9 o argymhellion yn cael eu cynnig yma ac yn amrywio o –

- Cynyddu incwm I’r Oriel drwy roi mwy o bwyslais a rei farchnata
- Cynyddu’r ffioedd bws o 10% (£12) ar gyfer tocynnau cws a’r cynlun seddi gwag
- Cynyddu rhai ffioedd parcio ar draws yr Ynys
- Cynyddu ffioedd clwb gofal boreol o 75c I £1

3.5.1. Cyfanswm y thema hyn oedd £142,000 ac roedd yr ymateb yn fwy cytbwys nag a ragdybwyd yn wreiddiol er bod yna ymdeimlad rhwystredig yn dod drwyodd gan nifer. Cafwyd ymatebion tebyg i’r canlynol –

- Value for money should be considered if intending to increase fees
- Proposals seem fair and wouldn’t overtly affect my family
- These proposals seem very unfair to the poor
- Credaf fod cost cludiant uwchradd yn ddrud fel ag y mae. Ni ddylid cosbi pobl ifanc sydd yn mynd I’w hysgol dalgylch ac yn byw o fewn 3 milltir I’w hysgol.

3.5.2. Er hyn roedd rhai yn nodi nad oedd y cynnydd mewn costau bws yn deg ac roedd yr ymdeimlad yma yn cael ei gydnabod yn y cyfarfodydd amrywiol a gafwyd fel rhan o’r broses eleni. Nid oedd yn dod drosodd fel cynydd lle roedd ymdeimlad cryf yn y fforymau hynny ond roedd cydnabyddiaeth y byddai teuluoedd yn gwthio ‘nol ar y fath gynnydd pe bai’n cael ei wireddu ac y dylid disgwyl hynny pe bai cytundeb iddo gan y Pwyllgor Gwaith / Cyngor.

3.5.3. Roedd y farn yma yn cael ei adlewyrchu gan yr ifanc hefyd ac roedd y grwp yma yn nodi nad yw’r gwasanaeth ar hyn o bryd ‘up to scratch’ gyda nhw’n teimlo bod y bysus yn hen, yn aml yn hwyr a dim dealltwriaeth gan yr ysgol na’r dreifwyr yr effaith hynny arnynt os oeddent yn hwyr. Er hyn, roedd grwp bychan o’r ifanc yma yn gweld falle bod lle i fanteision ar ddefnyddio direct debit i dalu’r gost fel y gellid ei wneud yn fwy cyson drwy’r flwyddyn yn hytrach na un taliad mawr. Teimlad cyffredin ar hyn o bryd oedd bod y broses ddim yn cael ei wiethredu, ei reoli na’i fonitro’n effeithiol.

3.5.4. Yn ychwanegol i hyn, roedd peth anfodlonrwydd gyda y syniad o godi’r ffioedd parcio ar draws yr Ynys gan yr oedd ymdeimlad y byddai’n lladd ein trefi ac yn ei wneud yn anodd iawn I nifer fedru fforddio ymweld a nhw yn rheolaidd. Roedd barn lleiafrifol yn bodoli hefyd yn cydnabod nad yw prisiau parcio Ynys Mon yn cyd-fynd ag ardaloedd twristaidd eraill o gwmpas y Deyrnas Unedig ac y dylid ei gynyddu I gyfateb a’r ardaloedd hynny.

3.6. **Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol** yw'r thema nesa sydd yn cynnwys 5 o gynigion gyda gwerth o £1,135,000.

3.6.1. Mae'r thema hyn yn cydnabod ymateb gwahanol I'r rhai blaenorol lle roedd ymateb cytbwys a dwy ochrog.

3.6.2. Yn wir, mae'r ymateb I'r thema hwn wedi ei lywio gan ymateb eitha' caled yn erbyn y cynnig o doriadau pellach I grantiau diwylliant I fudiadau megis Ucheldre, papurau bro a Chwmni'r Fran Wen.

3.6.3. Roedd yr ymateb hwn yn niferus gyda'n agos i gant (100) o e-byst wedi ei derbyn dros gyfnod y Nadolig yn gwrthod derbyn y cynnig hwn gydag amryw un yn nodi pwysigrwydd y grantiau hynny I ddiwylliant yr ardal a'n iaith a'r angen nid yn unig i'w warchod ond falle edrych ar y cyfleon sydd yn bosib i'w gynyddu.

3.6.4. Roedd grwpiau'r ifanc yn cydnabod y byddai toriad o'r fath yn effeithio ar y genhedlaeth hyn.

3.6.5. Mae'r ymdeimlad wedi bod mor amlwg yn erbyn y cynnig yma mae'r Arwienydd wedi cysylltu'n ol ar ffurf e-bost gyda'r mwyafrif I'w hysbysu o'r camau nesaf a'r ffaith bod y Pwyllgor sgrwtini yn trafod y mater ynghyd a'r Pwyllgor Gwaith cyn bod penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cyngor ddiwedd mis Chwefror.

3.6.6. Nid oes ymdeimlad cryf yn ebyn nac o blaid y gweddill ond roedd yn galonogol clywed gan y grwp ffocws partneriaethol y dylsa bod cyfleoedd pellach i gyd-weithio ar faterion cysylltiedig fydd o ganlyniad o fudd i'r Cyngor a'r sefydliadau eraill.

3.7. **Trawsnewid Gwasanaeth neu newid y ddarpariaeth** oedd yn thema gafodd lawer o ymatebion yn gwrthwynebu un o'r cynigion perthnasol ar ffurf ymateb traddodiadol (llythyr).

3.7.1. Roedd y cynigion oedd yn berthnasol I'r thema yma yn amrywio o cyflogi plymar mewnol I leihau costau isgontractwyr, I leihau'r gyllideb ar gyfer costau cynnal a chadw goleuo strydoedd I gwella rheolaeth a defnydd mwy effeithlon gwahanol swyddogaethau ynghyd a cydweithio gyda'r darparwyr cerdd presennol I ddarparu gwersi mewn ffordd sy'n lleihau'r costau rheoli.

3.7.2. Cyfanswm yr arbedion arfaethedig yma oedd - £326,000.

3.7.3. Roedd yr ymatebion I'r mwyafrif o'r cynigion dan sylw yma yn gytbwys hefyd gyda nifer yn cefnogi tra bod eraill yn eu cwestiynu'n fwy. E.e. roedd cydnabyddiaeth ymysg partneriaid ei fod yn syniad da amlygu'r nod o'r angen i sicrhau fod mwy o gleientiaid yn medru aros yn eu cartrefi ond dylsa wneud y penderfyniad hyn wedi dadansoddi y fath effaith y bydda'r nod yma yn ei gael ar y gwasanaeth Iechyd a'r gwasanaethau brys.

3.7.4. Roedd y mwyafrif, os nad oll yr ymatebion yn cyd-fynd gyda'r dyhead o leihau'r costau goleuo stryd gydag amryw yn nodi syniadau pellach o safbwynt sut I wneud arbedion pellach yn y maes yma.

3.7.5. Roedd yr elfen o wella rheolaeth a defnydd mwy effeithlon o swyddogion traethau hefyd yn cael ei gydnabod fel maes y gellid cyd-weithio ymhellach gyda mudiadau eraill fel bod budd I'w gael gan bawb. Nodwyd y parodrwydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru I ymgymryd a'r drafodaeth partneriaethol hynny.

3.7.6. Yr un cynnig oedd yn sefyll allan o'r rhai a gynigwyd fel rhan o'r thema yma oedd yr un ynglyn a newid yn y ddarpariaeth cerdd bresennol I leihau'r costau rheolaeth. Cafwyd nifer helaeth (oddeutu 100) o ymatebion yn gwrthwynebu'r cynnig yma ac yn wir y pryder mwyaf oedd gan bob un o'r ymatebion oedd yr ansicrwydd parthed yr effaith fyddai'r fath newid yn ei gael ar y ddarpariaeth I blant yr Ynys. Derbynwyd gohebiaeth gan rieni, y Gwasnaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn a phobl ifanc oedd wedi gweld budd o'r ddarpariaeth yn y gorffennol.

3.7.7. Ymddengys o'r ymateb hyn fod gwaith gennym fel Cyngor os ydym am barhau gyda'r newid hyn o fod yn argyhoeddi'r unigolion a'r mudiadau cysylltiedig o'r nod na fydd effaith andwyol ar y ddarpariaeth yn dilyn newid o'r fath.

3.8. Rhoi'r Gorau i neu Drosglwyddo Gwasanaethau – roedd y thema hyn yn cynnwys 6 o gynigion oedd yn amrywio o gau Plas Penlan i roi'r gorau i fynychu Sioe Mon i leihau costau trafndiaeth cyhoeddus a throsglwyddo toiledau cyhoeddus i eraill i'w rhedeg.

3.8.1. Cyfanswm yr arbedion arfaethedig yma fel maent yn sefyll yw - £276,000.

3.8.2. Roedd yr ymateb yn eitha' cadarnhaol i'r arbedion yma gyda ymatebion yn cytuno gyda'r mwyafrif.

3.8.3. Yr un maes lle roedd pryder yn codi oedd yr cynnig parthed trosglwyddiad toiledau cyhoeddus I eraill gydag amryw un yn nodi ei bod yn holl bwysig medru cadw'r rhain ar agor ac y bydde medru codi swm am eu defnydd yn un ffordd o wneud hyn. Yr ymdeimlad cyson sydd yn cael ei nodi (gan bawb yn cynnwys yr ifanc) parthed y cynnig hyn yw pa mor bwysig ydynt inni fel cyrchfan twristiaeth.

3.8.4. Roedd y cynnig am rhoi'r gorau i bresenoldeb y Cyngor yn y Sioe yn derbyn ymateb cytbwys gyda rhai yn nodi ei fod yn syniad da ac y dylsa fo fod wedi ei wneud beth amser yn ol tra bod eraill yn nodi ei fod yn bwysig bod gan y Cyngor bresenoldeb cryf yn y Sioe yn flynyddol

3.9. Treth Cyngor – codiad pellach o 4% neu 1% ychwanegol I bwrpas gwarchod gwasanaethau cymdeithasol

3.9.1. Fel rhan o'r ymgynghoriad eleni, gofynwyd os oedd gan y trigolion yr awch neu'r parodrwydd I weld cynnydd o 4% ar gostau eu treth Cyngor ac os fydde ganddynt y parodrwydd I wneud hynny, a fyddent yn fodlon gweld codiad ychwanegol o 1% i bwrpas gwarchod gwasanaethau cymdeithasol.

3.9.2. Yn wir, roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn falle yn ddisgwyliedig gyda'r mwyafrif (72%) yn erbyn codiad o 4% ar y sail bod costau bywyd yn anodd fel mae'n sefyll a bod unrhyw gynydd mewn costau cysylltiedig yn ei wneud yn anodd iawn ar eu bywyd dydd I ddydd. Yr oedd yr ymateb hefyd yn cwestiynu beth fydda sail y codiad a beth fyddent yn ei dderbyn fel gwasanaeth oedd yn wahanol neu yn newydd I'r hyn sydd yn digwydd yn bresennol.

3.9.3. Tra bod yr ymateb hyn yn ddisgwyliedig roedd oddeutu 28% o ymatebion oedd yn gysylltiedig ar maes yma yn nodi y byddent yn fodlon gyda'r cynnydd ac eu bod yn gweld y fath gynydd yn fuddiol os yw'n golygu ei fod yn gwarchod gwasanethau. Roedd ymateb Cyngor Bro Llanfairpwll yn cyd-fynd a'r safbwynt yma.

4. Casgliad Terfynol

4.1. I gloi felly, ymddengys or ymatebion sydd yn ymwneud a'r math o arbedion sy'n cael ei cynnig o safbwynt cynigion cyllidebol cychwynol 2018/19 bod yna gydbwysedd amlwg, gyda rhai yn erbyn a rhai o blaid. Mae'r uchod yn dangos 'chydig o'r tensiynau hynny sy'n dilyn ac mae'n cydnabod y tri maes mwya' dadleuol sydd yn gysylltiedig a -

4.1.1.1. *Codiad yn nhreth y Cyngor*

4.1.1.2. *Newid yn y ddarpariaeth Cerdd*

4.1.1.3. *Gostyngiad yn y grantiau diwylliannol*

4.1.2. Noder yma hefyd yr ymdeimlad o rwystredigaeth gan yr ifanc tuag at gynnal costau'r ysgolion am y flwyddyn I ddod ar yr un raddfa a llynedd fydd yn golygu'r angen i'r 'sgolion hynny orfod ysgwyddo'r baich ychwanegol o £563,000. Tynnir sylw tuag at yr arbediad yma yn y casgliad ar y sail ei fod yn un o'r arbedion mwyaf a nodir fel rhan o'r ymgynghoriad gwreiddiol.

4.1.3. O ganlyniad i'r casgliadau hyn, argymhellir bod y Pwyllgor Sgrwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn cysidro'r ymateb fel rhan o'i trafodaethau cyn gwneud argymhellion terfynol a bod Panel Cyllid y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol yn ystyried y meysydd o arbedion sydd wedi eu cynnig gan ein trigolion fel rhan gyntaf y broses ar gyfer llunio cyllideb 2019/20.

Arbedion Cyllideb Refeniw 2018 /19 i'w rhoi ar Waith				
Gwasanaeth	Cyllideb	Cynigion Arbedion	Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb	Arbedion i gael eu gweithredu £
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Staffio Gwaith a Gweinyddu	Lleihau staffio yn y Gwasanaeth Priffyrdd fel mae swyddi'n dod yn wâg.	Dim Angen	116
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Trafnidiaeth Cyhoeddus : Costau Contract	Lleihau costau trafndiaeth cyhoeddus drwy dynnu un gwasanaeth rhwng Biwmares a Bangor.	EIA1	15
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Meysydd Parcio : Incwm	Cynyddu ffi maes parcio 'park & ride' Llanfair PG o 20c y dydd i 50c y dydd.	Dim Angen	5
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Golau Stryd : Cynnal a Chadw	Lleihau cyllideb atgyweirio a chynnal a chadw golau stryd o ganlyniad i fwy o fuddsoddi yng ngolau LED.	Dim Angen	20
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Fflyd : Trafnidiaeth	Lleihau costau cerbydau/ trafndiaeth drwy ddefnyddio mwy o gerbydau trydan ac LPG a thrwy ddefnyddio mwy o gerbydau wedi eu llogi.	Dim Angen	40
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Mân-ddaliadau : Incwm	Cynyddu'r incwm o Stad y Mân-ddaliadau drwy newid y cytundeb tenantiaeth i denantiaid newydd.	Dim Angen	25
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Adeiladau Gweinyddol : Gwasanaethau a Chyflenwadau	Lleihau deunydd glanhau drwy Adeiladau'r Cyngor.	Dim Angen	25
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Unedau Diwydiannol : Rhenti	Cynnyddu'r incwm o Unedau Diwydiannol y Cyngor pan yn adnewyddu'r contractau ar cytundebau prydles.	Dim Angen	35
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Adeiladau Gweinyddol : Atgyweirio a Cynnal a Chadw	Cyflogi Plymar mewnol i ymgymryd a gwaith cynnal a chadw arferol yn hytrach na defnyddio is-gontractwyr.	Dim Angen	20
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Gweinyddu Eiddo: Staffio	Lleihau staffio o fewn y Gwasanaeth Eiddo.	Dim Angen	35
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Toiledau Cyhoeddus : Costau Rhedeg	Trosglwyddo Toiledau Cyhoeddus i fudiadau eraill.	Dim Angen	30
Cyfanswm am Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo				366

Atodiad 3a

Arbedion Cyllideb Refeniw 2018 /19 i'w rhoi ar Waith				Atodiad 3a
Gwasanaeth	Cyllideb	Cynigion Arbedion	Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb	Arbedion i gael eu gweithredu £
Gwasanaethau Oedolion	Gofal Preswyl : Costau Rhedeg / Taliadau Contract	Ar ôl i Cynllun Gofal Ychwanegol Hafan Cefni agor, cau Plas Penlan. Arbedion a gynhrychir o gau'r cartref a'r ffaith y bydd trigolion a fyddai o'r blaen mewn cartref preswyl neu nyrsio yn cael eu rhoi yn Hafan Cefni lle mae cost gofal y pen yn is.	EIA2	190
Gwasanaethau Oedolion	Gofal Cleient : Taliadau Contract	Cynyddu nifer y cleientiaid sy'n prynu gofal drwy daliadau uniongyrchol o 10 cleient.	Dim Angen	30
Gwasanaethau Oedolion	Gofal Preswyl : Taliadau Contract	Newid y ddarpariaeth gwasanaeth gyda'r bwriad i adael mwy o gleientiaid gael cefnogaeth yn eu cartrefi eu hunain neu mewn gofal ychwanegol yn hytrach na chael eu rhoi mewn gofal preswyl.	EIA3	92
Gwasanaethau Oedolion	Gofal Cartref : Taliadau Contract	Rheoli'r gofyn am Wasanaeth Gofal Cartref drwy hyrwyddo mwy o rhwydweithiau cymorth personol a chymunedol i alluogi pobl i aros yn annibynnol. Nod o leihau oriau gofal cyffredinol gan 1%.	EIA4	38
Cyfanswm am Gwasanaethau Oedolion				350
Dysgu a Diwylliant	Oriel Ynys Môn : Incwm	Cynyddu incwm Oriel Ynys Môn drwy rhoi fwy o bwyslais ar farchnata.	Dim Angen	15
Dysgu a Diwylliant	Addysg Canolog : Taliadau Contract	Lleihau'r costau rheoli am y gwasanaeth gwersi cerdd drwy adolygu'r trefniadau comisiynnu ar y cyd hefo tiwtoriaid cyfredol tra'n parhau i roi'r un gwasanaeth i'r plant.	EIA6	79
Dysgu a Diwylliant	Addysg Canolog : Staffio	Lleihau costau staffio canolog o fewn y Gwasanaeth Dysgu.	Dim Angen	30
Dysgu a Diwylliant	Llyfrgelloedd : Costau Rhedeg	Trawsnewid ffurf y Gwasanaeth Llyfrgell – lleihau Llyfrgelloedd rhan amser.	Dim Angen	48
Dysgu a Diwylliant	Cyllideb ysgolion dirprwyedig : Cynnal a Chadw Tiroedd	Ail dendro'r gontract torri graswellt i lotiau llai er mwyn cael prisiau is erbyn Ebrill 2018.	Dim Angen	50
Dysgu a Diwylliant	Addysg Canolog : Incwm	Cynnyddu'r ffi Clwb Gofal Bore o £0.75 i £1.00.	EIA9	15

Arbedion Cyllideb Refeniw 2018 /19 i'w rhoi ar Waith				Atodiad 3a
Gwasanaeth	Cyllideb	Cynigion Arbedion	Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb	Arbedion i gael eu gweithredu £
Dysgu a Diwylliant	Addysg Ganolog : Staffio	Cyfuno dwy rôl â'r wahan o fewn y Gwasanaeth Dysgu i un swydd.	Dim Angen	21
Dysgu a Diwylliant	Cyllideb Ysgolion dirprwyedig : Cyllideb ADY	Lleihau'r gyllideb ADY sydd wedi ei dirprwyo i ysgolion drwy'r fformiwla.	EIA10	100
Cyfanswm am Dysgu a Diwylliant				358
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Incwm Canolfan Hamdden Caergybi	Allanolir caffi yng Nghanolfan Hamdden Caergybi.	Dim Angen	5
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Morwrol : Staffio	Gwella'r rheolaeth a'r effeithiolrwydd o'r Wardeiniaid Traeth a'r Cynorthwywyr Llithrfa.	Dim Angen	20
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Gwarchod y Cyhoedd : Incwm	Cynyddu cyllidebau incwm ar gyfer Gwarchod y Cyhoedd o ganlyniad i newidiadau yn y ddeddfwriaeth.	Dim Angen	18
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Gwarchod y Cyhoedd : Cyflenwadau a Gwasanaethau	Arbedion effeithlonrwydd cyffredinol ar gyllidebau gwariant.	Dim Angen	12
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Datblygu Economaidd : Staffio	Rhesymoli capasiti o fewn cynllunio, JPPU, Gwarchod y Cyhoedd a Datblygu Economaidd.	Dim Angen	70
Cyfanswm am Rheoleiddio a Datblygu Economaidd				125
Gwasanaethau Tai	Tai : Incwm	Adolygu'r costau staffio sy'n cael eu talu gan CRT.	Dim Angen	10
Gwasanaethau Tai	Tai : Incwm	Cynyddu'r ffi am waith EPC.	Dim Angen	4
Gwasanaethau Tai	Tai : Incwm	Cynyddu'r ffi a godir ar Gymdeithasau Tai am weinyddu enwebiadau.	Dim Angen	4
Gwasanaethau Tai	Tai : Incwm	Codi ffi rheoli ar unrhyw grant dderbynir gan y Gwasanaeth am unrhyw weithgaredd statudol.	Dim Angen	5
Cyfanswm am Gwasanaethau Tai				23
Adnoddau	Archwilio Mewnol : Staffio	Dileu swydd y Swyddog Gwrth Dwyll.	Dim Angen	24
Cyfanswm am Adnoddau				24
Trawsnewid	Cyfathrebu: Cyflenwadau a Gwasanaethau	Lleihau'r gost o fod yn bresennol yn Sioe Môn.	Dim Angen	2

Arbedion Cyllideb Refeniw 2018 /19 i'w rhoi ar Waith				Atodiad 3a
Gwasanaeth	Cyllideb	Cynigion Arbedion	Aseiad o'r effaith ar gydraddoldeb	Arbedion i gael eu gweithredu £
Trawsnewid	Cyfathrebu : Incwm	Creu incwm drwy werthu lle hysbysebu ar wefan y Cyngor.	Dim Angen	6
Trawsnewid	Perfformio : Staffio	Dileu swydd wag o'r sefydliad.	Dim Angen	21
Trawsnewid	TG : Ymgynghoriaeth	Lleihau costau Ymgynghoriaeth TG.	Dim Angen	5
Trawsnewid	AD : Hyfforddiant	Lleihau cyllideb Hyfforddiant Rheoli.	Dim Angen	3
Trawsnewid	AD : Trafeilio	Lleihau cyllideb lwfans trafeilio AD.	Dim Angen	2
Trawsnewid	AD : Incwm	Creu incwm ychwanegol drwy ddarparu ymgynghoriaeth AD.	Dim Angen	1
Cyfanswm am Trawsnewid				40
Corfforaethol	Rheoli Corfforaethol : Staffio	Dileu'r Gyllideb Dros Ben.	Dim Angen	45
Corfforaethol	Partneriaeth Ynys Môn / Gwynedd : Cyfraniad	Dileu'r Gyllideb Dros Ben.	Dim Angen	60
Corfforaethol	Rheoli Risk : Cyflenwadau a Gwasanaethau	Dileu'r Gyllideb Dros Ben.	Dim Angen	31
Corfforaethol	Corfforaethol a Democrataidd : Costau Pensiwn	Leihau'r gyllideb i adlewyrchu gostyngiad yn y nifer o bensynwyr.	Dim Angen	100
Corfforaethol	Cyllido Cyfalaf : DRI	Adolygu Polisi'r DRI.	Dim Angen	1,000
Cyfanswm am Corfforaethol				1,236
CYFANSWM CYNIGION ARBEDION				2,522

ARBEDION CYLLIDEB REFENIW DDIM I'W RHOI AR WAITH

Gwasanaeth	Cyllideb	Cynigion Arbedion	Cyfeirnod Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Arbedion i gael eu Gweithredu
Gwasanaethau Oedolion	Arlwyo : Costau Rhedeg	Darparu ar gyfer cartrefi preswyl o 2 gegin gyda'r nod hirdymor o leihau i lawr i 1 gegin.	EIA5	100
Dysgu a Diwylliant	Diwylliant : Grantiau	Gostyngiadau pellach yn y lefel o grantiau diwylliant i sefydliadau megis Canolfan Ucheldre, Cwmni Frân Wen a phapurau newydd y gymuned.	EIA7	20
Dysgu a Diwylliant	Trafnidiaeth Ysgolion : Incwm	Cynyddu'r ffi ar gyfer cardiau bws o dan y cynllun sedd wag gan 10% (£12) ar gyfer teithiau bws o fewn 3 milltir o ysgolion uwchradd a 2 filltir o ysgolion cynradd.	EIA8	10
Dysgu a Diwylliant	Cyllidebau Ysgolion wedi eu Dirprwyo	Cynnal y gyllideb ysgol ar lefel 2017/18 gan ei gwneud yn ofynnol i ysgolion i gyllido'r codiadau cyflog a chwyddiant o gyllidebau presennol.	EIA10	563
Dysgu a Diwylliant	Adeiladau Ysgolion : Atgyweirio a Chynnal a Chadw	Ddirprwyo mwy o'r gyllideb i ysgolion a chaniatáu i gaffael eu hunain atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw ysgolion.	Dim Angen	100
CYFANSWM YR ARBEDION HEB EU GWEITHREDU				793

CYNIGION CYLLIDEB TERFYNOL 2018/19 FESUL GWASANAETH

ATODIAD 4

	Cyllideb Ddisymud yn dilyn y Setliad Dros Dro	Newid i'r Gyllideb Ddisymud	Arbedion	Pwysau ar y Gyllideb	Cynigion Cyllideb Arfaethedig Derfynol 2017/18
	£	£	£	£	£
Addysg a Diwylliant	48,969,980	(28,300)	(358,000)	-	48,583,680
Gwasanaethau Oedolion	24,962,080	(212,870)	(350,000)	172,000	24,571,210
Gwasanaethau Plant	8,224,270	(64,290)	-	-	8,159,980
Gwasanaethau Tai	1,006,120	(62,610)	(23,000)	-	920,510
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	14,958,530	(124,320)	(366,000)	180,000	14,648,210
Economaidd aC Adfywio Cymunedol	3,974,270	(153,050)	(125,000)	-	3,696,220
Trawsnewid Corfforaethol	3,920,840	643,850	(100,000)	-	4,464,690
Adnoddau (cynnwys Budd-daliadau a roddir)	2,945,957	(215,610)	(24,000)	-	2,706,347
Busnes y Cyngor	1,547,100	(52,140)	-	-	1,494,960
Rheoli Corfforaethol	729,300	(27,510)	(45,000)	-	656,790
Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth	111,238,447	(296,850)	(1,391,000)	352,000	109,902,597
Costau Corfforaethol a Democraidaidd	1,945,830	1,273,740	(131,000)	-	3,088,570
Ad-daliadau i CRT	(621,950)	-	-	-	(621,950)
Ardollau	3,378,031	(17,704)	-	-	3,360,327
Cyllido Cyfalaf	8,511,462	-	(1,000,000)	-	7,511,462
Rhyddhad Trethi Dewisol	60,000	-	-	-	60,000
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	5,524,000	-	-	-	5,524,000
Cyfanswm Cyllidebau wedi eu Dyrannu	130,035,820	959,186	(2,522,000)	352,000	128,825,006
Cronfeydd wrth gef Cyffredinol ac Argyfyngau Eraill	2,301,278	(610,978)	-	87,500	1,777,800
Cronfa wrth gefn Gwasanaethau Plant	-	-	-	267,853	267,853
Cyfanswm Cyllideb 2018/19	132,337,098	348,208	(2,522,000)	707,353	130,870,659
Cyllidwyd gan					
Grant Cynnal Refeniw	72,306,940	930,698	-	-	73,237,638
Trethi Annomesig	22,617,197	(42,998)	-	-	22,574,199
Y Dreth Gyngor yn cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor	35,202,173	(336,651)	-	267,853	35,133,375
Arian Wrth Gefn y Cyngor	-	-	-	-	-
Cyfanswm Cyllid	130,126,310	551,049	-	267,853	130,945,212
Balans i'r Gronfa Wrth Gefn Cyffredinol					74,553

Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gynnigion Cyllidol 2018/19**

Hanes adolygu:		
Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau

Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol	
1 - Beth yw'r cynnig cyllidol sy'n cael ei asesu?	Diddymu un siwrna' bws yn ei chyfanrwydd (siwrna' o Amlwch i Llangefni am 0713) o ddydd Llun i ddydd Sadwrn (gwasanaeth 32). Peidio gweithredu y siwrneiau canlynol ar ddydd Sadwrn: 1234 o Llannerch-y-medd i Fangor, 1418 o Fangor i Llannerch-y-medd, 1532 o Carmel i Fangor a 1640 o Fangor i Rhos-y-bol (gwasanaeth 63).
2 - Pwy yw'r Swyddog arweiniol ar gyfer y cynnig yma?	Iwan Cadwaladr
3 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sydd wedi ei gysidro eisoes?	Cynnig newydd.
4 – Pa grwp o randdeiliaid fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma?	Teithwyr bws fyddai yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma.
5 – Sut bydd y grwp hwn yn cael eu heffeithio?	Ni fydd y siwrneiau uchod ar gael i deithwyr.

Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol

6 – Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynnig arall all effeithio ar y grwp hyn o bobl

Na ddim yn ymwybodol.

7 – Oes yna risgiau yn perthyn i'r cynnig yma? Os oes, plis rhestrwch nhw

Ni fyddai teithwyr arferol y siwrneiau dan sylw yn gallu eu defnyddio mwyach.

8 – Fydde 'na risgiau cysylltiedig yn dilyn penderfyniad i gytuno a'r cynnig

Er enghraifft, lleihau gwariant priffyrdd, yn cynyddu'r tebygolrwydd am fwy o potholes fydd o ganlyniad yn cynyddu'r risg o hawliadau yswiriant.

Na ddim yn ymwybodol.

8 – Ydych chi'n tybio bod angen proses ymgynghori ychwanegol (h.y. yn ychwanegol i'r broses cyffredinol) cyn gweithredu'r cynnig arfaethedig

Na ddim yn credu fod angen proses ymgynghori ychwanegol.

Cam 2: Canlyniad yr asesiad

1 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol (sef crynodeb o'r tabl uchod).

Wrth dorri y siwrneiau dan sylw mi fyddai yn golygu fod y teithwyr arferol yn cael eu heffeithio. Oherwydd toriad yn y nifer o fysiau yn gweithredu cytundeb 53D (gweithredu rhwng Biwmares – Bangor – Biwmares) ac oherwydd hynny gostyngiad yn y pris nid oes angen symud ymlaen gyda'r penderfyniad i gwtogi y 5 siwrna' dan sylw.

2 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?

Dim angen cwtogi y 5 siwrna' dan sylw. Y newidiadau i siwrneiau cytundeb 53D (gweithredu rhwng Biwmares – Bangor – Biwmares) ar waith ers ddydd Llun 9fed o Hydref 2017.

3 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad effaith yma?

(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma).

Dim angen symud ymlaen gyda'r penderfyniad i gwtogi y 5 siwrna' dan sylw oherwydd y newidiadau i siwrneiau cytundeb 53D (gweithredu rhwng Biwmares – Bangor – Biwmares).

Tudalen 168

Cam 3 – Cynllun Gweithredu

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori

Cyf	Gweithrediadau arfaethedig	Swyddog Arweiniol	Amserlen

Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gynnigion Cyllidol 2018/19**

Hanes adolygu:		
Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1	30.01.18	Gwreiddiol

Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol	
1 - Beth yw'r cynnig cyllidol sy'n cael ei asesu?	Datblygiad Tai Gofal Ychwanegol yn Llangefni – Hafan Cefni sydd yn newid y ddarpariaeth presennol ac yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl gael denogaeth yn eu tai eu hunain neu mewn tai gofal ychwanegol
2 - Pwy yw'r Swyddog arweiniol ar gyfer y cynnig yma?	Alwyn Rhys Jones
3 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sydd wedi ei gysidro eisoes?	Newydd
4 – Pa grwp o randdeiliaid fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma?	Rhanddeiliaid Mewnol: Staff Cyngor Sir Ynys Môn (tebyg I weithwyr cymdeithasol, swyddogion Tai ayyb) Staff Grwp Pennaf Staff Plas Penlan Aelodau Etholedig Lleol

Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol	
	<p>Rhanddeiliaid Allanol: Trigolion Plas Penlan a'u teuluoedd / gofalwyr Defnyddwyr Gwasanaeth o'r gymuned lleol Teuluoedd / Gofalwyr o ddefnyddwyr Darparwyr Gwasanaeth a gweithwyr gofal fydd yn rheoli gwasanaethau cefnogol 'dom care' Proffesiynwyr Iechyd – (GP's / Nyrsys / Ffysio's / OT's ayyb)</p>
5 – Sut bydd y grwp hwn yn cael eu heffeithio?	<p>Fydd y grwp yma o bobl yn cael eu heffeithio gan y newid gan y bydd cyfle I rai symud yn syth I Hafan Cefni / bydd eraill yn cael eu heffeithio drwy newid yn y ddarpariaeth gyfredol yn lleol / bydd teuluoedd yn gorfod delio gyda'r newid a bydd rhaid I staff a darparwyr gwasanaeth yn gorfod ymdopi gyda trefniadau newydd</p>
6 – Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynnig arall all effeithio ar y grwp hyn o bobl	<p>Nac ydwyf</p>
7 – Oes yna risgiau yn perthyn i'r cynnig yma? Os oes, plis rhestrwch nhw	<p>Risg o bobl yn amharod i newid eu ffordd o fyw presennol yn credu pryder wrth newid Risg o fod y model llenwi'r ddarpariaeth newydd (Hafan Cefni) yn cael effaith ar yr arbedion</p>
8 – Fydde 'na risgiau cysylltiedig yn dilyn penderfyniad i gytuno a'r cynnig	<p>Risg o gynyddu'r galw ar y gwasanaethau cefnogol – h.y. mwy o alw yn y gymuned gan fod mwy o bobl yn medru byw yn annibynnol</p>
Er enghraifft, lleihau gwariant priffyrdd,	

Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol	
yn cynyddu'r tebygolrwydd am fwy o potholes fydd o ganlyniad yn cynyddu'r risg o hawliadau yswiriant.	
8 – Ydych chi'n tybio bod angen proses ymgynghori ychwanegol (h.y. yn ychwanegol i'r broses cyffredinol) cyn gweithredu'r cynnig arfaethedig	Nac oes, ymgynghori cynhwysfawr wedi digwydd eisoes a digwyddiadau hyrwyddo'r ddarpariaeth newydd wrth waith.

Cam 2: Canlyniad yr asesiad	
1 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol (sef crynodeb o'r tabl uchod).	<p>Y prif effaith o'r newid yw bod unigolion yn medru parhau l fyw yn annibynnol heb ofalaeth y sector gyhoeddus mewn ffordd sydd yn gyd-lynnus.</p> <p>O safbwynt yr risgiau byddwn yn –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trafod yn rheolaidd gyda Pennaf parthed disgwyliadau llenwi'r ddarpariaeth newydd • Parhau l drin a trafod materion yn ymwneud a newid yn y ddarpariaeth gyda'r unigolion perthnasol a'i teuluoedd • Rhoi gwybod l'r AE lleol o'r newid a'r hyn sy'n cael ei wneud l reoli'r gofyn • Cyd-weithio'n agosach gyda'r Bwrdd lechyd a'r cymunedau l alluogi unigolion l dderbyn y cefnogaeth angenrheidiol yn gymunedol e.e. hybiau cymunedol ayyb.

Cam 2: Canlyniad yr asesiad	
2 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?	Mae'r newid yma yn cyd-fynd a disgwyliadau'r ddeddf llesiant newydd
3 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad effaith yma? (Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma).	Nac oes

Cam 3 – Cynllun Gweithredu

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori

Cyf	Gweithrediadau arfaethedig	Swyddog Arweiniol	Amserlen

Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gynnigion Cyllidol 2018/19**

Hanes adolygu:		
Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1	30.01.18	Gwreiddiol

Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol	
1 - Beth yw'r cynnig cyllidol sy'n cael ei asesu?	Newid y ddarpariaeth gwasanaeth gyda'r nod o sicrhau bod mwy o gleientiaid yn medru aros yn eu cartrefi neu yn cael eu lleoli mewn tai gofal ychwanegol yn hytrach na chael eu rhoi mewn cartrefi preswyl
2 - Pwy yw'r Swyddog arweiniol ar gyfer y cynnig yma?	Alwyn Rhys Jones
3 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sydd wedi ei gysidro eisoes?	Y cynnig yn newydd i Gyngor Sir Ynys Môn, ond mae'r model darparu a gynigir yn gyson gyda gwreidd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
4 - Pa grwp o randdeiliaid fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma?	Pobl Hyn Unigolion gyda Anabledd

Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol	
<p>5 – Sut bydd y grwp hwn yn cael eu heffeithio?</p>	<p>Yn y mwyafrif o achosion fe fyddwn yn cyflwyno y newid yma wrth ddelio gyda achosion newydd sydd yn dod i'n sylw. Oherwydd hyn ni fydd y mwyafrif o unigolion yn gweld newid penodol, ond fe fydd profiad unigolion o ddod mewn cyswllt gyda'n gwasanaeth ni yn wahanol.</p> <p>Y canlyniad I unigolion yw y byddwn yn fwy tebygol o cynnig unai gwasanaeth neu cefnogaeth ail alluogi a chyngor a chyfeiriad I adnoddau yn y gymuned, lleoliad mewn tai gofal ychwanegol ac nid lleoliad hirr dymor mewn cartref preswyl</p>
<p>6 – Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynnig arall all effeithio ar y grwp hyn o bobl</p>	<p>Ceisio lleihau nifer mewn cartrefi preswyl a cefnogi byw yn annibynnol yn y gymuned neu mewn Tai Gofal Ychwanegol</p>
<p>7 – Oes yna risgiau yn perthyn i'r cynnig yma? Os oes, plis rhestrwch nhw</p>	<p>Risg o cynydd yn y niferoedd o bobl hyn yn lleihau yr effaith o newid mewn ymagwedd</p> <p>Mae risg nad yw cymunedau a teuluoedd yn gallu cynnig y lefel o gefnogaeth sydd ei angen I wneud hyn lwyddo</p>
<p>8 – Fydde 'na risgiau cysylltiedig yn dilyn penderfyniad i gytuno a'r cynnig</p> <p>Er enghraifft, lleihau gwariant priffyrdd, yn cynyddu'r tebygolrwydd am fwy o potholes fydd o ganlyniad yn cynyddu'r risg o hawliadau yswiriant.</p>	<p>Risg o gynyddu'r galw ar y gwasanaethau cefnogol – h.y. mwy o alw yn y gymuned gan fod mwy o bobl yn medru byw yn annibynnol</p>

Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol	
8 – Ydych chi'n tybio bod angen proses ymgynghori ychwanegol (h.y. yn ychwanegol i'r broses cyffredinol) cyn gweithredu'r cynnig arfaethedig	Nagoes, ond bydd angen sicrhau bod ein prosesau asesu yn cwrdd ac anghenion stadudol

Cam 2: Canlyniad yr asesiad	
1 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol (sef crynodeb o'r tabl uchod).	Newid y cynnig gweithredol ir cyhoedd. Wrth sicrhau ymateb cyson a teg fe fyddwn yn lliniaru y risgiau cysylltiedig
2 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?	Mae'r newid yma yn cyd-fynd a disgwyliadau'r ddeddf llesiant newydd
3 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad effaith yma?	Nagoes.

Cam 2: Canlyniad yr asesiad

(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma).

Cam 3 – Cynllun Gweithredu

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori

Cyf	Gweithrediadau arfaethedig	Swyddog Arweiniol	Amserlen

Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gynnigion Cyllidol 2018/19**

Hanes adolygu:		
Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1	30.01.18	Gwreiddiol

Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol	
1 - Beth yw'r cynnig cyllidol sy'n cael ei asesu?	<p>Rheoli Gofyn am Ofal Cartref drwy annog cyfranogaeth cymunedol a rhwydwaith unigolion yw cefnogi l barhau yn annibynnol</p> <p>Mae ein cynnig o ofal cartref yn ran sylweddol o'r cynnig presennol gan wasanaethau cymdeithasol. Yn raddol dros amser rydym yn ceisio newid y cynnig wrth roi ffocws cryfach ar "beth sydd o bwys l unigolion" a ystyried eu asedau personol. Adnabod y newid yma y mae yr arbediad han</p>
2 - Pwy yw'r Swyddog arweiniol ar gyfer y cynnig yma?	Alwyn Rhys Jones
3 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sydd wedi ei gysidro eisoes?	Y cynnig yn newydd i Gyngor Sir Ynys Môn, ond mae'r model darparu a gynigir yn gyson gyda gwreidd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol	
4 – Pa grwp o randdeiliaid fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma?	Pobl Hyn Unigolion gyda Anabledd
5 – Sut bydd y grwp hwn yn cael eu heffeithio?	Yn y mwyafrif o achosion fe fyddwn yn cyflwyno y newid yma wrth ddelio gyda achosion newydd sydd yn dod in sylw. Oherwydd hyn ni fydd y mwyafrif o unigolion yn gweld newid penodol, ond fe fydd profiad unigolion o ddod mewn cyswllt gyda'n gwasanaeth ni yn wahanol. Y canlyniad I unigolion yw y byddwn yn fwy tebygol o cynnig unai gwasanaeth neu cefnogaeth ail alluogi a chyngor a chyfeiriad I adnoddau yn y gymuned, a nid gwasanaeth hir dymor
6 – Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynnig arall all effeithio ar y grwp hyn o bobl	Ceisio lleihau nifer mewn cartrefi preswyl a cefnogi byw yn annibynnol yn y gymuned neu mewn Tai Gofal Ychwanegol
7 – Oes yna risgiau yn perthyn i'r cynnig yma? Os oes, plis rhestrwch nhw	Risg o cynydd yn y niferoedd o bobl hyn yn lleihau yr effaith o newid mewn ymagwedd Mae risg nad yw cymunedau a teuluoedd yn gallu cynnig y lefel o gefnogaeth sydd ei angen I wneud hyn lwyddo
8 – Fydde 'na risgiau cysylltiedig yn dilyn penderfyniad i gytuno a'r cynnig	Na, dim mwy na'r hyn a adnabuwyd eisoes.

Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol	
Er enghraifft, lleihau gwariant priffyrdd, yn cynyddu'r tebygolrwydd am fwy o potholes fydd o ganlyniad yn cynyddu'r risg o hawliadau yswiriant.	
8 – Ydych chi'n tybio bod angen proses ymgynghori ychwanegol (h.y. yn ychwanegol i'r broses cyffredinol) cyn gweithredu'r cynnig arfaethedig	Nagoes, ond bydd angen sicrhau bod ein prosesau asesu yn cwrdd ac anghenion stadudol

Cam 2: Canlyniad yr asesiad	
1 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol (sef crynodeb o'r tabl uchod).	Newid y cynnig gweithredol ir cyhoedd. Wrth sicrhau ymateb cyson a teg fe fyddwn yn lliniaru y risgiau cysylltiedig
2 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?	Nagoes

Cam 2: Canlyniad yr asesiad

<p>3 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad effaith yma?</p> <p>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma).</p>	Nagoes.

Cam 3 – Cynllun Gweithredu

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori

Cyf	Gweithrediadau arfaethedig	Swyddog Arweiniol	Amserlen

Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gynnigion Cyllidol 2018/19**

Hanes adolygu:		
Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1	30.01.18	Gwreiddiol

Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol	
1 - Beth yw'r cynnig cyllidol sy'n cael ei asesu?	Lleihau y niferoedd o geginau sydd yn darparu arlwyyo l boblogaeth cartrefi mewnol y cyngor sir l unai 2 neu 3
2 - Pwy yw'r Swyddog arweiniol ar gyfer y cynnig yma?	Alwyn Rhys Jones
3 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sydd wedi ei gysidro eisoes?	Newidiadau wedi eu ystyried llynedd. Hwn yn fwy penodol ac yn targedu lleihau nifer ceginau l 2 neu 3
4 - Pa grwp o randdeiliaid fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma?	Pobl Hyn Swyddogion a staff y cyngor

Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol	
5 – Sut bydd y grwp hwn yn cael eu heffeithio?	Pobl Hyn- Bydd y prydau sydd yn cael eu darparu ir cartrefi yn dod o unai 2 neu 3 cegin, gyda prydau yn cael eu trosglwyddo I sicrhau hyn. Staff- Lleihad yn y niferoedd o staff sydd eu hangen I cefnogi arlwygo
6 – Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynnig arall all effeithio ar y grwp hyn o bobl	Cau Plas Penlan yn effeithio ar staff arlwygo yno
7 – Oes yna risgiau yn perthyn i'r cynnig yma? Os oes, plis rhestrwch nhw	Risg o weld dirywiad yn hinsawdd y prydau sydd yn cael eu cynnig Mae risg y bydd dewis o brydau I breswylwyr yn lleihau
8 – Fydde 'na risgiau cysylltiedig yn dilyn penderfyniad i gytuno a'r cynnig Er enghraifft, lleihau gwariant priffyrdd, yn cynyddu'r tebygolrwydd am fwy o potholes fydd o ganlyniad yn cynyddu'r risg o hawliadau yswiriant.	O bosib byddai rhai effeithiau ar gyflenwyr bwyd gyda cyfle I ordro bwyd yn fwy effeithiol gyda llai o wast

---	--	--	--	--	--

Funding Body	Sum funded & % of total	Funding Secured? Yes / No	If not secured, indicate status of negotiations
	£ (%)		
	£ (%)		
	£ (%)		

Section 9: Project Management

- Explain the proposed project management structure (e.g. use of PRINCE 2), key management personnel and project timetable.
- Where relevant, indicate the proposed approach to procurement.
- Consider provision for benefits management and realisation.
- Identify any significant management issues e.g. legal, contractual, accommodation, staff or TUPE issues.
- Is any external consultancy support required.

The company that will get the contract will manage the project in regards to new layout plan and equipment assembly.

We as the Mon Actif Management team will decide on inclusive equipment with guidance from the company and consultation with the NERS team and customers.

Once funding is in place we can go out to tender using the ESPO framework agreement.

Capital Funding Bid Form V1

Section 10: Monitoring and Evaluation Arrangements

- Indicate arrangements for regular monitoring of the project's progress.*
- State proposed evaluation arrangements e.g. when it will happen, who will do it, what factors will be evaluated?.*

The Performance co-ordinator will update on a month basis in regards to direct debit uptake to ensure we reach our target of 150 new members within 3 months. This monitoring will continue to ensure the figures are sustained.

Our Performance Manager will be reporting monthly on usage figures to ensure that the footfall increase is regular and consistent.

In regards to evaluation initial evaluation will be done after the first three months, we will evaluate the following:

- Increase number of Direct Debit members.
- Increase in footfall.
- Customer survey and feedback.

We will also repeat this process after 12 months.

Capital Funding Bid Form V1

Main Sections of Capital Bid Project Brief Form

Section A – completed for Bid SUBMISSION

i. Project Name, Description and Objectives

A brief summary of the project and its objectives i.e. what is to be achieved by the project.

ii. Justification and Reasons for the Project

Setting out the reasons why the project is necessary and how it helps meet Corporate and Service Objectives and addresses items in the Deputy Leader's annual report. The various options that have been considered and the recommended option are also set out.

iii. Scoring against the Corporate Plan Priorities and Other Issues

To ensure that projects are appraised on a consistent and objective basis and are aligned to Corporate Plan priorities. Other important issues that are not specifically mentioned in the Corporate Plan are also taken into account e.g. Health and Safety and Risk Management issues. Weightings are applied to the scores with Corporate Plan priorities and statutory requirements carrying the most weight.

iv. Cost and Funding Profile

Estimates of the costs of the project and timing of these costs and the funding sources investigated and identified.

v. Additional Revenue Budget Impact of the Project

Lifetime revenue costs for the project

vi. Consultation

That has taken place with community groups etc.

Section B – completed for successful Bids

vii. Project Outcomes and Scope

The expected and required deliverable/products/outcomes that the proposed project

Capital Funding Bid Form V1

must create or acquire and the major areas, functions and processes to be addressed

during the project, is that, what is “in” and what is “out”.

viii. Outline Project Plan

The main stages of the project are set out together with target dates for their completion.

ix. Project Constraints, Assumptions and risks

Restrictions and expectations on time, resources, funding and/or the eventual outcome

and the key risks facing the project.

x. Outline Business Benefits/Business Case

A brief summary of the business benefits that are expected to stem from the project.

xi. Spend Profile

Giving expected spend figures for the four quarters of each financial year.

xii. Planning Permission and Building Regulations Approval

Confirming whether or not planning permission is required and has been granted and whether Building Regulations approval has been granted. If either has not been granted

the timescale for making the submission must be stated.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODD I:	PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	19 CHWEFROR 2018
PWNC:	POLISI CYMORTH DEWISOL TUAG AT Y DRETH GYNGOR
AELOD(AU) PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH (DEILYDDLLOD PORTFFOLIO - CYLLID)
PENNAETH GWASANAETH:	MARC JONES - PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151
AWDUR YR ADRODDIAD: FFÔN: E-BOST:	GERAINT H JONES - RHEOLWR GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU 01248 752651 ghifi@ynysmon.gov.uk
AELODAU LLEOL:	D/B
A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau	
<u>ARGYMHELLION</u>	
<ul style="list-style-type: none"> Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i Gyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor llawn) ei fod, yn y cyfarfod ar 28 Chwefror 2018, yn cymeradwyo Polisi Cymorth Dewisol tuag at y Dreth Gyngor o dan adran 13A (1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (DCLIL 1992) - fel y manylir yn Atodiad A. Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018, ei fod yn dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pŵer i ddi-ddymu, ail-ddeddfu a / neu ddiwygio ei Bolisi Cymorth Dewisol tuag at y Dreth y Cyngor. Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018, ei fod yn dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 benderfynu ar geisiadau a wnaed o dan adran 13A(1)(c) o DCLIL 1992 ac unrhyw ddiwygiad neu ail-ddeddfiad ohoni, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ganllawiau polisi a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol / Llywodraeth Cymru, y Cyngor llawn neu'r Pwyllgor Gwaith. 	
<u>Y RHESYMAU A'R CEFNDIR</u>	
Mae Adran 13A, is-adrannau (1)(c);(6) a (7), o DCLIL 1992 (yn unol ag Adran 10 Deddf Llywodraeth Leol 2012) yn rhoi pŵer i awdurdod bilio ostwng y dreth sy'n daladwy fel a ganlyn:-	
(1)(c) mewn unrhyw achos, gellir ei lleihau i'r fath raddau (neu, os yw'r swm wedi'i ostwng o dan baragraffau (a) neu (b), i'r fath raddau pellach) y mae'r awdurdod bilio ar gyfer yr ardal lleol yn ystyried ei fod yn addas;	
(6) Mae'r grym o dan is-adran (1) (c) yn cynnwys grym i ostwng swm i ddim; a	
(7) Gellir defnyddio'r grym o dan is-adran (1) (c) mewn perthynas ag achosion penodol neu drwy benderfynu ar ddsbarth o achosion lle bydd yr atebolrwydd yn cael ei ostwng i'r fath raddau ag y darperir ar ei gyfer yn y penderfyniad.	
Mae hyn yn golygu, y gall Cyngor Sir Ynys Môn roi cymorth dewisol mewn perthynas ag unrhyw swm dreth gyngor sy'n ddyledus, hyd yn oed os yw'r Cyngor wedi dyfarnu gostyngiad eisoes o dan ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor trwy Adran 13A, is-adran (1) (b).	

Ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor llawn wedi mabwysiadu unrhyw Bolisi Cymorth Dewisol o'r fath ar gyfer y Dreth Gyngor ac, felly, nid oes unrhyw drefniadau dirprwyo wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor llawn i ystyried ceisiadau o'r fath. Ar hyn o bryd byddai'n rhaid i'r Cyngor llawn ystyried pob cais yn unigol. Hyd yma ni wnaed unrhyw gais i'r Cyngor ystyried achos unigol nac i gyflwyno dosbarthiadau penodol y gellid darparu'r cymorth dewisol oddi tanynt.

Fodd bynnag, yn ystod y misoedd diwethaf gwnaed sylwadau gan drethdalwyr a sefydliadau y dylai'r Cyngor llawn, o dan rai amgylchiadau, fabwysiadu polisi i ddyfarnu Cymorth Dewisol tuag at y Dreth Gyngor ar gyfer dosbarthiadau o unigolion neu anheddau - yn enwedig mewn perthynas â phobl sy'n gadael gofal, rhai dosbarthiadau o anheddau y codir premiwm Dreth Gyngor arnynt ac ar gyfer anheddau unigol a effeithiwyd gan y tywydd garw a gafwyd yn ddiweddar.

Felly, cynigir cyflwyno polisi o'r fath gyda'i phwrpas: -

- a) Adran 1 y polisi arfaethedig sy'n manylu ar y dosbarthiadau o achosion a all fod â hawl i ostyngiad yn unol ag adran 13A (1) (c);
- b) Adran 2 y polisi arfaethedig sy'n amlinellu'r amodau y bydd raid cwrdd â hwy er mwyn i'r Cyngor ystyried rhoi cymorth o dan adran 13A (1) (c) ar gyfer yr holl achosion eraill nad ydynt wedi eu cynnwys yn Adran 1.

Yn y pen draw, bwriedir i'r polisi alluogi'r Cyngor i roi cymorth i'r rheini sy'n wynebu'r caledi ariannol mwyaf eithafol.

Mae'r Cyngor llawn eisoes yn darparu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn unol ag adran 13A (1) (b) o DCLIL 1992, ac mae'r Polisi Cymorth Dewisol tuag at y Dreth y Cyngor ar wahân i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac yn annibynnol arno.

A. I'w gynnwys yn Adran 1 y polisi arfaethedig: yr achos dros eithrio'r holl bobl sy'n gadael gofal yn y sir rhag talu'r Dreth Gyngor neu i gael gostyngiad.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried yr hyn y gellir ei wneud i roi cymorth ariannol i bobl sy'n gadael gofal tuag at eu dreth gyngor.

Mae rhianta corfforaethol yn swyddogaeth statudol gan y Cyngor. Yr egwyddor sylfaenol yw y bydd pob awdurdod lleol yn ceisio sicrhau'r un canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal ag y byddai pob rhiant da yn eu dymuno i'w plant eu hunain.

Mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn hytrach na'u rhieni ymhlith y grwpiau mwyaf bregus yn ein cymuned. Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau ar gyfer y grŵp hwn yn wael ac, fel rhieni corfforaethol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am eu cadw'n ddiogel, sicrhau bod eu profiadau mewn gofal yn gadarnhaol a gwella eu cyfleoedd bywyd yn barhaus.

Mae adroddiad yn 2015 gan y Gymdeithas Plant (The Wolf at the Door. How council tax debt collection is harming children) yn awgrymu bod rheini sy'n gadael gofal yn grŵp arbennig o fregus o ran dyled dreth gyngor. 'Roedd yn nodi fod pobl sy'n gadael gofal ac sy'n symud i lety annibynnol ac yn dechrau rheoli eu cyllidebau eu hunain am y tro cyntaf yn wynebu amser heriol, yn enwedig os ydynt yn mynd i ddyled gyda'u dreth gyngor. 'Roedd nifer o argymhellion yn adroddiad y Gymdeithas Plant, gan gynnwys gwneud y rheini sy'n gadael gofal yn gymwys am ddisgownt dreth gyngor. Byddai hyn yn helpu i leddfau rhywfaint o'r pwysau cychwynol a byddai'n eistedd ochr yn ochr â nifer o drefniadau cymorth ariannol eraill sydd ar gael i bobl sy'n gadael gofal.

Ar hyn o bryd, nid yw pobl sy'n gadael gofal wedi eu heithrio'n benodol yn neddfwriaeth y Dreth Gyngor. O ganlyniad, yr unig ffordd o'u heithrio yw trwy roi disgownt dewisol o dan Adran 13 A (1) (c). Fel y crybwyllwyd yn gynharach, gellir ystyried gostyngiad dewisol naill ai fesul achos neu drwy gynllun a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn neu'r Pwyllgor Gwaith a all benderfynu creu dosbarth o ostyngiadau / disgowntiau ar gyfer pobl sy'n gadael gofal. Y bobl sy'n talu'r Dreth Gyngor yn Ynys Môn fyddai'n cwrdd â chost pob opsiwn.

Rhagwelir mai cymharol fach fydd nifer yr unigolion a fydd yn gymwys ac ar hyn o bryd dim ond un unigolyn cymwys a nodwyd. Mae hyn oherwydd bod nifer fawr o bobl sy'n gadael gofal yn byw mewn llety â chymorth neu dai amldeiliadaeth neu'n cael Gostyngiad y Dreth Gyngor (sy'n cwrdd â'u costau tai yn llawn) ac felly naill ai nid ydynt yn atebol yn bersonol am y Dreth Gyngor neu nid oes ganddynt swm i'w dalu. Mae eraill wedi eu lleoli y tu allan i ardal yr awdurdod.

Mae'r polisi arfaethedig wedi'i ddrafftio gyda manylion penodol o ran y meini prawf cymhwyster ar gyfer pobl sy'n gadael gofal ac yn nodi sut yr ymdrinnir ag atebolrwydd unigol ac ar y cyd, ynghyd â maint y disgownt a roddir mewn achosion o'r fath.

B. I'w gynnwys yn Adran 1 y polisi arfaethedig: yr achos i ymestyn y cyfnod lle nad yw premiwm y Dreth Gyngor yn daladwy dan rai amgylchiadau h.y. os yw'r annedd wedi bod yn wag am dymor hir a bod gwaith strwythurol yn cael ei wneud arni fel y bydd yn addas i rywun fyw ynddi.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried yr hyn y gellir ei wneud i eithrio rhai dosbarthiadau penodol o anheddau rhag y premiwm Dreth Gyngor am gyfnod fwy nag a ganiateir ar hyn o bryd o dan y ddeddfwriaeth dreth gyngor.

Ar 10 Mawrth 2016 defnyddiodd y Cyngor llawn ei bwerau dewisol, o dan adrannau 12A a 12B o DCLIL 1992 (yn unol â Ddeddf Tai (Cymru) 2014) i gael gwared ar unrhyw ddisgownt(iau) ar gyfer anheddau sydd wedi bod yn wag am dymor hir a chodi swm uwch o dreth gyngor (a elwir yn Bremiwm Dreth Gyngor) i ddod i rym ar 1 Ebrill 2017 a bod y premiwm yn 25% o gyfradd safonol y dreth gyngor ar gyfer anheddau sydd wedi bod yn wag am dymor hir.

Penderfynodd y Cyngor llawn -

"Bod y Cyngor llawn, hefyd yn cyfarwyddo ac yn awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, bod y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn (fel awdurdod bilio yng Nghymru), cyn y bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfrifo Sail y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18, yn cael gwybod a fydd angen penderfynu o dan adran 13A o Ddeddf 1992 i ddefnyddio pwerau dewisol i leihau atebolrwydd am y dreth gyngor sy'n deillio o godi premiwm Dreth Gyngor, i'r fath raddau ag y gwél yn briodol. O ran tegwch a thryloywder, pe bai angen gwneud penderfyniad o'r fath, rhoddir cyngor ynghylch a ddylai'r Cyngor llawn fabwysiadu polisi clir ynghylch a ddylid defnyddio'r pwerau hyn ac, os felly, sut, a chynnwys yr awdurdod dirprwyo priodol i wneud y penderfyniad yng Nghyfansoddiad y Cyngor, ond gan gydnabod hefyd y bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ac ar ôl cymryd i ystyriaeth yr holl amgylchiadau. "

Cyn gosod y gofyniad Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18 ni nodwyd unrhyw achosion nac amgylchiadau i'r Cyngor llawn ddefnyddio ei bwerau dewisol i leihau atebolrwydd am y dreth gyngor o ganlyniad i breimiwm Dreth Gyngor ond, ers 1 Ebrill 2017 (pan gyflwynwyd y premiwm) mae math o achos wedi dod i'r amlwg lle mae'r sawl sy'n atebol i dalu'r Dreth Gyngor yn ceisio dod â'r eiddo yn ôl i ddefnydd ond bod y premiwm yn cael ei godi arno, h.y. mae'r person yn cyflawni nod y Cyngor o dan y polisi, sef dod ag eiddo sydd wedi bod yn wag am dymor hir yn ôl i ddefnydd. Cyn iddo osod ei ofyniad Dreth Gyngor ar gyfer 2018/19, gofynnir i'r Cyngor a yw'n dymuno defnyddio ei bŵer dewisol i ymestyn y cyfnod cyn y gellir codi'r premiwm am y dosbarth hwn o eiddo. Y bobl sy'n talu'r Dreth Gyngor yn Ynys Môn fyddai'n cwrdd â chost polisi o'r fath.

Ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth y Dreth Gyngor, mae anheddau gwag y mae angen gwneud gwaith strwythurol neu waith adnewyddu sylweddol arnynt wedi'u heithrio rhag talu'r Dreth Gyngor am hyd at 12 mis ac, ar ôl 12 mis mae'r Cyngor wedi penderfynu hyd at 31 Mawrth 2017, fod y dreth gyngor safonol yn daladwy. O 1 Ebrill 2017, penderfynodd y Cyngor llawn y byddai premiwm o 25% hefyd yn daladwy ar ôl 12 mis gyda'r nod o ddod ag eiddo gwag hirdymor o'r fath yn ôl i ddefnydd. Mae'r Awdurdod wedi cael sylwadau gan drethdalwyr sydd wedi prynu eiddo sydd wedi bod yn wag am dymor hir (dros 12 mis eisoes) ac sydd wedi dechrau gwneud gwaith arnynt fel y gellir eu hailddefnyddio fel cartref yn y dyfodol, ond sy'n gorfod talu'r premiwm ar hyn o bryd. Gofynnir i'r Cyngor llawn ystyried darparu cymorth dewisol rhag talu'r premiwm yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn y polisi h.y. ni chodir premiwm am gyfnod o 24 mis o'r dyddiad y tybir bod angen gwneud gwaith o'r fath ar yr eiddo ac ar yr amod, hefyd, bod y gwaith hwnnw'n cael ei wneud ar hyn o bryd.

C. I'w gynnwys yn Adran 2 y polisi arfaethedig: yr achos i'r Cyngor llawn cytuno ar bolisi ar gyfer gwneud cais am gymorth dewisol tuag at y dreth gyngor, dirprwyo newidiadau i'r polisi yn y dyfodol i'r Pwyllgor Gwaith a chytuno ar drefniadau gweinyddol i'r Pennaeth Swyddogaethau (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ddelio â cheisiadau fesul achos.

Ar hyn o bryd, gan nad yw'r Cyngor llawn wedi cytuno ar bolisi nac wedi dirprwyo'r swyddogaeth i benderfynu ar geisiadau am gymorth tuag at y Dreth Gyngor o dan Adran 13A (1) (c) o DCLIL 1992, mae'n rhaid i'r Cyngor llawn benderfynu ar geisiadau o'r fath. Mae rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o dan Adran 13A (1) (b) o'r DCLIL 1992 yn neilltuo'r swyddogaeth i benderfynu neu ddiddymu'r cynllun i'r Cyngor llawn. Nid oes unrhyw ddarpariaeth o'r fath wedi'i gwneud mewn perthynas ag Adran 13 (1) (c) ynghylch cynllun cymorth dewisol tuag at y dreth gyngor.

Ar gyfer ceisiadau a wnaed yn flaenorol am gymorth dewisol, mae'r Cyngor llawn wedi penderfynu nad y Cyngor llawn ddylai ddelio â hwy am nad honno yw'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o ymdrin â'r fath geisiadau, ac mae wedi dirprwyo grym i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 benderfynu ar geisiadau o'r fath. Rhan 3.5.3.5.19 o'r Cyfansoddiad yw'r ddarpariaeth sy'n dirprwyo pŵer i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 benderfynu ceisiadau o dan adrannau 44A, 47 a 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac unrhyw ddiwygiad neu ailddeddfiad, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ganllaw polisi a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, y Cyngor neu'r Pwyllgor Gwaith.

Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â chymorth dewisol o dan Drethi Busnes mewn perthynas â chymorth oherwydd deiliadaeth rannol (adran 44A), elusennau a sefydliadau di-elw (adran 47) a chymorth caledi (adran 49). Mae'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 wedi sefydlu trefniadau gweinyddol i ddelio â cheisiadau o'r fath sy'n cymryd i ystyriaeth ganllawiau'r Cyngor llawn, y Pwyllgor Gwaith a'r Cynulliad Cenedlaethol / Llywodraeth Cymru. Cynigir yr un trefniant bellach o dan adran 13A (1) (c) o DCLIL 1992 a manylir ar hyn yn y polisi arfaethedig yn Atodiad A.

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?

Gall y Cyngor llawn benderfynu drosto'i hun i ddelio â phob cais fesul achos neu ddirprwyo'r swyddogaeth hon i'r Pwyllgor Gwaith i ymdrin â cheisiadau fesul achos. Efallai y bydd yn rhaid ymdrin â cheisiadau o'r fath fel mater o frys ar adegau a gallai adroddiadau gynnwys gwybodaeth fanwl a phersonol. Ni fyddai amserlen cyfarfodydd yn hwyluso gweinyddu ceisiadau mewn modd effeithiol ac effeithlon.

C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae hwn yn benderfyniad i'r Cyngor llawn gan nad yw'r swyddogaeth o wneud dyfarniadau dan adran 13a (1) (c) o DCLIL 1992 wedi ei thynnu oddi ar y rhestr o swyddogaethau a gadwyd i'r Cyngor llawn.

CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'r polisi arfaethedig yn gyson ag un o brif flaenoriaethau Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn am y cyfnod 2017 – 2022 sef : "Cynorthwyo oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw mor ddiogel, iach ac annibynnol â phosibl a chyda'i Ddatganiad a'i Amcanion Llesiant ar gyfer 2017/2018. Yn dilyn cyflwyno'r premiwm Dreth Gyngor, mae hefyd yn cwrdd â phenderfyniad y Cyngor llawn ynghylch a ellid gwneud penderfyniadau dan Adran 13A (1) (c) i wneud eithriadau dewisol rhag talu'r premiwm.

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Mae £60k yn y gyllideb gyfredol i gwrdd â'r gost i'r Cyngor o weithredu cynlluniau cymorth dewisol tuag at drethi busnes. Amcangyfrifir bod y gwariant cyfredol yn unol â'r gyllideb a broffiliwyd am y flwyddyn. Felly, byddai'n rhaid cynyddu'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2018/19 i gwrdd â chost y cymorth dewisol arfaethedig tuag at y Dreth Gyngor. Amcangyfrifir y dylid ychwanegu **£8k** at y gyllideb i gwrdd â chostau cymorth dewisol o ran trethi lleol h.y. y cynllun cymorth dewisol tuag at y dreth gyngor, os caiff ei gymeradwyo. Mae hyn yn seiliedig ar y niferoedd a'r ceisiadau llwyddiannus a ragwelir isod -

Adran 1

Y rheini sy'n gadael gofal **£3k** (dyfarniadau 100% sy'n cyfateb i 2 dreth gyngor gyfartalog Band D am y flwyddyn), Premiwm **£1k** (dyfarniadau 25% sy'n cyfateb yn fras i oddeutu 3 neu 4 dreth gyngor gyfartalog Band D am y flwyddyn)

Adran 2

Fesul Achos **£4k** (yn seiliedig ar swm cyfartalog y dyledion y cymeradwywyd eu dileu dan y pennawd "amgylchiadau ariannol gwael) am y 3 blynedd diwethaf mewn perthynas â dileu dyledion Dreth Gyngor).

DD - Pwy wnaethoch chi ymgynghori â nhw. Beth oedd eu sylwasdau?

	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Beth oedd eu sylwasdau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Dim sylw
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Awdur yr adroddiad.
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Dim Sylw
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	
8	Aelodau lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	

E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthdodi	
3	Trosedd ac Anrhefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau canlyniadau	
7	Arall	Efallai na fydd y gyllideb a gymeradwyir yn ddigon. Monitro gwariant yn chwarterol.
F - Atodiadau:		
Atodiad A: Polisi Cymorth Dewisol tuag at y Dreth Gyngor		
FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth):		
Y Gymdeithas Plant - Eithriad Dreth Gyngor ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru.		



POLISI CYMORTH DEWISOL TUAG AT Y DRETH GYNGOR

Cefndir

Mae Adran 13A, is-adrannau (1) (c); (6) a (7), o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (DCLIL) (yn unol ag Adran 10 Deddf Llywodraeth Leol 2012) yn rhoi'r grym i awdurdod bilio ostwng swm y dreth sy'n daladwy fel a ganlyn:-

- (1)(c)** mewn unrhyw achos, gellir ei lleihau i'r fath raddau (neu i raddau pellach os yw'r swm wedi ei ostwng dan baragraffau (a) neu (b)) sydd yn addas ym marn yr awdurdod bilio ar gyfer yr ardal ble lleolir yr annedd;
- (6)** Mae'r grym a roddir dan is-adran (1) (c) yn cynnwys y grym i ostwng y swm i ddim; a
- (7)** Gellir defnyddio'r grym o dan is-adran (1) (c) mewn perthynas ag achosion penodol neu drwy benderfynu ar ddsbarth o achosion penodol lle bydd yr atebolrwydd yn cael ei ostwng i'r graddau y darperir ar ei gyfer yn y penderfyniad.

Mae hyn yn golygu y gall Cyngor Sir Ynys Môn roi cymorth dewisol mewn perthynas ag unrhyw swm dreth gyngor sy'n ddyledus iddo hyd yn oed os yw'r Cyngor eisoes wedi dyfarnu gostyngiad dan ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn unol ag adran 13A (1) (b).

Mae'r polisi hwn yn nodi'r modd y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ystyried ac yn caniatáu gostyngiadau dan Adran 13A (1) (c).

Pwrpas y polisi

- a)** Adran 1 y polisi arfaethedig sy'n manylu ar y dosbarthiadau o achosion a all fod yn gymwys i dderbyn gostyngiad yn unol ag adran 13A (1) (c);
- b)** Adran 2 y polisi arfaethedig sy'n amlinellu'r amodau y bydd raid eu bodloni er mwyn i'r Cyngor ystyried rhoi cymorth o dan adran 13A (1) (c) ar gyfer pob achos arall nad yw wedi'i gynnwys yn Adran 1.

Bwriad y polisi yn y pen draw yw galluogi'r Cyngor i roi cymorth i'r rhai sy'n dioddef y caledi ariannol mwyaf eithafol o ran costau'r Dreth Gyngor.

Mae'r Cyngor eisoes â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn unol ag adran 13A (1) (b) o DCLIL 1992. Gellir lawrlwytho Cynllun y Cyngor ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn:-

[-http://www.ynysmon.gov.uk/lles-ac-arian/y-dreth-gyngor/llleihewch-eich-bil-dreth-gyngor/cynllun-gostyngiadau-dreth-gyngor/](http://www.ynysmon.gov.uk/lles-ac-arian/y-dreth-gyngor/llleihewch-eich-bil-dreth-gyngor/cynllun-gostyngiadau-dreth-gyngor/)

Mae'r polisi hwn ar gymorth dewisol yn un gwahanol ac yn annibynnol ar y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Adran 1

A. Adran 13A (1) (c) cymorth dewisol ar gyfer dosbarthiadau o bobl

1. Person(au) cymwys - gadawyr gofal

Gall y Cyngor benderfynu peidio â chodi unrhyw dreth gyngor o gwbl ar y rhai sy'n gadael gofal ar yr amod eu bod yn cwrdd â'r holl feini prawf canlynol:

- Bod y person ifanc yn adawr gofal perthnasol fel y'i diffinnir yn Neddf Plant (Gadael Gofal) 2000;
- Bod y person ifanc yn un yr oedd Cyngor Sir Ynys Môn yn rhiant corfforaethol iddo/iddi yn flaenorol;
- Bod y person ifanc wedi gadael gofal ac mae rhwng 18 a 21 oed. Mae'r person yn byw yn ardal Cyngor Sir Ynys Môn ac mae'n atebol i dalu dreth gyngor i Gyngor Sir Ynys Môn.

Pan fo'r sawl sy'n gadael gofal yn atebol am fwy nag un annedd, rhoddir cymorth dewisol ar gyfer un eiddo yn unig - sef unig neu brif breswylfa'r person.

Os mai'r unigolyn sydd wedi gadael gofal yw'r unig berson sy'n byw yn yr annedd, ac os yw dros 18 oed, bydd swm y dreth gyngor sydd i'w dalu ar gyfer yr annedd honno'n cael ei ostwng i ddim.

Pan fo'r unigolyn sydd wedi gadael gofal yn byw gyda pherson arall yn yr eiddo ond yn rhinwedd adran 6 (2) o DCLIL 1992 "hierarchaeth atebolrwydd", bod yr unigolyn sydd wedi gadael gofal yn gwbl gyfrifol am dalu'r dreth gyngor (ac nad yw atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol yn gymwys), caniateir gostyngiad o 25% yn y dreth gyngor sy'n daladwy ar gyfer yr annedd.

Pan fo'r unigolyn sydd wedi gadael gofal yn atebol ar y cyd ac yn unigol am yr annedd hefo rhywun arall sydd wedi gadael gofal, naill ai fel fel gŵr neu wraig neu fel partner, (ac mai nhw yw'r unig bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn), ni chodir unrhyw dreth gyngor am yr annedd honno.

Pan fo'r unigolyn sydd wedi gadael gofal yn atebol ar y cyd ac yn unigol gyda gŵr neu wraig neu bartner nad ydynt wedi gadael gofal (ac mai nhw yw'r unig bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn), bydd gostyngiad o 25% yn swm y dreth gyngor sy'n daladwy ar gyfer yr annedd.

Os oes gan unigolyn sydd wedi gadael gofal denantiaeth ar y cyd â thenant arall (nad yw wedi gadael gofal) ac mai nhw yw'r unig bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn, bydd gostyngiad o 25% yn swm y dreth gyngor sy'n daladwy ar gyfer yr annedd.

Os yw unigolyn sydd wedi gadael gofal â thenantiaeth ar y cyd â thenant arall (sydd hefyd wedi gadael gofal) ac mai nhw yw'r unig bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn sy'n byw yn yr eiddo, ni fydd unrhyw dreth gyngor o gwbl yn cael ei chodi mewn perthynas â'r annedd honno.

2. Gofyn am gymorth

Fel rheol bydd ceisiadau am ostyngiad yn cael eu gwneud gan Wasanaeth Plant y Cyngor. Yn yr achos hwn, bydd ceisiadau:-

- Yn cael eu hanfon drwy e-bost at dîm y dreth gyngor;
- Yn cadarnhau bod yr unigolyn sydd wedi gadael gofal wedi cael gwybod am y bwriad i gyflwyno'r cais ar ei ran ac y bydd y wybodaeth honno'n cael ei rhannu gyda thîm y dreth gyngor at y diben hwn a bod yr unigolyn wedi cytuno i hynny;
- Yn cadarnhau bod yr unigolyn sydd wedi gadael gofal yn cwrdd â'r gofynion o ran hawl;
- Yn cadarnhau enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r unigolyn sy'n gadael gofal.

Gall pobl ifanc gymwys sydd wedi gadael gofal gyflwyno ceisiadau yn ysgrifenedig yn uniongyrchol i'r tîm dreth gyngor. Dylai ceisiadau gynnwys tystiolaeth ategol gan Wasanaeth Plant y Cyngor fod y person ifanc sydd wedi gadael gofal yn bodloni'r gofynion. Fel arall, dylai ceisiadau gadarnhau bod yr ymgeisydd wedi caniatáu i'r tîm treth gyngor gael gwybodaeth yn uniongyrchol gan y Gwasanaeth Plant.

Wrth wneud y penderfyniad, asesir y canlynol:

- A yw'r person ifanc sydd wedi gadael gofal wedi gwneud cais am unrhyw gymorth, eithriadau neu ostyngiadau cenedlaethol y byddent yn gymwys iddynt. Rhaid i'r rhain gael eu hasesu cyn caniatáu cymorth dewisol i unigolion sydd wedi gadael gofal.
- A yw'r person ifanc sydd wedi gadael gofal wedi gwneud cais am unrhyw ostyngiad yn y Dreth Gyngor y byddent yn gymwys iddo. Dylai hyn gael ei asesu cyn rhoi cymorth Gadael Gofal.
- Dyddiad y diwrnod cyn pen-blwydd y sawl sy'n gadael gofal yn 21 oed sy'n pennu'r diwrnod y daw cyfnod y dyfarniad i ben.
- A yw Gwasanaeth Plant y Cyngor neu gorff cyhoeddus neu sefydliad proffesiynol arall wedi cadarnhau bod y person ifanc yng ngofal (yn derbyn gofal) gan y Cyngor.
- Pa Gyngor yw'r awdurdod bilio dreth gyngor y mae'n rhaid i'r person ifanc sydd wedi gadael gofal dalu dreth gyngor iddo?

Bydd y broses o wneud penderfyniadau a cheisiadau i gael ailystyried penderfyniadau, yn cael ei hystyried yn unol â'r darpariaethau yn yr adran dan bennawd **G. "Gwneud penderfyniadau ac apeliadau"** yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

B. Adran 13a (1) (c) cymorth dewisol ar gyfer categorïau o anheddau

1. Annedd(anheddau) cymwys - anheddau sydd wedi bod yn wag yn y tymor hir y mae gwaith strwythurol yn cael ei wneud arnynt fel y gall pobl fyw ynddynt

Efallai na fydd y Cyngor yn codi'r premiwm Dreth Gyngor (fel y penderfynwyd arno ar gyfer y cyfnod perthnasol gan y Cyngor) ar gyfer anheddau dynodedig sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:-

- Mae'r annedd yn cael ei hystyried fel annedd Eithriedig Dosbarth A o dan Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Eithriedig) 1992 OS 558 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Eithriedig) (Diwygiad) (Cymru) 2000 OS 1025 (C.61).
- Mae gwaith atgyweirio mawr o fath strwythurol yn cael ei wneud yn yr annedd er mwyn ei gwneud yn addas i bobl fyw ynddi.
- Mae'r annedd wedi bod yn wag h.y. neb yn byw ynddi fel eu prif neu unig breswylfan, am gyfnod nad yw'n fwy na 24 mis.

2. Gofyn am gymorth

Gall perchennog yr annedd ddynodedig gyflwyno cais ysgrifenedig yn uniongyrchol i'r tîm dreth gyngor. Dylai ceisiadau gynnwys tystiolaeth ategol o waith atgyweirio strwythurol mawr sy'n cael ei wneud yn yr annedd fel y gall rhywun fyw ynddi. Bydd y tîm dreth gyngor yn cynnal archwiliad o'r eiddo i wirio cyflwr presennol yr eiddo a'r gwaith sy'n cael ei wneud er mwyn cadarnhau a ydyw o natur strwythurol ai peidio.

Bydd y broses o wneud penderfyniadau a cheisiadau i gael ailystyried penderfyniadau, yn cael ei hystyried yn unol â'r darpariaethau yn yr adran dan bennawd **G. "Gwneud penderfyniadau ac apeliadau"** yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

Adran 2

C. Adran 13a (1) (c) cymorth dewisol ar gyfer personau neu categorïau o anheddau ac eithrio'r rhai a ddynodir yn Adran 1 y polisi hwn

1. Cynllun cymorth dewisol

Mae Adran 13A (1) (c) yn caniatáu i'r Cyngor y disgresiwn i roi cymorth i dalwyr y dreth gyngor mewn achosion lle nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu disgownt, eithriad neu ostyngiad neu mewn amgylchiadau lle mae'r Cyngor yn teimlo bod lefel y disgownt, eithriad neu ostyngiad yn annigonol o ystyried yr amgylchiadau. Wrth benderfynu a ddylid caniatáu cymorth dewisol, bydd y Cyngor yn ystyried pob cais yn ôl ei haeddiant (ac eithrio ceisiadau gan unigolion neu ar gyfer anheddau sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn Adran 1 y polisi hwn). Bydd egwyddorion rhesymoldeb yn cael eu defnyddio ym mhob achos gyda'r Awdurdod yn penderfynu ar bob achos ar sail ei rinweddau perthnasol.

Bydd pob penderfyniad yn cael ei wneud heb gyfeiriad at unrhyw ystyriaethau cyllidebol er bod rhaid cydbwysu unrhyw ddyfarniadau yn erbyn anghenion trethdalwyr lleol a fydd, yn y pen draw, yn talu am unrhyw ostyngiad yn incwm y Dreth Gyngor. Yn yr un modd, bydd cyfnod unrhyw daliadau gostyngol yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag amgylchiadau talwr y dreth gyngor neu'r annedd. I ddibenion gweinyddu, mae'r Cyngor yn cynnig y dylai'r grym dewisol i ganiatáu unrhyw ostyngiad yn y Dreth Gyngor gael ei ystyried o fewn y categorïau canlynol:-

a) Caledi ariannol eithriadol

Yn unol ag Adran 13A (1) (b) o DCLIL 1992, mae gan y Cyngor hwn Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sy'n darparu cymorth, ar ffurf gostyngiad, i'r sawl sydd angen cymorth i dalu eu costau Dreth Gyngor. Mae'r cynllun wedi'i ddylunio i gymryd i ystyriaeth amgylchiadau ariannol a phenodol unigolion trwy ddefnyddio symiau a phremiymau perthnasol a thrwy ddiystyru incwm.

Derbynnir ceisiadau o dan Bolisi Cymorth Dewisol y Dreth y Gyngor ar gyfer pobl sydd yn gymwys am gymorth yn unol â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Gall pob trethdalwr wneud cais, fodd bynnag, fel rheol bydd y Cyngor, yn y lle cyntaf, yn disgwyl i drethdalwr ganfod a yw'n gymwys ar gyfer Gostyngiad yn y Dreth Gyngor.

Fel rhan o'r broses o gyflwyno cais am ostyngiad dewisol yn y Dreth Gyngor, rhaid i bob ymgeisydd fod yn barod i wneud y **cyfan** o'r isod:-

- Gwneud cais ar wahân am gymorth
- Rhoi manylion llawn am eu hincwm a'u gwariant (darperir ffurflen i'r pwrpas hwn)
- Rhaid i'r trethdalwr fedru bodloni'r Cyngor nad ydynt yn gallu talu eu dreth gyngor yn llawn neu'n rhannol
- Nodi newidiadau posibl mewn dulliau talu a threfniadau i gynorthwyo'r ymgeisydd
- Y trethdalwr i gynorthwyo'r Cyngor i ostwng y swm sy'n daladwy ganddynt drwy sicrhau eu bod wedi ymgeisio am yr holl ddisgowntiau, eithriadau a gostyngiadau yn y modd priodol a bod y rhain wedi eu caniatáu, a
- Nad oes gan y trethdalwr asedau y gellid eu gwireddu a'u defnyddio i dalu'r Dreth Gyngor.

Bydd y ffactorau canlynol yn cael eu hystyried wrth asesu'r cais o dan y polisi hwn:-

- Cyfansoddiad presennol yr aelwyd ac amgylchiadau penodol gan gynnwys anabledau neu gyfrifoldebau gofalu
- Amgylchiadau ariannol presennol
- Penderfynu ar y cam(au) y mae'r ymgeisydd wedi eu cymryd i leddfu'r sefyllfa
- Ystyried dulliau eraill o gymorth a all fod ar gael i'r ymgeisydd trwy:-
 - i. Ailbroffilio dyledion dreth gyngor neu ddyledion eraill
 - ii. Gwneud cais am Dâl Tai Dewisol i gwrdd â chostau rhent (os yw'n berthnasol)
 - iii. Sicrhau cymaint o fudd-daliadau eraill ag sy'n bosibl (trwy mofyn cyngor lles)
 - iv. Penderfynu a ddylai blaenoriaethau gwariant yr ymgeisydd, ym marn y sawl sy'n gwneud penderfyniad, gael eu haildrefnu yn wyneb y ffaith bod y Dreth Gyngor yn ddyled y mae angen rhoi blaenoriaeth iddi

Bydd y broses o wneud penderfyniadau a cheisiadau i gael ailystyried penderfyniadau yn cael ei hystyried yn unol â'r darpariaethau yn yr adran dan bennawd **G. "Gwneud penderfyniadau ac apeliadau"** yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

b) Argyfwng - llifogydd, tân ac ati

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am gymorth gan drethdalwyr y cyngor sydd, heb unrhyw fai arnynt eu hunain, wedi dioddef argyfwng neu ddigwyddiad sy'n golygu nad yw eu tŷ yn addas i fyw ynddo, e.e. tân neu lifogydd, lle maent yn parhau i fod yn atebol i dalu'r dreth gyngor a heb unrhyw fodd o gael iawndal neu unrhyw eithriadau neu ddisgowntiau statudol.

Rhaid gwneud pob cais o'r fath yn ysgrifenedig yn manylu ar yr **union** amgylchiadau sy'n berthnasol i'r gostyngiad y gofynnir amdano ac yn nodi pryd y disgwylir i'r sefyllfa gael ei datrys.

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau fesul achos mewn ymgynghoriad â gwasanaethau neu sefydliadau eraill fel sy'n briodol. Bydd unrhyw ostyngiad yn cael ei ganiatáu mewn achosion lle maent yn parhau i fod yn atebol i dalu'r dreth gyngor a dim hawl ganddynt i unrhyw iawndal neu eithriadau neu ddisgowntiau statudol neu lle nad yw'r digwyddiad wedi cael ei gynnwys mewn unrhyw bolisi yswiriant. Ni fydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gan drethdalwyr lle mae canllawiau neu bolisi datganoledig gan y llywodraeth yn darparu ar gyfer gostyngiad mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft, cynlluniau cymorth ar gyfer llifogydd.

c) Amgylchiadau eraill

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gan y rheini sy'n talu'r Dreth Gyngor am ostyngiad yn eu dreth gyngor yn seiliedig ar amgylchiadau eraill nad ydynt wedi eu crybwyll yn benodol yn y polisi hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cyngor fod o'r farn bod yr amgylchiadau sy'n berthnasol i'r cais yn teilyngu gostyngiad pellach yn y Dreth Gyngor y maent yn atebol i'w thalu, gan ystyried yr effaith ar Drethdalwyr eraill y Cyngor.

Ni chaniateir gostyngiad yn y dreth sydd i'w thalu mewn amgylchiadau lle gellid caniatáu eithriad neu ddisgownt statudol. Ni chaniateir gostyngiad yn y dreth gyngor lle byddai hynny'n gwrthdaro ag unrhyw un o benderfyniadau, blaenoriaethau craidd neu amcanion y Cyngor.

CH. Newidiadau mewn amgylchiadau

Gall y Cyngor adolygu unrhyw ostyngiad dewisol yn y dreth sy'n daladwy a ganiatawyd dan Adran 1 ac Adran 2 lle mae amgylchiadau'r ymgeisydd wedi newid.

Mae'r trethdalwr yn cytuno bod rhaid iddo / iddi hysbysu'r Cyngor ar unwaith naill ai dros y ffôn, drwy e-bost neu yn ysgrifenedig am unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau a allai effeithio ar yr hawliad dan y polisi hwn. Gall methu â gwneud hynny arwain at dynnu'n ôl y gostyngiad a ganiatawyd am y flwyddyn a mynnu ad-daliad o unrhyw swm sy'n ddyledus i'r Cyngor. Rhaid rhoi gwybod am yr holl newidiadau mewn amgylchiadau ymhen 21 diwrnod.

D. Dyletswyddau'r ymgeisydd ac aelwyd yr ymgeisydd

Rhaid i berson sy'n hawlio unrhyw ostyngiad dewisol yn y dreth gyngor sy'n daladwy:-

- Roddi i'r Cyngor unrhyw wybodaeth y mae ei hangen i wneud penderfyniad
- Dweud wrth y Cyngor am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau a all fod yn berthnasol i'w hawliad, a
- Rhoi i'r Cyngor unrhyw wybodaeth arall y gall fod ei hangen mewn cysylltiad â'u hawliad.

DD. Y dyfarniad a chyfnod y gostyngiad yn y dreth gyngor

Pennir swm a hyd y dyfarniad yn unol â disgresiwn y Cyngor a gwneir hynny ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd ac amgylchiadau'r hawliad.

Bydd y Cyngor yn pennu dyddiad cychwyn taliad o'r fath a hyd unrhyw daliad. Serch hynny, ni fydd unrhyw ddyfraniad yn mynd y tu draw i ddiwedd y flwyddyn ariannol y rhoddyd y dyfarniad ar ei chyfer oni bai bod yr achosion penodol a nodir yn Adran 1 y polisi hwn yn datgan fel arall.

E. Taliad

Yn unol â deddfwriaeth, bydd unrhyw ddyfarniad yn cael ei ganiatáu fel gostyngiad o ran y swm y bydd y Trethdalwr yn ei dalu i'r Cyngor ac a ddangosir ar eu bil yn lleihau swm y dreth Gyngor sy'n daladwy.

F. Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor a roddwyd drwy gamgymeriad neu yn anghywir

Lle mae gostyngiad wedi ei ganiatáu yn anghywir neu drwy gamgymeriad, naill ai oherwydd methiant i ddarparu'r wybodaeth gywir i'r Cyngor neu oherwydd amgylchiadau eraill, bydd y swm yn cael ei adennill o gyfrif y Trethdalwr yn y ffordd arferol.

FF. Hysbysiad o ostyngiad yn y swm taladwy

Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod ar bapur am ganlyniad pob cais. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys y rheswm dros y penderfyniad ac yn cynghori'r ymgeisydd am eu hawliau i apelio.

G. Cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ac apeliadau

Bydd unrhyw gymorth a roddir yn unol ag Adran 1 y polisi hwn yn cael ei gymeradwyo gan swyddog ar lefel Arweinydd Tîm neu uwch yn nhîm y Dreth Gyngor.

Bydd unrhyw gymorth a roddir yn unol ag Adran 2 y polisi hwn yn cael ei gymeradwyo gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 neu Reolwr y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau a bydd swyddog ar lefel Arweinydd Tîm neu uwch yn nhîm y Dreth Gyngor yn cyflwyno adroddiad i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 neu Reolwr y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau i'w ystyried wrth wneud y penderfyniad.

Gall trethdalwyr ofyn i'r Cyngor adolygu penderfyniad mewn perthynas â chymorth dewisol. Dylid cyflwyno cais ysgrifenedig am ailystyried penderfyniad ymhen 21 diwrnod o gael gwybod am y penderfyniad gwreiddiol a dylid nodi'r rhesymau dros y cais.

Ar ôl derbyn cais i ailystyried cais, bydd penderfyniadau a wneir dan Adran 1 y polisi yn cael eu hadolygu gan uwch swyddog o fewn tîm y Dreth Gyngor / Adnoddau. Ar gyfer penderfyniadau a wneir dan Adran 2 y polisi, yn dibynnu ar bwy wnaeth y penderfyniad, gellir eu hadolygu gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 neu gan unrhyw un o'r Prif Weithredwyr Cynorthwyol. Bydd y Cyngor yn hysbysu'r trethdalwr o'i benderfyniad o fewn 21 diwrnod o dderbyn y cais i ailystyried y penderfyniad.

Nid oes gan y Tribiwnlys Prisio awdurdodaeth i ymchwilio i benderfyniadau a wnaed gan y Cyngor ar achosion unigol mewn perthynas â chymorth dewisol dan adran 13A yn Adran 2 y polisi. Mewn achosion o'r fath, mae'r Tribiwnlys Prisio o'r farn y dylai trethdalwyr y cyngor wneud cais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol.

Os yw trethdalwyr y Cyngor yn anfodlon â phenderfyniad y Cyngor i wrthod glynu wrth ei benderfyniad ei hun i ganiatáu gostyngiad i rai categorïau penodol, gall apelio ymhellach i Dribiwnlys Priso.

Adran 3

NG. Adolygu'r Polisi

Adolygir y polisi hwn yn rheolaidd a'i ddiweddarau fel bo'n briodol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas. Fodd bynnag, efallai y bydd adolygiad yn digwydd yn gynt os bydd unrhyw newidiadau sylweddol mewn deddfwriaeth.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	19 CHWEFROR 2018
Pwnc:	FFRAMWAITH AR GYMORTH DEWISOL TUAG AT DRETHI BUSNES – ELUSENNAU A SEFYDLIADAU DIELW
Aelod(au) Portffolio:	Y CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH – AELOD PORTFFOLIO (CYLLID)
Pennaeth Gwasanaeth:	MARC JONES – PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	GERAINT H JONES – RHEOLWR GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU 01248 752651 GeraintH.Jones@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	DIM YN BERTHNASOL
A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau	
ARGYMHELLION	
<ul style="list-style-type: none"> Bod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r Fframwaith cyfredol mewn perthynas â Chymorth Dewisol tuag at Drethi Busnes – Elusennau a Sefydliadau Dielw fel y manylir arno yn Atodiad A ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 yn unig a'i fod yn rhoi cyfarwyddyd i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 i sicrhau bod y gweithdrefnau gweinyddol cyn 31 Mawrth 2018 yn rhoi gwybod i'r elusennau a'r sefydliadau dielw perthnasol y bydd y polisi mewn grym ar gyfer 2018/19 yn unig ac y bydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cytuno i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y fframwaith yn ystod hanner cyntaf 2018/19 gyda fframwaith diwygiedig yn cael ei weithredu o 1 Ebrill 2019. 	
CEFNDIR	
<p>Mae'n rhaid i eiddo annomestig (ar wahân i rai eithriadau, megis amaeth, addoldai, adeiladau a ddefnyddir gan bobl anabl ac ati) dalu trethi annomestig. Yr enw cyffredin ar y trethi hyn yw trethi busnes er nad yw pawb sy'n eu talu yn fusnesau yn yr ystyr gyffredin. Yn wir, mae'r system o gymorthdaliadau wedi'i dylunio'n rhannol i liniaru baich trethiant ar ddeiliaid ar wahân i fusnesau.</p> <p>Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol yng Nghymru roi cymorth trethi mandadol yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (DCLIL88), fel y cafodd ei diwygio gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.</p> <p>Dan DCLIL88, gall Awdurdodau Lleol hefyd roi cymorth dewisol neu ryddhad o'r trethi o hyd at 100% o'r trethi sy'n daladwy. Mae hyn yn berthnasol i eiddo a ddefnyddir gan:-</p> <ul style="list-style-type: none"> Elusennau ("ychwanegiad o 20%" yn ogystal â'r cymorth mandadol o 80%); Sefydliadau dielw eraill. <p>Mae costau caniatáu cymorth dewisol tuag at drethi busnes yn cael eu hysgwyddo'n rhannol gan y Gronfa ar gyfer Trethi Annomestig (h.y. Llywodraeth Cymru) a chan drethdalwr lleol.</p> <p>Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo 90% o'r gost mewn perthynas â sefydliadau dielw. Mae hynny'n golygu bod pob £1 sy'n cael ei wario gan y Cyngor yn prynu cymorth o £10 i'r trethdalwr.</p>	

CC-14562-LB/193934

Fodd bynnag, yn achos yr “ychwanegiad 20%”, mae Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo 25% o'r gost. Mae hynny'n golygu bod pob £7.50 a warir gan y Cyngor yn prynu cymorth sy'n werth £10 i'r trethdalwr.

PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR GWAITH CHWEFROD 2017

Ar 14 Chwefror 2017, ymestynnodd y Pwyllgor Gwaith ei Fframwaith ar Gymorth Dewisol tuag at Drethi Busnes - Elusennau a Sefydliadau Dielw am gyfnod o flwyddyn. Fe benderfynodd hefyd ohirio'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y fframwaith a bod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ynghylch datblygu'r fframwaith hwn ar gyfer y dyfodol wedi cymryd i ystyriaeth adolygiad Llywodraeth Cymru o'i gynllun cymorth ar gyfer busnesau bychain ac effaith yr ail-brisio o ran cost y polisi cyfredol yn ystod 2017/18.

Yn ystod 2017/18, mae'r canlynol wedi digwydd -

- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gynllun cymorth parhaol newydd tuag at drethi busnesau bach yn effeithiol o 1 Ebrill 2018 ar 13 Rhagfyr 2017. Bydd y cynllun newydd yn cyfyngu nifer yr eiddo a fydd yn gymwys ar gyfer cymorth trethi busnesau bach i ddau fesul busnes ym mhob awdurdod lleol, gan atal busnesau mwy a chadwyni cenedlaethol rhag elwa o'r cynllun. Mae'r cynllun parhaol newydd yn ceisio rhoi cymorth mwy effeithiol i fusnesau bychan a lleol gan ryddhau £7m i gefnogi busnesau o'r fath. Mewn rhai achosion, diwygiwyd y trothwyon hawlio o ran gwerth ardrethol.
- Bydd y cynllun parhaol newydd hefyd yn darparu – cymorth ychwanegol ar gyfer y sector gofal plant, cymorth wedi ei dargedu ar gyfer prosiectau pŵer hydro bychan, ymestyn y cymorth dro dro trethi i fusnesau'r stryd fawr i 2018/19 a £1.3m pellach ar gyfer awdurdodau lleol yn 2018/19 i gefnogi busnesau lleol a fyddai'n cael y budd mwyaf o gymorth ychwanegol.
- Mae effaith yr ailbrisiad ar y fframwaith cymorth dewisol trethi busnes wedi bod yn gost niwtral a rhagwelir y bydd y gost ar gyfer 2017/18 yn £60k yn unol â'r gyllideb gyfredol ar gyfer y cynllun yn 2017/18.
- Mae dogfen ymgynghori ddrafft wedi cael ei chwblhau (yn Gymraeg a Saesneg) mewn perthynas â fframwaith cymorth dewisol trethi busnes y Cyngor ac fe'i hadolygwyd gan y Panel Sgriwtini Cyllid ar 1 Rhagfyr 2017 a oedd yn derbyn bod yr ymarfer, mewn egwyddor, yn un gwerth chweil, yn amodol ar rai newidiadau posibl a allai godi yn sgil cynllun newydd parhaol Llywodraeth Cymru ar gymorth trethi i fusnesau bach a diwygio'r cwestiynau a oedd yn destun ymgynghoriad. Byddai gwariant bychan ar ran y Cyngor, drwy drefniadau ariannol gyda Llywodraeth Cymru, yn arwain at gryn dipyn mwy o gymorth i elusennau a sefydliadau di-elw. Byddai gwario £60k dan y fframwaith presennol yn arwain at £202k o gymorth gyda threthi busnes i elusennau a sefydliadau dielw.
- Oherwydd y posibilrwydd y byddai goblygiadau ariannol i ymgynghoriad o'r fath ac oherwydd na chafwyd y setliad terfynol ar gyfer 2018/19 tan 20 Rhagfyr 2017, a oedd yn cynnwys y £1.3m o gymorth ychwanegol ar gyfer busnesau bach, nid yw'r amserlen yn caniatáu digon o amser i ymgynghori ac i ddiwygio'r fframwaith. Byddai angen i gostau posibl gael eu trafod a'u hadlewyrchu yn y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2018/19.
- O'r herwydd, argymhellir bod y polisi cyfredol yn cael ei fabwysiadu am flwyddyn arall gyda'r ymgynghoriad yn digwydd yn ystod chwe mis cyntaf 2018/19 gan ganiatáu digon o amser ar gyfer ymateb a sefydlu'r goblygiadau ariannol, os bydd rhai o gwbl, gyda'r fframwaith newydd i ddod i rym ar 1 Ebrill 2019.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'r polisi cymorth cyfredol wedi bod yn llwyddiant yn yr ystyr nad oes bron unrhyw geisiadau wedi dod i law nad ydynt wedi'u cynnwys yn y polisi. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y ceisiadau sy'n cael eu hystyried yn unigol.

Byddai peidio ag ymestyn y polisi dewisol cyfredol i roi cymorth trethi busnes i Elusennau a sefydliadau dielw yn golygu y byddai'n rhaid i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 ddelio gyda phob cais yn unigol gan roi ystyriaeth i ganllawiau gan Lywodraeth Cymru a pholisïau/canllawiau'r Pwyllgor Gwaith. (Gweler Cyfansoddiad y Cyngor – Cynllun Dirprwyo i Swyddogion penodol (Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r ddyletswydd benodol y manylir arni dan 3.5.3.5.19).

Os yw'r Pwyllgor Gwaith o'r farn y dylid ymgynghori, byddai'n rhaid gohirio'r penderfyniad ar y fframwaith newydd hyd fis Mawrth 2018 ar ôl i'r ymgynghoriad orffen. Os methir gwneud penderfyniad ym mis Mawrth 2018, byddai'n rhaid, fel y soniwyd uchod, i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ddelio gyda phob cais yn unigol.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae penderfyniadau i roi rhyddhad o'r Dreth Fusnes i elusennau a sefydliadau dielw wedi cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith greu canllawiau a pholisi i'r swyddog yma gyfeirio at i sicrhau cysondeb a thegwch o ran y penderfyniadau.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'r polisi hwn yn cyfrannu at nodau corfforaethol yr Awdurdod – sef adfywio ein cymunedau a datblygu'r economi a thrawsnewid gwasanaethau hamdden yn bennaf.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Mae £60k wedi ei glustnodi o fewn y gyllideb am 2017/18. Y gwariant rhagdybiedig ar ddiwedd chwarter 3 yw £61k*. Yn achos cyllideb 2018/19, mae £60k wedi cael ei glustnodi tuag at gost darparu cymorth dewisol ar gyfer elusennau a sefydliadau dielw.

* Mae'r costau hyn yn cynnwys addasiadau ar gyfer blynyddoedd blaenorol yn ystod 2017/18 yn wahanol i Atodiad A sy'n dangos ffigyrau ar gyfer 2017/18 yn unig.

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?

1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Dim sylw
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Awdur yr adroddiad
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Dim sylw
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)

1	Economaidd	
2	Gwrthdodi	

3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	

F - Atodiadau:

Atodiad A – Fframwaith Cymorth tuag at Drethi Busnes ar gyfer Elusennau a Sefydliadau Dielw.

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

Penderfyniad gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn, 14 Chwefror 2017.
 Panel Sgrwtini Cyllid – cofnodion 1 Rhagfyr 2017
 Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir)(Cymru) 2016 Rhif 1247 (Cy. 295)
 Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Cymorth i Fusnesau Bychan) (Cymru) 2017

ATODIAD A

Categori	Disgrifiad	Mandadol	Dewisol	Cyfanswm	Cost i'r Cyngor	Rhif
A (1)	Neuaddau Pentref, Canolfannau Cymunedol, Sefydliadau Coffadwrol, Clybiau Hen Bobl,	80%	20%	100%		58

CC-14562-LB/193934

	Cymdeithasau Sgowntiaid a Geidiaid, Cadlanciau'r Môr, Hosbis, Cylchau Chwarae	£114,606	£24,314	£138,920	£18,236	
A (2)	Diogelwch arforol	80%	20%	100%		6
		£37,298	£7,913	£45,211	£5,935	
B (1)	Clybiau adloniant, Theatrau, Ystafelloedd Bandiau ac Amgueddfeydd - (elusen gofrestrdig)	80%	20%	100%		8
		£21,986	£4,740	£26,726	£3,555	
B (2)	Clybiau adloniant, Theatrau, Ystafelloedd Bandiau ac Amgueddfeydd - (heb fod yn elusen gofrestrdig)	0%	100%	100%		30
		£0	£123,430	£123,430	£12,343	
C (1)	Sefydli Addysgol statudol neu ar agor i bawb	80%	20%	100%		1
		£5,893	£1,250	£7,143	£938	
C (2)	Sefydliadau Addysgol	80%	0%	80%		11
		£341,536	£0	£341,536	£0	
CH	Siopau Elusennol	80%	0%	80%		19
